



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales**  
**(The Official Record)**

**Dydd Mawrth 5 Rhagfyr 2000**  
**Tuesday 5 December 2000**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru  
*Questions to the First Minister*
- 12 Cwestiwn Brys: Streic Gweithwyr y Post  
*Urgent Question: The Postal Workers' Strike*
- 16 Datganiad ar Golli Swyddi yn Alcan, Rogerstone  
*Statement on Job Losses at Alcan, Rogerstone*
- 22 Datganiad ar Galedi ac Ariannu Myfyrwyr  
*Statement on Student Hardship and Funding*
- 27 Pwynt o Drefn  
*Point of Order*
- 28 Datganiad Busnes  
*Business Statement*
- 28 Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio  
*Planning Decision Committee*
- 30 Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Dysgu a Medrau (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2000  
*Approval of the Learning and Skills Act 2000 (Commencement No. 2) (Wales) 2000*
- 31 Polisi'r Cynulliad ar y Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat/Y Fenter Cyllid Preifat  
*The Assembly's Public-Private Partnership/Private Finance Initiative Policy*
- 52 Dadl Plaid Leiafrifol (Plaid Cymru—The Party of Wales): Ffurflen Cyfrifiad 2001  
*Minority Party Debate (Plaid Cymru—The Party of Wales): 2001 Census Form*
- 69 Cymeradwyo Newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 22  
*Approval of Changes to Standing Order No. 22*

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.*

*The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

## **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru Questions to the First Minister**

### **Cysylltiadau Fferi rhwng Cymru a Thir Mawr Sbaen Ferry Links between Wales and Mainland Spain**

**Q1 Christine Gwyther:** What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales about increasing ferry links between Wales and mainland Spain? (OAQ8221)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** I have not had any discussions on this subject with the Secretary of State for Wales. The provision of ferry services is a commercial matter for shipping companies. There are currently no ferry services operating between Wales and Spain. If a service was proposed that required expanding port facilities, transport grant and, possibly, regional selective assistance would be available. However, that would be for dockside facilities, not for the ships or the ferry services.

**Christine Gwyther:** This idea was on the stocks for some years in the days of the former Dyfed County Council, although it was never carried through to its conclusion. As the Assembly works ever closer with Europe, do you think that we should consider more physical links with Europe and perhaps encourage companies to consider Wales in a similar way?

**The First Minister:** I take it that Christine refers to mainland Europe when she mentions Europe. Ireland is also a part of Europe and, through the INTERREG programme, we are trying to encourage improved dockside facilities at Holyhead, Pembroke Dock or Fishguard. Swansea is not within the INTERREG area. However, the other three ferry ports would be eligible candidates for grants. Irish ferry links are obvious. However, ferry links to mainland Spain or other European countries are a great problem. The length of the journey on ship would be about 24 hours. Ferry links must compete with much faster journey times,

**C1 Christine Gwyther:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cynyddu'r cysylltiadau fferi rhwng Cymru a thir mawr Sbaen? (OAQ8221)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau ar y mater hwn gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mater masnachol i gwmnïau llongau yw darparu gwasanaethau fferi. Ar hyn o bryd nid oes gwasanaethau fferi yn gweithredu rhwng Cymru a Sbaen. Os caiff gwasanaeth ei gynnig fyddai'n gofyn am ehangu cyfleusterau porthladdoedd, byddai grant trafndiaeth ac, o bosibl, cymorth dethol rhanbarthol ar gael. Fodd bynnag, ar gyfer cyfleusterau yn y doc fyddai hynny, nid ar gyfer y llongau na'r gwasanaethau fferi.

**Christine Gwyther:** Bu'r syniad hwn ar y gweill am rai blynyddoedd yn nyddiau Cyngor Sir Dyfed gynt, er na chafodd ei weithredu i'r diwedd. Wrth i'r Cynulliad weithio'n agosach nag erioed ag Ewrop, a gredwch y dylem ystyried cysylltiadau mwy ffisegol ag Ewrop ac efallai annog cwmnïau i ystyried Cymru mewn ffordd debyg?

**Prif Weinidog Cymru:** Cymeraf fod Christine yn cyfeirio at dir mawr Ewrop pan gyfeiria at Ewrop. Mae Iwerddon hefyd yn rhan o Ewrop a, thrwy raglen INTERREG, ceisiwn annog gwell cyfleusterau dociau yng Nghaerdybi, Doc Penfro neu Abergwaun. Nid yw Abertawe o fewn ardal INTERREG. Fodd bynnag, byddai'r tri phorthladd fferi arall yn ymgeiswyr cymwys i gael grantiau. Mae cysylltiadau fferi ag Iwerddon yn amlwg. Fodd bynnag, mae cysylltiadau fferi i dir mawr Sbaen neu wledydd Ewropeaidd eraill yn broblem fawr. Byddai hyd y daith ar long tua 24 awr. Rhaid i gysylltiadau fferi gystadlu ag amseroedd teithio llawer

such as those provided by the channel tunnel fixed link. In general, the amount of traffic travelling by ferry to mainland Europe is declining because of increasing competition by the channel tunnel.

**Helen Mary Jones:** Given Christine's comments about the importance of links to mainland Europe, with which I am sure we would all agree in principle, do you agree that it would be beneficial for the Assembly to join the Assembly of European Regions, as discussed in last week's meeting of the Committee on European Affairs? That could provide training opportunities to assist our civil service to raise its game in dealing with European issues.

**The Presiding Officer:** Order. This question relates to ferries, not to the Assembly of European Regions. Although that was an ingenious supplementary, the First Minister need not answer it.

**The First Minister:** I cannot see the link either, Presiding Officer. I agree with your ruling.

cyflymach, fel y rhai a ddarperir gan gysylltiad sefydlog twnnel y sianel. Yn gyffredinol, mae'r traffig sydd yn teithio ar fferi i dir mawr Ewrop yn lleihau oherwydd cystadleuaeth gynyddol gan dwnnel y sianel.

**Helen Mary Jones:** O ystyried sylwadau Christine ar bwysigrwydd cysylltiadau â thir mawr Ewrop, y byddem oll yn cytuno â hwy o ran egwyddor yr wyf yn siŵr, a gytunwch y byddai o fantais i'r Cynulliad ymuno â Chynulliad Rhanbarthau Ewrop, fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yr wythnos diwethaf? Gallai hynny ddarparu cyfleoedd hyfforddi i gynorthwyo ein gwasanaeth sifil i wella ei ymdriniaeth â materion Ewropeaidd.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â llongau fferi, nid â Chynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd. Er bod hynny'n atodiad celfydd, nid oes raid i'r Prif Weinidog ei ateb.

**Prif Weinidog Cymru:** Ni welaf innau'r cysylltiad chwaith, Lywydd. Cytunaf â'ch dyfarniad.

### **Datblygu Polisi o Gwmpas Materion Trawsbynciol Developing Policy around Cross-cutting Issues**

**Q2 Pauline Jarman:** Will the First Minister make a brief statement on what resources are being used to develop policy around cross-cutting issues? (OAQ8246)

**The First Minister:** Approximately £100,000 is available for promoting sustainable development and for consultancy work. A total of £90,000 has been allocated as promoting opportunity grants, and £55,000 on the right to vote project. People in Communities schemes are forecasted to receive £1.7 million by the year-end. However, I am sure that Pauline agrees that cross-cutting themes are themes, and therefore, funding over the whole spectrum of Assembly responsibility contributes to developing those themes, as do some initiatives that are run from Westminster Government departments.

**C2 Pauline Jarman:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ba adnoddau sydd yn cael eu defnyddio i ddatblygu polisi o gwmpas materion trawsbynciol? (OAQ8246)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae tua £100,000 ar gael i hybu datblygiad cynaliadwy ac ar gyfer gwaith ymgynghorol. Dyrannwyd cyfanswm o £90,000 fel grantiau hybu cyfleoedd, a £55,000 ar y prosiect hawl i bleidleisio. Rhagwelir y bydd cynlluniau Pobl mewn Cymunedau yn derbyn £1.7 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr bod Pauline yn cytuno bod themâu trawsbynciol yn themâu, ac felly, mae ariannu ar draws sbectrwm cyfan cyfrifoldeb y Cynulliad yn cyfrannu tuag at ddatblygu'r themâu hynny, fel y mae rhai mentrau a gaiff eu rheoli o adrannau'r Llywodraeth yn San Steffan.

**Pauline Jarman:** The Human Rights Act 1998, which came into force on 2 October 2000, is one of the most important cross-cutting issues. In a recent judgment, a Scottish court found the actions of a Scottish Minister who had sought to call in a planning application and appointed an inspector to conduct the public local inquiry to be in breach of article 6 of the European Convention on Human Rights. As planning procedures are the same in Wales, how can we be certain that everyone's human rights are properly provided for?

**The First Minister:** I am sure that Pauline is aware that the UK has two parallel yet different legal systems—one for Scotland and another for the rest of the UK. There is some play-off between the two, and one will sometimes follow the other. These are fairly fundamental issues, as the European Convention on Human Rights has been incorporated into domestic law. However, the legal systems will not necessarily act at the same time. Although the same issue could arise, I will not predict what could happen in the courts under the England and Wales system, based on a precedent from a different legal system in Scotland.

**The Presiding Officer:** Question 3 has been withdrawn.

**Pauline Jarman:** Mae Deddf Hawliau Dynol 1998, a ddaeth i rym ar 2 Hydref 2000, yn un o'r materion trawsbynciol pwysicaf. Mewn dyfarniad ddiweddar, dyfarnodd llys yn yr Alban fod gweithredoedd Gweinidog o'r Alban a ymdrechodd i alw cais cynllunio i mewn a phenodi arolygydd i gynnal yr archwiliad lleol cyhoeddus yn mynd yn groes i erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gan fod yr un gweithdrefnau cynllunio yng Nghymru, sut y gallwn fod yn bendant y darperir yn gywir ar gyfer hawliau dynol pawb?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn siŵr bod Pauline yn ymwybodol bod gan y DU ddwy system gyfreithiol baralel ond gwahanol—un ar gyfer yr Alban ac un arall ar gyfer gweddill y DU. Ceir rhywfaint o wrthgyferbyniad rhwng y ddau, ac weithiau bydd un yn dilyn y llall. Mae'r rhain yn faterion gweddol sylfaenol, gan bod y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori i gyfraith ddomestig. Fodd bynnag, ni fydd y systemau cyfreithiol o reidrwydd yn gweithredu ar yr un pryd. Er y gallai'r un mater godi, ni ragwelaf beth allai ddigwydd yn y llysoedd o dan system Cymru a Lloegr, yn seiliedig ar gysail o system gyfreithiol wahanol yn yr Alban.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl.

### **Dydd Gŵyl Dewi yn Wyl Gyhoeddus St David's Day as a Public Holiday**

**C4 Owen John Thomas:** Pryd y bydd Prif Weinidog Cymru mewn sefyllfa i gyhoeddi bod Dydd Gŵyl Dewi yn wyl gyhoeddus yn unol â'r cynnig a basiwyd yn y Siambr hon ar 1 Mawrth 2000? (OAQ8218)

**Prif Weinidog Cymru:** Mater yw hwn i Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac i'r Llywodraeth yn San Steffan. Nid yw'r mater o greu gwyliau banc newydd wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.

**Owen John Thomas:** Yr wyf yn falch bod y cytundeb Lib-Lab bondigrybwyll wedi mabwysiadu'r amcan a dderbyniwyd yn

**Q4 Owen John Thomas:** When will the First Minister be in a position to announce that St David's Day is a public holiday in accordance with the motion passed in this Chamber on 1 March 2000? (OAQ8218)

**The First Minister:** This is a matter for Paul Murphy, the Secretary of State for Wales, and for the Government in Westminster. The matter of creating new bank holidays has not been devolved to the Assembly.

**Owen John Thomas:** I am pleased that the Lib-Lab agreement has adopted the objective that was accepted unanimously by the

unfrydol gan y Cynulliad ar 1 Mawrth eleni. Dyma gyfle inni ddangos mewn ffordd syml ond symbolaidd bod y corff hwn yn gallu gwireddu ein penderfyniadau. Fel un a bleidleisiodd o blaid y cynnig hwnnw, a wnewch chi ysgrifennu at y Prif Weinidog arall a rhoi gwybod iddo bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru am iddo, heb oedi dim, drefnu i 1 Mawrth ddod yn ŵyl banc genedlaethol yng Nghymru?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yr un mor awyddus ag Owen John Thomas ac eraill i sefydlu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl banc yng Nghymru. Dengys y cytundeb partneriaeth mai un o'n hymrwymiaidau yw pwysu ar y Llywodraeth yn Llundain i wneud 1 Mawrth yn ŵyl banc newydd yng Nghymru. Yr wyf wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn iddo ymgynghori â'i gyfeillion yn y Llywodraeth yn San Steffan. Ni fu llwyddiant hyd yn hyn o ran unrhyw gyhoeddiadau gan y Llywodraeth yn San Steffan.

**Peter Black:** I also welcome the commitment in the partnership agreement to declare St David's Day as a public holiday. Given that there are a number of commitments in the partnership agreement that rely on the UK Government to deliver them, what discussions have taken place with the UK Government about how that partnership agreement can be taken forward using UK legislation or Orders in Council as appropriate?

**The First Minister:** Starting with the St David's Day bank holiday issue, which is not a devolved matter, those discussions would normally take place via the Secretary of State for Wales because that is what he is there for. Sometimes, these discussions take place with the Government more collectively. The Government is fully aware of the partnership agreement's content. It did not dance in the street about one or two aspects of it—as one would expect—but thought that it was, in general, a good way forward for delivering for the people of Wales.

**Alun Cairns:** A yw'r Gweinidog yn derbyn

Assembly on 1 March this year. This is an opportunity for us to show in a simple yet symbolic way that this body can carry out our resolutions. As one who voted in favour of that motion, will you write to the Prime Minister and inform him that the National Assembly for Wales wishes him to arrange, without delay, for 1 March to become a national bank holiday in Wales?

**The First Minister:** I am as eager as Owen John Thomas and others to establish St David's Day as a bank holiday in Wales. The partnership agreement shows that one of our commitments is to urge the Government in London to make 1 March a new bank holiday in Wales. I have written to the Secretary of State for Wales to ask him to consult with his colleagues in the Westminster Government. There has been no success to date as far as any announcement by the Government in Westminster is concerned.

**Peter Black:** Croesawaf hefyd yr ymrwymiad yn y cytundeb partneriaeth i ddatgan Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl gyhoeddus. O ystyried bod nifer o ymrwymiaidau yn y cytundeb partneriaeth sydd yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i'w cyflwyno, pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ar sut y gellid mynd i'r afael â'r cytundeb partneriaeth hwnnw gan ddefnyddio deddfwriaeth y DU neu Orchmynion y Cyfrin Gyngor fel y bo'n briodol?

**Prif Weinidog Cymru:** Gan ddechrau gyda mater gŵyl y banc Dydd Gŵyl Dewi, nad yw'n fater a ddatganolwyd, cynhelir y trafodaethau hynny fel arfer drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru oherwydd dyna yw ei bwrpas. Weithiau, cynhelir y trafodaethau hyn gyda'r Llywodraeth yn fwy cyfunol. Mae'r Llywodraeth yn llawn ymwybodol o gynnwys y cytundeb partneriaeth. Nid oedd yn gorfoddelu am un neu ddau agwedd arno—fel y disgwylir—ond credodd ei fod, yn gyffredinol, yn ffordd dda ymlaen i ddarparu ar gyfer pobl Cymru.

**Alun Cairns:** Does the Minister accept that

bod Plaid Geidwadol Cymru wedi chwarae rôl flaenllaw wrth alw am ŵyl y banc ar Ddydd Gŵyl Dewi? Fodd bynnag, yn y datganiad barn gwreiddiol, cydnabuasom na allem gael diwrnod gŵyl y banc ychwanegol. A ydych yn derbyn, felly, fod gan Ddydd Gŵyl Dewi fwy o arwyddocâd i hanes Cymru na gŵyl y banc 1 Mai?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr oedd yr hyn y mae Alun newydd ei ddisgrifio yn gyfraniad unigryw gan y Blaid Geidwadol. Ni chredaf fod y pleidiau eraill yn y Cynulliad am wneud y math hwnnw o amod ar yr alwad am ŵyl banc ychwanegol ar 1 Mawrth. Mae gan y Blaid Doriadaidd bob hawl i fod ar wahân i'r pleidiau eraill yn y Cynulliad, fel y mae yn aml. Mae'r cwestiwn hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth ynghylch cael gŵyl banc ychwanegol i San Siôr yn Lloegr a San Andreas yn yr Alban. Dethlir Dydd San Padrig fel gŵyl y banc yng Ngogledd Iwerddon yn barod. Fodd bynnag, dim ond hanner y bobl yng Ngogledd Iwerddon sydd yn dathlu'r diwrnod hwnnw.

**The Presiding Officer:** Question 5 has been withdrawn.

the Welsh Conservative Party has taken a leading role in calling for a bank holiday on St David's Day? However, in the original statement, we recognised that we could not have an additional bank holiday. Do you accept, therefore, that St David's Day has greater significance to the history of Wales than the 1 May bank holiday?

**The First Minister:** What Alun has just described was a unique contribution from the Conservative Party. I do not believe that the other parties in this Assembly wanted to impose that kind of a condition on the call for an additional bank holiday on 1 March. The Tory Party has every right to set itself apart from the other parties in the Assembly, as it often does. This question is being considered as part of the discussion on having an additional bank holiday for St George's Day in England and St Andrew's Day in Scotland. St Patrick's Day is already celebrated as a bank holiday in Northern Ireland. However, only half the people in Northern Ireland celebrate that day.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

### Briffio'r Wasg Briefing the Press

**C6 David Davies:** A yw'n bolisi gan y Cabinet i friffio'r wasg cyn Aelodau'r Cynulliad? (OAQ8219)

**Prif Weinidog Cymru:** Nac ydyw—nid ar yr un pynciau na'r un cynnwys beth bynnag. Fodd bynnag, yr wyf yn ddiolchgar am y cwestiwn, David, am ei fod yn rhoi'r cyfle imi ailadrodd ein polisi. Mae gennym brotocol i sicrhau nad yw cynnwys datganiadau a wneir yn y Siambwr yn cael ei ddatgelu i'r wasg nac i unrhyw un arall—ac eithrio Gweinidogion a rheolwyr busnes y pleidiau—nes eu bod yn cael eu gwneud ger bron y corff hwn.

2:10 p.m.

**David Davies:** A gytunwch fod y wasg fel arfer yn gwybod am y datganiadau cyn Aelodau'r Cynulliad? A wnewch chi sicrhau y bydd yr Aelodau yn gwybod am y

**Q6 David Davies:** Is it Cabinet policy to brief the press before Members of the Assembly? (OAQ8219)

**The First Minister:** No, it is not—at least not on the same subjects or contents. However, I am grateful for your question, David, because it gives me the opportunity to reiterate our policy. We have a protocol to ensure that the content of statements made in the Chamber is not released to the press or anyone else—with the exception of Ministers and party business managers—until they are made before this body.

**David Davies:** Do you agree that the press usually knows about the statements before Assembly Members? Will you ensure that in future Members know about the statements

datganiadau cyn y wasg yn y dyfodol?

**Prif Weinidog Cymru:** Ni all David roi enghraifft. Sylwais na roddodd enghraifft wrth wneud y sylw hwnnw, er mwyn imi ymateb iddo. Efallai ei fod yn derbyn bod unrhyw honiad ein bod yn rhoi gwybodaeth i'r wasg cyn ei rhoi yn gyflawn i'r Cynulliad yn ddi-sail.

**Jocelyn Davies:** Do you read the *Daily Mirror* on Saturday?

**The First Minister:** No, I do not.

**Jocelyn Davies:** So there you are then. [*Laughter.*]

**The First Minister:** Is that a parliamentary expression?

**The Presiding Officer:** Order. I request that Members only ask one supplementary. Question 7 from Kirsty Williams has been withdrawn. Members will note that I am reading 'withdrawn questions' slowly and carefully.

### **Monitro a yw'r Polisiâu yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cael eu Gweithredu Monitoring the Achievement of Policies contained in 'Putting Wales First'**

**Q8 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** Will the First Minister make a statement on how he will monitor whether the policies contained in 'Putting Wales First' are being met? (OAQ8228)

**The First Minister:** When I made the statement in Plenary on 21 November on 'Putting Wales First' I indicated that the programme will run until July 2001—the beginning of the next summer recess—and it was the annual government business programme. On this occasion, because it is the first one, it is not annual but eight months long. Normally, it would be expected to cover a full legislative and executive work programme for a 12-month period. The monitoring of that programme is a matter for the Executive and the opposition parties because we are accountable to the Assembly for whether we have done what we set out to

before the press?

**The First Minister:** David is not able to give an example. I noted that he did not provide an example while making that comment, so that I could respond to him. Perhaps he accepts that any allegation that we give information to the press before giving it in full to the Assembly is without foundation.

**Jocelyn Davies:** A ydych yn darllen y *Daily Mirror* ar ddydd Sadwrn?

**Prif Weinidog Cymru:** Nac ydw.

**Jocelyn Davies:** Dyna chi felly. [*Chwerthin.*]

**Prif Weinidog Cymru:** A yw hynny'n ddywediad seneddol?

**Y Llywydd:** Trefn. Dymunaf mai dim ond un cwestiwn atodol y dylai'r Aelodau ei ofyn. Tynnwyd cwestiwn 7 gan Kirsty Williams yn ôl. Noda'r Aelodau fy mod yn darllen y 'cwestiynau a dynnwyd yn ôl' yn araf ac yn ofalus.

**C8 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y bydd yn monitro a yw'r polisiâu yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn cael eu gweithredu? (OAQ8228)

**Prif Weinidog Cymru:** Pan wneuthum y datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Tachwedd ar 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' nodais y cynhelir y rhaglen tan fis Gorffennaf 2001—dechrau'r toriad haf nesaf—ac mai hon oedd rhaglen fusnes flynyddol y llywodraeth. Y tro hwn, oherwydd am mai hon yw'r un gyntaf, nid yw'n flynyddol ond yn wyth mis o hyd. Fel arfer, disgwylir iddo gwmpasu rhaglen waith ddeddfwriaethol a gweithredol lawn am gyfnod o 12 mis. Mater i'r Weithrediaeth a'r gwrth bleidiau fydd monitro'r rhaglen honno oherwydd ein bod yn atebol i'r Cynulliad ar gyfer pa un a wnaethom yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei



do in the annual government business programme, not only this year but in future. We are also accountable to the people of Wales, who are the ultimate accountable body, at the next Assembly elections in May 2003.

**Nick Bourne:** Does the First Minister accept that some of the statements and policy outlines in 'Putting Wales First' go far beyond July 2001. For example, the piloting of the Welsh baccalaureate will be much later than that. How does the First Minister propose to pilot these matters which are outside that period? Indeed, some of them are outside of this Assembly's lifetime.

**The First Minister:** They will commence during that period. The fact that they are a programme of work for the first seven or eight months does not mean that they have to be terminated during that period. They may, by the nature of the work or the task that you are setting out to accomplish, take two to three years. In the case of the Welsh baccalaureate, we have always made it clear—because the people who invented the Welsh baccalaureate have made it clear to us—that two or three years' work needs to go into the Welsh baccalaureate before you can say that it is of full industrial strength.

**Nick Bourne:** Given that the policies contained in 'Putting Wales First' are to last this Assembly's lifetime, is it the First Minister's intention to enter the next Assembly elections in partnership with the Liberal Democrats, if they will have him?

**The First Minister:** It does not work like that. The partnership programme notes a termination date of the first Wednesday of April 2003, if I remember rightly. We are free agents during the election. What happens after the election is a matter for the voters of Wales.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Mae dogfen y glymblaid yn sôn am ddau adolygiad: adolygiad o weithdrefnau'r

wneud yn rhaglen fusnes flynyddol y llywodraeth ai peidio, nid eleni yn unig ond yn y dyfodol. Yr ydym hefyd yn atebol i bobl Cymru, sef y corff atebol sylfaenol, adeg etholiadau nesaf y Cynulliad ym mis Mai 2003.

**Nick Bourne:** A yw'r Prif Weinidog yn derbyn bod rhai o'r datganiadau a fframweithiau polisi yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' yn mynd ymhell y tu hwnt i fis Gorffennaf 2001. Er enghraifft, bydd peilot bagloriaeth Cymru yn llawer hwyrach na hynny. Sut y bwriada'r Prif Weinidog beilota'r materion hynny sydd y tu allan i'r cyfnod hwnnw? Yn wir, mae rhai ohonynt y tu allan i oes y Cynulliad hwn.

**Prif Weinidog Cymru:** Byddant yn dechrau yn ystod y cyfnod hwnnw. Nid yw'r ffaith eu bod yn rhaglen waith ar gyfer y saith neu wyth mis cyntaf yn golygu bod yn rhaid eu terfynu yn ystod y cyfnod hwnnw. Gallent, oherwydd natur y gwaith neu'r dasg yr ydych yn bwriadu ei chyflawni, gymryd dwy i dair blynedd i'w cwblhau. Yn achos y fagloriaeth Gymreig, yr ydym bob amser wedi egluro—oherwydd bod y bobl a ddyfeisiodd bagloriaeth Cymru wedi egluro inni—bod angen rhoi dwy neu dair blynedd o waith i fagloriaeth Cymru cyn y gellir dweud ei fod o gryfder diwydiannol llawn.

**Nick Bourne:** O ystyried bod y polisiau a gaiff eu cynnwys yn 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' i fod i barhau am oes y Cynulliad hwn, ai bwriad y Prif Weinidog yw mynd i mewn i etholiadau nesaf y Cynulliad mewn partneriaeth â'r Democratiaid Rhyddfrydol, os byddant yn fodlon ei dderbyn?

**Prif Weinidog Cymru:** Nid dyna'r ffordd y mae'n gweithio. Mae'r rhaglen bartneriaeth yn nodi dyddiad cwblhau, sef dydd Mercher cyntaf mis Ebrill 2003, os yw fy ngof yn iawn. Yr ydym yn rhydd i wneud yr hyn a fynnom yn ystod yr etholiad. Mater i bleidleiswyr Cymru fydd yr hyn a ddigwydd wedi'r etholiad.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** The coalition document refers to two reviews: the review of Assembly procedures

Cynulliad a'r comisiwn annibynnol y dywedwch y byddwch yn ei sefydlu, a fydd yn adrodd ar ôl 2003. A ydych wedi darllen beirniadeth lem Ron Davies o'r hyn a elwir ganddo yn fethiant y Cabinet i roi cynlluniau deddfu ger bron San Steffan pan mae'r Cynulliad hwn wedi gwneud penderfyniadau o blaid hynny? Mae hynny'n feirniadaeth lem, sef nad ydych yn gwranddo ar benderfyniadau'r Cynulliad. A dderbyniwch feirniadaeth Ron Davies?

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi darllen y papur. Darllenis rai sylwadau ar bapur Ron Davies ond nid oeddwn yn adnabod y sefyllfa yr oedd Ron yn ei disgrifio. Mae'n anodd inni drafod y mater heddiw, ddiwrnod cyn Araith y Frenhines yn San Steffan. Yr ydym yn parhau'n obeithiol y ceir y Mesur annibynnol cyntaf, sydd wedi ei wreiddio yn y Cynulliad, ar alwad holl bleidiau'r Cynulliad, ar gyfer Comisiynydd Plant annibynnol ac i ymestyn pwerau'r comisiynydd fel eu bod yn debycach i'r hyn a geir yn Sgandinafia a thu allan i'r system ofal.

Bydd yn rhaid inni aros tan yfory i glywed a fydd Mesurau eraill yr ydym wedi chwarae rhan ynddynt wedi eu cynnwys yn Araith y Frenhines. Mae'n anodd i mi ateb heddiw, lai na 24 awr cyn i'r Frenhines wneud ei haraith flynyddol yn Nhŷ'r Arglwyddi.

**Ieuan Wyn Jones:** Onid pwynt Ron Davies yn ei bapur yw y dylech ddweud wrthym pa geisiadau yr ydych wedi eu gwneud am ddeddfwriaeth? A allwch ddweud hynny wrthym? Noda Ron Davies yn glir fod y diffyg cysylltiad amlwg rhwng San Steffan a'r Cynulliad yn gadael Cymru i lawr. A dderbyniwch fod Ron Davies wedi gwneud dadansoddiad deifiol o'r modd y gweithredwch fel Cabinet? A fyddwch yn ymateb yn bositif i hynny?

**Prif Weinidog Cymru:** Ni dderbyniaf fod y Cynulliad na Llywodraeth y Cynulliad yn gadael Cymru i lawr. Ffolineb yw honni hynny ddiwrnod cyn y prawf, sef a fydd y Mesur yr ydym wedi bod yn gofyn amdano wedi ei dderbyn ac wedi ei gynnwys yn Araith y Frenhines.

and the independent commission that you say you will establish, which will report back after 2003. Have you read Ron Davies's severe criticism of what he calls the Cabinet's failure to put legislative plans before Westminster when this Assembly has decided to do so? That is severe criticism, namely that you do not listen to the Assembly's decisions. Do you accept Ron Davies's criticism?

**The First Minister:** I have not read the paper. I have read some comments on Ron Davies's paper but I did not recognise the situation described by Ron. It is difficult for us to discuss the matter today, a day before the Queen's Speech in Westminster. We remain optimistic about the inclusion of the first independent Bill, rooted in the Assembly, at the behest of all parties in the Assembly, for an independent Children's Commissioner and to extend the commissioner's powers so that they are closer to the Scandinavian model and outside the care system.

We will have to wait until tomorrow to hear whether other Bills in which we have played a part are included in the Queen's Speech. It is difficult for me to reply today, less than 24 hours before the Queen makes her annual speech in the House of Lords.

**Ieuan Wyn Jones:** Is it not Ron Davies's point in his paper that you should tell us what requests you have made for legislation? Can you tell us that? Ron Davies states clearly that the lack of a clear link between Westminster and the Assembly is letting Wales down. Do you accept that Ron Davies has made a scathing analysis of how you work as a Cabinet? Will you respond positively to that?

**The First Minister:** I do not accept that the Assembly or the Assembly's Government is letting Wales down. It is foolish to claim that the day before the test, namely whether the Bill that we have been requesting has been accepted and included in the Queen's Speech.

Yr ydym wedi bod yn pwysu am i rannau o rai o'r Mesurau eraill a ystyriwyd gael eu cynnwys. Y broblem yw, heblaw am y Mesurau annibynnol, megis y Mesur i ymestyn pwerau'r Comisiynydd Plant annibynnol, nid yw Aelodau Seneddol yn gwybod beth sydd yn Araith y Frenhines ychwaith. Ni allwn ddisgwyl i Aelodau meinciau cefn y Cynulliad wybod mwy am yr hyn sydd yn Araith y Frenhines nag Aelodau meinciau cefn San Steffan. Dyna'r broblwm.

We have been pressing for aspects of some of the other Bills that have been considered to be included. The problem is, apart from the independent Bills, such as the Bill to extend the powers of the independent Children's Commissioner, Members of Parliament do not know what will be in the Queen's Speech either. We cannot expect Assembly back benchers to know more about the content of the Queen's Speech than Westminster back benchers. That is the problem.

Yr wyf yn parhau'n hyderus ein bod wedi gallu ymestyn ein cyfraniad i Araith y Frenhines a gobeithiaf y caf fy mhrofi'n iawn yfory. Yfory yw'r diwrnod priodol inni drafod y mater hwn, yn hytrach na heddiw gyda'r holl *guesstimates* y mae Ieuan ac eraill wedi bod yn eu gwneud.

I remain confident that we have been able to enhance our contribution to the Queen's Speech and I hope to be proved right tomorrow. Tomorrow is the appropriate day to discuss this matter, rather than today with all the *guesstimates* that Ieuan and others have been making.

### **Y Datblygiadau Diweddaraf ym Mholisi Ewrop The Latest Developments in European Policy**

**Q9 Alun Cairns:** Will the First Minister make a statement on the latest developments of European policy that directly relates to Wales? (OAQ8231)

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf ym mholisi Ewrop sydd yn ymwneud yn uniongyrchol â Chymru? (OAQ8231)

**The First Minister:** There are many recent policy developments that relate to Wales. Alun will be aware of one such development because he attended the same meeting as myself on this issue. It relates to the fact that we have slightly less than 13 months to prepare for the arrival of the euro as legal tender in Ireland and 10 other countries. That will have a major impact not only on the ferry ports of Swansea, Holyhead, Fishguard and Pembroke Dock but on those who run businesses that serve tourists or truckers going to and from Ireland along the M4 and the A55. Three of the nations that take part in the six nations rugby tournament will be euro legal tender countries following the tournament, which starts in February 2001. Their citizens may expect to be served in euros when they come to places such as Cardiff for international matches in 2001 and beyond.

**Prif Weinidog Cymru:** Mae llawer o ddatblygiadau polisi diweddar sydd yn ymwneud â Chymru. Bydd Alun yn ymwybodol o un datblygiad o'r fath gan iddo fynychu'r un cyfarfod â minnau ar y mater hwn. Mae'n ymwneud â'r ffaith mai ychydig yn llai na 13 mis sydd gennym i baratoi ar gyfer dyfodiad yr ewro fel arian cyfreithiol yn Iwerddon a 10 o wledydd eraill. Caiff hynny effaith fawr nid yn unig ar borthladdoedd fferi Abertawe, Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro ond hefyd ar y rhai hynny sydd yn rhedeg busnesau sydd yn gwasanaethu twristiaid neu yrwyr lori sydd yn mynd yn ôl ac ymlaen i Iwerddon ar hyd yr M4 a'r A55. Bydd tair o'r gwledydd sydd yn cymryd rhan yn nhwrnament rygbi'r chwe gwlad yn wledydd a fydd â'r ewro fel arian cyfreithiol yn dilyn y twrnament, sydd yn dechrau ym mis Chwefror 2001. Disgwylia eu dinasyddion gael eu gwasanaethu mewn ewros pan ddônt i leoedd megis Caerdydd ar gyfer gemau rhyngwladol yn 2001 ac wedi

hynny.

**Alun Cairns:** Will the First Minister give us details on the latest negotiations with the Treasury on operating aids? Is the Chancellor of the Exchequer now aware of the Economic Development Committee's demands? He was unaware of them six or eight weeks ago. What operating aids does he expect the Chancellor to accept and does he accept that the operating aids submission should have been made at the same time as the programme complement two months ago?

**Alun Cairns:** A rydd y Prif Weinidog fanylion inni ar y trafodaethau diweddaraf â'r Trysorlys ar gymhorthion gweithredu? A yw Canghellor y Trysorlys yn ymwybodol erbyn hyn o ofynion y Pwyllgor Datblygu Economaidd? Nid oedd yn ymwybodol ohonynt chwech neu wyth wythnos yn ôl. Pa gymhorthion gweithredu y bydd yn disgwyl i'r Canghellor eu derbyn ac a yw'n derbyn y dylid bod wedi cyflwyno'r cymhorthion gweithredu yr un pryd â dogfen ategol y rhaglen ddau fis yn ôl?

**The First Minister:** Alun asked a complicated series of questions, which bear a close similarity to the questions that he raised a week, a fortnight and three weeks ago. If you could get repetitive strain injury from talking rubbish all the time, Alun Cairns would probably have a doctor's sick note for it by now.

**Prif Weinidog Cymru:** Gofynnodd Alun gyfres o gwestiynau cymhleth, sydd yn debyg iawn i'r cwestiynau a gododd wythnos, bythefnos a thair wythnos yn ôl. Os ydych yn gallu cael anaf straen ailadroddllyd o siarad lol drwy'r adeg, mae'n debyg y byddai gan Alun Cairns nodyn meddyg ar gyfer hynny erbyn hyn.

If Alun wants to discuss Gordon Brown's response when he commenced his pre-budget consultation at Bridgend, where Alun and I were present and where Alun raised the matter of operating aids, I will do so. To a modest degree, there is reference to a sort of operating aid in the budget White Paper as regards what happens in specific brownfield sites and so on. Mike German is going to Brussels this afternoon to discuss that issue with the Competition Commissioner. These subjects are always under review. However, you must remember how difficult it is to demonstrate to the Treasury and the competition directorate of Europe how your operating aids will provide value for money, and will not represent some of the mistakes that were made when his Government brought in enterprise zones 20 years ago, and all that happened was a lot of out-of-town retail parks were built.

Os yw Alun am drafod ymateb Gordon Brown pan ddechreuodd ei ymgynghoriad cyn y gyllideb ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ble yr oedd Alun a minnau yn bresennol a lle cododd Alun y mater o gymhorthion gweithredu, gwnaf hynny. I raddau rhesymol, ceir cyfeiriad at fath o gymorth gweithredu ym Mhapur Gwyn y gyllideb yn ymwneud â'r hyn sydd yn digwydd mewn safleoedd meysydd llwyd penodol ac ati. Mae Mike German yn mynd i Frwsel brynhawn heddiw i drafod y mater hwnnw gyda'r Comisiynydd Cystadleuaeth. Caiff y pynciau hyn eu hadolygu drwy'r amser. Fodd bynnag, rhaid cofio pa mor anodd oedd arddangos i'r Trysorlys a chyfarwyddiaeth cystadleuaeth Ewrop sut y bydd eich cymhorthion gweithredu yn sicrhau gwerth am arian, ac na fyddant yn cynrychioli rhai o'r camgymeriadau a wnaethpwyd pan gyflwynodd ei Lywodraeth ardaloedd menter 20 mlynedd yn ôl, a'r cwbl a welwyd o ganlyniad i hynny oedd llawer o barciau manwerthu yn cael eu hadeiladu y tu allan i drefi.

2:20 p.m.

**Val Feld:** Does Rhodri agree that it would be helpful if Alun Cairns, in his role as Welsh Conservative Party economic spokesman, would understand that there are two kinds of operating aids. There are those that are tools used as part of structural funds programmes to assist businesses to grow and develop. Those are already contained within the single programming document for Objective 1 and Objective 2. There are also operating aids that operate within your country where there is a negative cost to the Treasury. They take time to negotiate and it is helpful to people outside if those are separate. My question is—*[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. This is question time. I enjoy sharp, brief questions and reasonably brief answers.

**Val Feld:** My question is whether you feel that it is helpful to businesses in Wales that we should make that distinction at all times?

**The First Minister:** Yes, I agree entirely. *[Laughter.]* There are European operating aids that should come under the programme complement. In addition, there are general operating aids that are distinct from the issue of the content of the programme complement. Val is correct about that and Alun persistently refuses to recognise that key distinction.

**Val Feld:** A gytuna Rhodri y byddai'n ddefnyddiol pe bai Alun Cairns, yn ei swyddogaeth fel llefarydd economaidd Plaid Geidwadol Cymru, yn deall bod dau fath o gymhorthion gweithredu. Ceir y rheini sydd yn offer a ddefnyddir fel rhan o raglenni cronfeydd strwythurol i gynorthwyo busnesau i dyfu a datblygu. Cynhwysir y rheini yn y ddogfen raglennu sengl ar gyfer Amcan 1 ac Amcan 2 eisoes. Hefyd, ceir cymhorthion gweithredu sydd yn gweithredu o fewn eich gwlad yn y manau lle ceir cost negyddol i'r Trysorlys. Cymerir cryn amser i'w trafod a byddai'n ddefnyddiol i bobl y tu allan os byddai'r rhai hynny ar wahân. Fy nghwestiwn yw—*[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Amser cwestiynau yw hwn. Gwerthfawrogaf gwestiynau bachog, byr ac atebion gweddol fyr.

**Val Feld:** Fy nghwestiwn yw a ydych o'r farn ei bod yn ddefnyddiol i fusnesau yng Nghymru inni wneud y gwahaniaethiad hwnnw bob amser?

**Prif Weinidog Cymru:** Ydwyf, cytunaf yn llwyr. *[Chwerthin.]* Ceir cymhorthion gweithredu Ewropeaidd a ddylai ddod o dan ddogfen ategol y rhaglen. Yn ogystal, ceir cymhorthion gweithredu cyffredinol sydd yn wahanol i'r mater o gynnwys dogfen ategol y rhaglen. Mae Val yn gywir ynghylch hynny ac mae Alun yn gwrthod cydnabod y gwahaniaeth allweddol hwnnw yn gyson.

### **Cynnwys Araith y Frenhines ar Dai The Contents of the Queen's Speech on Housing**

**Q10 Peter Black:** What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales regarding the contents of the Queen's Speech on housing? (OAQ8220)

**The First Minister:** The Queen will open Parliament at 11.30 a.m. in the House of Lords in the usual way and will deliver her speech. The contents of the speech, and the legislative programme that it outlines, are a matter for the UK Government and are confidential until that time. I have discussed, with the Secretary of State for Wales and

**C10 Peter Black:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cynnwys Araith y Frenhines ar dai? (OAQ8220)

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd y Frenhines yn agor y Senedd am 11.30 a.m. yn Nhŷ'r Arglwyddi yn y ffordd arferol a bydd yn cyflwyno ei haraith. Mater i lywodraeth y DU yw cynnwys yr araith, a'r rhaglen ddeddfwriaethol a amlinella, a bydd yn gyfrinachol tan hynny. Trafodais, gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a

other Government Ministers, the matters on which we have pressed for Bills. Those matters may require separate Bills for Wales, such as the independent Children's Commissioner Bill, or clauses or parts of those Bills that are of a general England and Wales, or sometimes UK, import.

**Peter Black:** Welcome as the fact is that the Government is following Wales's lead on legislation on homelessness is, will you make representations to the UK Government on the urgent need to introduce a licensing Bill for houses in multiple occupation and for the National Assembly for Wales to have the maximum amount of secondary legislation to devise its own scheme?

**The First Minister:** I am grateful for those observations. We all realise that the Queen's Speech that will be made tomorrow may be of a slightly unusual character. The last Queen's Speech had to cover a 13-month legislative year, from November to December. Therefore, it was able to accommodate much longer Bills; the classic England-Wales measure, if you like, which has 100 clauses, 10 of which apply to Wales. However, because a general election may be imminent in the late spring we may not have any 100 clause Bills, with or without 10 clauses for Wales. There will not be sufficient time to pass any Bill with 100 clauses, because the legislative year will be less than half the length of that which ended last week. Nevertheless, I am aware that there is a Government Green Paper on housing. I doubt whether you can go straight to legislation from a Green Paper without having a White Paper. However, it could happen and then the questions that Peter has asked would become material.

**Janet Davies:** Action to implement the wider categories of homelessness that was agreed in a Plenary session in this Chamber has not yet been taken. When do you propose to do that, Rhodri?

Gweinidogion eraill yn y Llywodraeth, y materion lle y buom yn pwysu i gael Mesurau. Gallai'r materion hynny ofyn am Fesurau penodol i Gymru, megis y Mesur Comisiynydd Plant annibynnol, neu am gymalau neu rannau o'r Mesurau sydd o bwys cyffredinol i Loegr a Chymru, neu weithiau o bwys i'r DU.

**Peter Black:** Er fy mod yn croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth yn dilyn arweiniad Cymru ar ddeddfwriaeth ar y digartref, a gyflwynwch sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr angen brys i gyflwyno Mesur trwyddedu ar gyfer tai mewn amlbreswyliaeth ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael yr holl is-ddeddfwriaeth sydd yn bosibl i lunio ei gynllun ei hun?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ddiolchgar am y sylwadau hynny. Deallwn oll y gallai Araith y Frenhines a gaiff ei thraddodi yfory fod o natur ychydig yn anarferol. Rhaid oedd i Araith ddiwethaf y Frenhines gwmpasu blwyddyn ddeddfwriaethol 13 mis o hyd, o fis Tachwedd i fis Rhagfyr. Felly, llwyddodd i gynnwys Mesurau llawer hwy, megis yr hyn y gellid ei alw'n fesur clasurol Cymru-Lloegr, sydd â 100 o gymalau, 10 ohonynt yn berthnasol i Gymru. Fodd bynnag, oherwydd y gallai etholiad cyffredinol ddigwydd ddiwedd y gwanwyn efallai na chawn unrhyw Fesurau â 100 cymal, gyda 10 cymal i Gymru ai peidio. Ni fydd digon o amser i basio unrhyw Fesur gyda 100 cymal, oherwydd bydd y flwyddyn ddeddfwriaethol yn llai na hanner hyd y flwyddyn a ddaeth i ben yr wythnos diwethaf. Er hynny, yr wyf yn ymwybodol bod y Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd ar dai. Yr wyf yn amau a ellir mynd yn syth i lunio deddfwriaeth o Bapur Gwyrdd heb gael Papur Gwyn. Fodd bynnag, gallai hynny ddigwydd ac yna byddai'r cwestiynau a ofynnodd Peter yn berthnasol.

**Janet Davies:** Ni chymerwyd camau hyd yma i weithredu'r categorïau ehangach ar y digartref y cytunwyd arnynt mewn Cyfarfod Llawn yn y Siambr. Pryd y bwriadwch wneud hynny, Rhodri?

**The First Minister:** I will write to Janet on that. I would have liked notice of a question that is as precise as that about forthcoming actions. However, I will write to her after consultation with Edwina and Peter.

**William Graham:** In Her Majesty's gracious speech from the throne, do you suppose, First Minister, that there will be a measure to implement an audit of housing stock in Wales, to include, in particular, those properties that have been specially adapted for disabled people? If not, will you press accordingly for such measures?

**The First Minister:** It may not be in tomorrow's Queen's Speech, because tomorrow's speech is, in a way, the first proper post-devolution Queen's Speech. When powers were transferred to us in July 1999, discussion about the legislation to be included in the last Queen's Speech was already underway. Therefore, we were not able to have a full input into that, although we were lucky enough to have many partial measures included in Bills that were part of that speech. On this occasion, because of the special circumstances of a short Queen's Speech with a premium on short Bills and because of the danger of a general election—certainly a danger to the Tory party—

**Several Conservative Members** *rose—*

**The Presiding Officer:** Order.

**The First Minister:** If that was to be included in an umbrella Bill relating to housing, of the kind that Peter Black and William Graham mentioned, it may not be right for this year. However, depending on which party wins the next general election, there may be an opportunity in April, May, June, July or October next year for a bigger Bill, which would encompass the kind of measures that William has in mind regarding the modernisation of housing legislation in Wales.

**Prif Weinidog Cymru:** Ysgrifennaf at Janet ar hynny. Hoffwn fod wedi cael rhybudd o gwestiwn sydd mor fanwl â hynny am weithredoedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, ysgrifennaf ati ar ôl ymgynghori ag Edwina a Peter.

**William Graham:** Yn araith rhadlon Ei Mawrhydi o'r orsedd, a dybiwch, Brif Weinidog, y ceir mesur i gynnal archwiliad o'r stoc tai yng Nghymru, i gynnwys, yn arbennig, yr eiddo hynny a addaswyd yn arbennig ar gyfer pobl anabl? Os na cheir hynny, a fyddwch yn pwysu'n briodol i gael mesurau o'r fath?

**Prif Weinidog Cymru:** Efallai na chaiff ei gynnwys yn Araith y Frenhines yfory, oherwydd araith yfory fydd, mewn gwirionedd, Araith gyntaf y Frenhines yn dilyn datganoli. Pan drosglwyddwyd pwerau inni ym mis Gorffennaf 1999, yr oedd trafodaethau ar y ddeddfwriaeth i'w chynnwys yn Araith ddiwethaf y Frenhines wedi cychwyn eisoes. Felly, nid oeddem yn gallu cynnig mewnbyn llawn i hynny, er inni fod yn ddigon lwcus i gynnwys llawer o fesurau rhannol mewn Mesurau a oedd yn rhan o'r Araith honno. Ar yr adeg hon, oherwydd amgylchiadau arbennig Araith fer gydag ond ychydig o Fesurau byr ac oherwydd y perygl o etholiad cyffredinol—sydd yn bendant yn berygl i'r blaid Doriaidd—

**Sawl Aelod Ceidwadol** *a gododd—*

**Y Llywydd:** Trefn.

**Prif Weinidog Cymru:** Os oedd hynny i gael ei gynnwys mewn Mesur ymbarél yn ymwneud â thai, o'r math y nododd Peter Black a William Graham, efallai na fydd yn gymwys ar gyfer eleni. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar ba blaid fydd yn ennill yr etholiad cyffredinol nesaf, efallai y bydd cyfle ym mis Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf neu Hydref y flwyddyn nesaf am Fesur ehangach, a fyddai'n cwmpasu'r math o fesurau sydd gan William mewn golwg ynghylch moderneiddio deddfwriaeth tai yng Nghymru.

**The Presiding Officer:** Question 11 has been withdrawn. **Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl.

### **Penderfyniadau am Gymru Decisions made about Wales**

**Q12 Janet Ryder:** How does the First Minister plan to ensure that decisions made about Wales directly represent the views of the people affected by those decisions? (OAQ8243)

**The First Minister:** I intend to do so as best I can in a democracy where there might be different views. I suppose that a good example is the appointment of the independent Children's Commissioner, which took place over the weekend and on Monday. Children were directly involved in that. Some 18 or 19 children took part in the interviews and role-playing exercises with the six candidates on the shortlist on Sunday, and they elected two of their number to take part alongside the adults in interviewing on Monday. I hope to be able to announce further developments on this front shortly. However, that is a good example of trying to involve people as much as possible, because they are the consumers of those services.

**Janet Ryder:** Given that the interests of Wales are represented in the Westminster Cabinet by the Secretary of State for Wales and that he is not accountable to this body, what are your plans to request that he becomes more accountable to this body for his decisions?

**The First Minister:** The Secretary of State will be here next week to take part in the Queen's Speech debate. The Government of Wales Act 1998 states that that should be part of the procedure. The Junior Minister, David Hanson, will close the debate, as I understand. I am not responsible for business matters, but I understand that that is the procedure. Therefore, I am sure that there will be a full opportunity to make the Secretary of State for Wales as accountable as possible, given that he is a Member of one legislature and we are here in the Assembly.

**C12 Janet Ryder:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu sicrhau bod penderfyniadau am Gymru yn cynrychioli'n uniongyrchol farn y bobl yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau hynny? (OAQ8243)

**Prif Weinidog Cymru:** Bwriadaf wneud hynny cystal ag y gallaf mewn democratiaeth lle y gallai fod barn wahanol. Tybiaf bod penodi Comisiynydd Plant annibynnol, a ddigwyddodd dros y penwythnos a dydd Llun, yn enghraifft dda. Cafodd plant eu cynnwys yn uniongyrchol yn hynny. Cymerodd tua 18 neu 19 o blant ran yn y cyfweiliadau a'r ymarferion chwarae rôl gyda'r chwe ymgeisydd ar y rhestr fer ddydd Sul, ac etholwyd dau ohonynt i gymryd rhan gyda'r oedolion wrth gyfweled ddydd Llun. Gobeithiaf y gallaf ddatgan datblygiadau pellach yn y maes hwn cyn bo hir. Fodd bynnag, mae honno'n enghraifft dda o geisio cynnwys pobl gymaint â phosibl, gan mai hwythau yw defnyddwyr y gwasanaethau hynny.

**Janet Ryder:** O ystyried y cynrychiolir buddiannau Cymru yng Nghabinet San Steffan gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac nad yw yntau'n atebol i'r corff hwn, pa gynlluniau sydd gennych ar gyfer gwneud cais iddo ddod yn fwy atebol i'r corff hwn am ei benderfyniadau?

**Prif Weinidog Cymru:** Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yma yr wythnos nesaf i gymryd rhan yn y ddadl ar Araith y Frenhines. Noda Deddf Llywodraeth Leol 1998 y dylai hynny fod yn rhan o'r weithdrefn. Bydd yr Is-Weinidog, David Hanson, yn cau'r ddadl, fel y deallaf. Nid yfi sydd yn gyfrifol am faterion busnes, ond deallaf mai dyna yw'r drefn. Felly, yr wyf yn siŵr y ceir cyfle llawn i wneud Ysgrifennydd Gwladol Cymru mor atebol â phosibl, o ystyried ei fod ef yn Aelod o un corff deddfwriaethol a'n bod ni yma yn y



The Secretary of State can be questioned in the Queen's Speech debate. There are also other occasions when he may be questioned by Members of all parties and independent Members in the Assembly.

**David Melding:** The First Minister referred to the use of children and young people in the process of appointing the Children's Commissioner. I warmly commend that principle. It made national headlines, and quite rightly so, because Wales is leading the way. Does he agree that the principle of involving users in public appointment is an excellent one? For instance, patients could be involved in appointments to national health service bodies.

**The First Minister:** I could not agree more. Nobody knows more about diabetes than people who suffer from it. Nobody knows more about cancer and the stresses and strains of that than a cancer patient. Cancer used to be a terminal disease and interest was relatively shortlived, but these days it is far more treatable and you can be a cancer patient for 30 years. The NHS has much to learn from that principle, and it is learning from it. We in Wales should give as much attention as possible to the views of long-term surviving patients who have chronic diseases or diseases that can be held in remission for decades.

**Y Llywydd:** Mae cwestiynau 13, 14 a 15 wedi'u tynnu'n ôl.

Cynulliad. Gellir cwestiynu'r Ysgrifennydd Gwladol yn nadl Araith y Frenhines. Hefyd ceir adegau eraill pan y gall Aelodau pob plaid ac Aelodau annibynnol yn y Cynulliad ei holi.

**David Melding:** Cyfeiriodd y Prif Weinidog at y defnydd o blant a phobl ifanc yn y broses o benodi'r Comisiynydd Plant. Cymeradwyaf yr egwyddor honno'n gynnes. Cyrhaeddodd y penawdau cenedlaethol, a hynny'n haeddiannol, oherwydd bod Cymru'n arwain y ffordd. A gytuna bod yr egwyddor o gynnwys defnyddwyr mewn penodiad cyhoeddus yn un ardderchog? Er enghraifft, gellid cynnwys cleifion mewn penodiadau i gyrrff o fewn y gwasanaeth iechyd gwladol.

**Prif Weinidog Cymru:** Cytunaf yn llwyr. Ni wŷr neb fwy am glefyd siwgr na'r bobl sydd yn dioddef ohono. Ni wŷr neb fwy am ganser a'r pwysau a'r straen a ddaw gydag ef na pherson sydd yn dioddef o ganser. Arferai canser fod yn afiechyd terfynol ac yr oedd y diddordeb am gyfnod gweddol fyr, ond erbyn hyn mae'n llawer haws ei drin a gallwch fod yn dioddef o ganser am 30 mlynedd. Mae gan yr NHS lawer i'w ddysgu o'r egwyddor honno, ac mae'n dysgu ohoni. Dylem ni yng Nghymru roi cymaint o sylw â phosibl i farn cleifion ag afiechydon cronig neu afiechydon a all ysgafnhau am ddegawdau ac sydd yn goroesi am amser hir.

**The Presiding Officer:** Questions 13, 14 and 15 have been withdrawn.

### **Atal Llifogydd yng Nghymru (Trafodaethau) Flood Prevention in Wales (Discussions)**

**Q16 Jocelyn Davies:** What discussions has the First Minister had with the Secretary of State for Wales regarding flood prevention in Wales? (OAQ8235)

**The First Minister:** I have frequent discussions with the Secretary of State for Wales on a range of issues, but frequently on flood alleviation during the period of major difficulties in north-east Wales regarding this issue.

**Jocelyn Davies:** As our link to the UK

**C16 Jocelyn Davies:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch atal llifogydd yng Nghymru? (OAQ8235)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau cyson gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar amrywiaeth o faterion, ond yn aml ar liniaru llifogydd yn ystod y cyfnod o anawsterau mawr yng ngogledd-ddwyrain Cymru ynghylch y mater hwn.

**Jocelyn Davies:** Fel ein cyswllt â

Government, your discussions with the Secretary of State are as important to us on floods as on any other matter. Therefore, will you tell us how often and for how long you meet with him, and will you publish your diary commitments?

2:30 p.m.

**The First Minister:** That may be an onerous burden because many of the discussions could have been over the telephone. I should also refer to Sue Essex attending a ministerial meeting chaired by the Deputy Prime Minister on 4 November to discuss the flood situation, and officials have attended the regular meetings of the flood working group of officials of all relevant departments, which is chaired by my old colleague and room-mate Elliot Morley, the Parliamentary Secretary to the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food.

**Alun Pugh:** Will you meet with Edwina Hart if the review of flood defences in north Wales recommend work that is not currently provided for in budgets?

**The First Minister:** Yes. There will be a three-way meeting involving Sue Essex, Edwina Hart and myself, after we have had the relevant information from the three most affected local authorities in north-east Wales, along with the Environment Agency, which has a major frontline responsibility in this area.

**The Presiding Officer:** I have accepted a request for a question for the First Minister on a matter of urgent public importance, under Standing Order No. 6.31.

Llywodraeth y DU, mae eich trafodaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol cyn bwysiced inni ar lifogydd ag ar unrhyw fater arall. Felly, a ddywedwch wrthym pa mor aml ac am ba mor hir y byddwch yn cyfarfod ag ef, ac a fyddwch yn cyhoeddi ymrwymadau eich dyddiadur?

**Prif Weinidog Cymru:** Gallai hynny fod yn faich drom oherwydd gallai llawer o'r trafodaethau fod wedi eu cynnal dros y ffôn. Hefyd dylwn gyfeirio at Sue Essex yn mynychu cyfarfod gweinidogol a gadeiriwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ar 4 Tachwedd i drafod sefyllfa'r llifogydd, ac mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd y gweithgor sydd yn cynnwys llifogydd swyddogion o'r holl adrannau perthnasol, a gaiff eu cadeirio gan fy nghyn gydweithiwr a chydletywr Elliot Morley, yr Ysgrifennydd Seneddol i'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

**Alun Pugh:** A fyddwch yn cwrdd ag Edwina Hart os bydd yr adolygiad o'r amddiffynfeydd llifogydd yng ngogledd Cymru yn argymhell gwaith na ddarperir ar ei gyfer mewn cyllidebau cyfredol?

**Prif Weinidog Cymru:** Byddaf. Bydd cyfarfod dair ffordd yn cynnwys Sue Essex, Edwina Hart a minnau, wedi inni gael y wybodaeth berthnasol gan y tri awdurdod lleol yr effeithir arnynt fwyaf yng ngogledd-ddwyrain Cymru, yn ogystal ag Asiantaeth yr Amgylchedd, sydd â chyfrifoldeb rheng flaen amlwg yn y maes hwn.

**Y Llywydd:** Derbyniais gais am gwestiwn i'r Prif Weinidog ar fater o bwysigrwydd cyhoeddus brys, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.31.

### Cwestiwn Brys Urgent Question

#### Streic Gweithwyr y Post The Postal Workers' Strike

**Nick Bourne:** In view of the postal strike in **Nick Bourne:** Yn wyneb y streic bost yng

Cardiff, which is damaging Welsh business and affecting postal deliveries to and from Cardiff and other parts of Wales, will the Welsh Executive make a statement on how it proposes, as a matter of urgency, to help bring this dispute to an end? (EAQ8582)

**The First Minister:** I have not had any discussions with colleagues in Westminster on this issue. This concerns the Post Office, responsibility for which is not devolved to the Assembly. I recognise that the postal strike has consequences for all who use the postal services in the Cardiff area. The dispute between management and certain sections of the workforce is a local operational matter for the Post Office. As I know Ninian Le Blanc, the area manager, and Steve Bell, the convenor of the shop stewards, extremely well personally, I do not think that I ought to add anything to that.

**Nick Bourne:** I am extremely concerned, as people throughout this Chamber will be, that we have had many constituents and people throughout Wales contacting us about cash-flow problems occasioned by this illegal strike. It is illegal because there has been no ballot of members. It is having a serious effect on small and medium-sized businesses throughout Wales, and particularly in the Cardiff area, quite apart from the running of public organisations. I have had difficulty in contacting hospitals about waiting lists. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Use the phone.']

**The Presiding Officer:** Order. The leader of the Welsh Conservatives is entitled to be heard in relative silence.

**Nick Bourne:** I have telephoned but it is not always the appropriate way of conveying medical records and so on. This is a serious point, not just for users of public services, but for businesses, and—in the run-up to Christmas—for members of the public. Will the First Minister, along with others, take urgent action? Will he convey the message to the Secretary of State for Wales, if appropriate, that he acts? This is important.

Nghaerdydd, sydd yn niweidio busnes yng Nghymru ac yn effeithio ar ddsbarthu post i mewn ac allan o Gaerdydd ac mewn rhannau eraill o Gymru, a wnaiff y Weithrediaeth Gymreig ddatganiad ynglŷn â sut y bwriada, fel mater o frys, helpu i ddod â'r anghydfod hwn i ben? (EAQ8582)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â'm cyd-Aelodau yn San Steffan ar y mater hwn. Mae'n fater i Swyddfa'r Post, na ddatganolwyd y cyfrifoldeb drosto i'r Cynulliad. Cydnabyddaf fod i streic y post oblygiadau i bawb sydd yn defnyddio gwasanaethau'r post yn ardal Caerdydd. Mater gweithredu lleol i Swyddfa'r Post yw'r anghydfod rhwng y rheolwyr ac adrannau penodol o'r gweithlu. Gan fy mod yn adnabod Ninian Le Blanc, y rheolwr ardal, a Steve Bell, cynullydd y stiwardiaid gwaith, yn dda iawn yn bersonol, ni chredaf y dylwn ychwanegu unrhyw beth arall at hynny.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn pryderu'n fawr iawn, fel y bydd pobl eraill yn y Siambr hon, fod llawer o'n hetholwyr a phobl ledled Cymru wedi cysylltu â ni ynglŷn â phroblemau llif arian oherwydd y streic anghyfreithlon hon. Mae'n anghyfreithlon am na chynhaliwyd unrhyw bleidlais. Mae'n cael effaith ddifrifol ar fusnesau bach a chanolig eu maint ledled Cymru, ac yn arbennig yn ardal Caerdydd, heb sôn am weinyddu sefydliadau cyhoeddus. Cefais anhawster wrth geisio cysylltu ag ysbytai ynglŷn â rhestrau aros. [AELODAU O'R CYNULLIAD: 'Defnyddiwch y ffôn.']

**Y Llywydd:** Trefn. Mae hawl gan arweinydd Plaid Geidwadol Cymru i gael gwrandawriad mewn tawelwch cymharol.

**Nick Bourne:** Ffoniais ond nid yw bob amser yn ffordd briodol o gyfleu cofnodion meddygol ac ati. Mae hwn yn bwynt difrifol, nid yn unig o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, ond i fusnesau, ac—wrth i'r Nadolig agosáu—i aelodau'r cyhoedd. A wnaiff y Prif Weinidog, ynghyd ag eraill, gymryd camau brys? A wnaiff gyfleu'r neges i Ysgrifennydd Gwladol Cymru y dylai weithredu, lle y bo hynny'n

We have reason to believe that it is a politically-motivated dispute, but there is no doubt that it is an illegal dispute. Will he take action?

**The First Minister:** If there were any action that I could take, I would consider it. However, as I am neither responsible for the Post Office, nor for industrial relations in that organisation, the best thing to do is to leave it to those people who are responsible. Nick's points are not matters for the Assembly. He might wish for the Assembly's powers to be expanded to include the Post Office, but I am not aware of any such proposal. Even if I were a minister in the Department of Trade and Industry, and he were the shadow spokesman for DTI matters in Parliament, it would still be worth considering whether ministerial involvement by somebody who is not an expert in arbitration in industrial disputes would help or hinder the solution of this dispute.

The strike is affecting parts of Cardiff, not the whole of the city, I understand. In one or two high-profile cases it is affecting issues related to benefit payments. However, we are not responsible for benefit payments either; these are all matters for the Westminster Government and for such experts as there are in solving industrial disputes. I know Ninian Le Blanc and Steve Bell, and I am sure that they will eventually come to a solution.

**Peter Law:** Would the First Minister agree with me that a conciliatory approach is now needed from postal management, working together with the postal unions who represent respected postal workers? They have given so much service to this city for so long and they are understandably worried about their jobs and the current labour situation. Does he agree that making draconian threats of intimidatory sanctions on people returning to work, and taking action against them, is not the way forward? Hopefully there will be a breakthrough on conciliatory measures.

briodol? Mae hyn yn bwysig. Mae gennym le i gredu ei fod yn anghydfod ac iddo gymhellion gwleidyddol, ond nid oes unrhyw amheuaeth ei fod yn anghydfod anghyfreithiol. A wnaiff weithredu?

**Prif Weinidog Cymru:** Pe bai unrhyw gamau y gallwn eu cymryd, fe'u hystyriwn. Fodd bynnag, gan nad wyf yn gyfrifol am Swyddfa'r Post na'r cysylltiadau diwydiannol o fewn y sefydliad hwnnw, y peth gorau i'w wneud yw gadael y mater i'r bobl hynny sydd â'r cyfrifoldeb. Nid materion i'r Cynulliad yw pwyntiau Nick. Efallai ei fod am i bwerau'r Cynulliad gael eu hehangu i gwmpasu Swyddfa'r Post, ond nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gynnig o'r fath. Hyd yn oed pe bawn yn weinidog yn yr Adran Masnach a Diwydiant ac yntau'n llefarydd yr wrthblaid dros faterion yr adran yn y Senedd, byddai'n werth ystyried o hyd ai helpu neu rwystro datrys yr anghydfod hwn fyddai ymyrraeth gan weinidogion nad ydynt yn arbenigo ar gymrodeddu mewn anghydfodau diwydiannol.

Ar rannau o Gaerdydd, nid y ddinas gyfan yr effeithia'r streic, fe ddeallaf. Mewn un neu ddau o achosion proffil uchel, mae'n effeithio ar faterion sydd yn ymwneud â thalu budd-daliadau. Fodd bynnag, nid ydym yn gyfrifol am fudd-daliadau ychwaith; mae'r materion hyn oll yn perthyn i Lywodraeth San Steffan a'r cyfryw arbenigwyr ar ddatrys anghydfodau diwydiannol. Yr wyf yn adnabod Ninian Le Blanc a Steve Bell, ac yr wyf yn siŵr y gwnânt ddatrys yr anghydfod yn y pen draw.

**Peter Law:** A gytuna'r Prif Weinidog â mi mai ymagwedd gymodlon sydd ei hangen ar reolwyr swyddfa'r post erbyn hyn, gan gydweithio ag undebau'r post sydd yn cynrychioli gweithwyr post uchel eu parch? Maent wedi rhoi cymaint o wasanaeth i'r ddinas hon ers cymaint o amser ac maent yn poeni ynglŷn â'u swyddi a'r farchnad lafur bresennol a hynny'n gwbl deg. A gytuna nad y ffordd ymlaen yw bygwth pobl sydd yn dychwelyd i'r gwaith â sancsiynau llym, a chymryd camau yn eu herbyn? Gobeithiaf y gwelwn fesurau cymodlon.

**The First Minister:** I note your comments, Peter, but I will not take sides in an industrial dispute.

**Dafydd Wigley:** Gofynnaf i Rhodri roi ystyriaeth bellach i'w ateb i'r cwestiwn hwn. Fel Prif Weinidog Cymru, mae angen iddo ofyn rhai cwestiynau gan fod y streic yn effeithio ar ein gallu yn y Cynulliad Cenedlaethol i wneud ein gwaith. Er enghraifft, mae'n bosibl bod gohebiaeth ar ei ffordd i mi gan rai sydd ag apeliadau budd-daliadau yn y fantol a'i bod wedi'i dal yn y post. Os yw hyn yn effeithio ar ein hetholwyr, awgrymaf iddo ei bod yn gyfrifoldeb arnom ni i wneud yr hyn a allwn i ddod â'r anghydfod i ben. Deallaf nad yw eisiau cymryd proffil uchel, ond a wnaiff ofyn un neu ddau gwestiwn y tu ôl i'r llenni i geisio hwyluso ateb sydd yn dderbyniol i bawb?

**Prif Weinidog Cymru:** Wrth gwrs. Gwerthfawrogwn pe byddai Dafydd yn fy hysbysu i neu'r Llywydd o enghreifftiau lle nad ydym yn medru gwneud ein gwaith fel Aelodau'r Cynulliad oherwydd nad yw apeliadau yn cyrraedd o fewn y terfyniadau amser ac yn y blaen. Byddwn yn hapus i ystyried y mater, efallai ar y cyd gyda'r Llywydd.

**Lorraine Barrett:** I apologise for being late. I have been speaking on the phone to Ninian Le Blanc and Steve Bell, and to John Ceggie in the union's headquarters in London. The sorting office is situated in my constituency of Cardiff South and Penarth and I, like others, have had phone calls from concerned businesses and so on. They admit that there are problems on both sides. I understand that the union has offered to take part in an independent review or a review chaired by an independent person. I wonder whether there is an opportunity here for whoever may be listening to this debate to intervene. The union has offered to take part but the management side has been reluctant. If they came together with an independent chair—however that may be arranged—it may be a way forward. A meeting is underway at the union's London headquarters. We should know by 3.00 p.m. or 4.00 p.m. whether it

**Prif Weinidog Cymru:** Nodaf eich sylwadau, Peter, ond nid ochraf â'r naill ochr na'r llall mewn anghydfod diwydiannol.

**Dafydd Wigley:** I ask Rhodri to give further consideration to his response to this question. As First Minister, he needs to ask some questions as the strike affects our ability in the National Assembly to carry out our duties. For example, it is possible that there is correspondence on its way to me from people with benefit appeals pending and that it has been held up in the post. If this affects our constituents, I suggest to him that it is our responsibility to do all we can to resolve this dispute. I understand that he does not want to take a high profile, but will he ask a question or two behind the scenes to try to facilitate an outcome that is acceptable to all?

**The First Minister:** Of course. I would appreciate if Dafydd would inform me or the Presiding Officer of examples of where we are unable to carry out our duties as Assembly Members because appeals do not arrive within the deadlines and so on. I would be happy to consider the matter, perhaps in conjunction with the Presiding Officer.

**Lorraine Barrett:** Ymddiheuraf am fod yn hwyr. Bùm yn siarad â Ninian Le Blanc a Steve Bell dros y ffôn, ac â John Ceggie ym mhencadlys yr undeb yn Llundain. Mae'r swyddfa ddioli yn fy etholaeth i sef De Caerdydd a Phenarth a chefais i, fel eraill, alwadau ffôn gan fusnesau ac yn y blaen sydd yn pryderu. Maent yn cyfaddef bod problemau ar y ddwy ochr. Deallaf fod yr undeb wedi cynnig cymryd rhan mewn adolygiad annibynnol neu adolygiad o dan gadeiryddiaeth person annibynnol. A oes cyfle yma tybed i bwy bynnag sydd yn gwrando ar y ddadl hon ymyrryd? Cynigiodd yr undeb gymryd rhan ond bu ochr y rheolwyr yn amharod i wneud hynny. Pe baent yn dod ynghyd o dan gadeirydd annibynnol—sut bynnag y gellir trefnu hynny—efallai y bydd yn ffordd ymlaen. Cynhelir cyfarfod ar hyn o bryd ym mhencadlys yr undeb yn Llundain. Dylem

has been able to broker a deal. Union members are unhappy with this position and both sides have agreed that there have been difficulties. We need someone to intervene to try to broker some sort of deal if they do not succeed this afternoon.

**The First Minister:** I am grateful for that because the head post office for the Cardiff area is situated on Penarth Road in your constituency. Many of us have the pleasure of visiting it at Christmas time but normally in much happier circumstances. If you are suggesting that I should look into this matter after 4.00 p.m. if the meeting does not produce results, I am happy to make discreet enquiries to ACAS about its progress. Although we are not ministerially responsible, and this is not a devolved matter, I am happy to do that if Lorraine thinks it would be useful.

**Jonathan Morgan:** The lives of thousands of individuals throughout Cardiff and the many businesses that operate here are affected once again by illegal action and disruption by the loony left minority such as Steve Bell, who is well known throughout the sector for this sort of dispute. Cardiff is being brought to a standstill and it is your responsibility as First Minister—it may not be a devolved matter but it is of huge relevance to the people of Cardiff—that you speak to your colleagues in London to bring this to a speedy conclusion. It is not about being conciliatory but about firm action and decisive leadership.

**The First Minister:** I often praise you for your attempts at a statesmanlike approach but your contribution was the reverse of your recent record in this Chamber. If anything can impede the resolution of the industrial dispute or worsen the image outside Wales of Cardiff or Wales, it is a contribution like that, which is now on record. How will saying that Cardiff has been brought to a standstill on this or describing the union officials as of the ‘loony left’ solve the dispute? That is the original unilateral sin

wybod erbyn 3.00 p.m. neu 4.00 p.m. a lwyddodd i daro bargaen. Mae aelodau'r Undeb yn anfodlon ar y sefyllfa hon a chytunodd y naill ochr a'r llall fod anawsterau. Mae angen i rywun ymyrryd a cheisio taro bargaen o ryw fath os na lwyddant y prynhawn yma.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn ddiolchgar am hynny am fod prif swyddfa'r post ar gyfer ardal Caerdydd ar Ffordd Penarth yn eich etholaeth chi. Caiff llawer ohonom y pleser o ymweld â hi ar adeg y Nadolig ond fel arfer o dan amgylchiadau hapusach. Os ydych yn awgrymu y dylwn ystyried y mater hwn ar ôl 4.00 o'r gloch, os na fydd y cyfarfod yn llwyddiannus, byddaf yn fodlon gwneud ymholiadau gofalus i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cymodi a Chymrodeddu ynglŷn â'i gynnydd. Er nad oes cyfrifoldeb gweinidogol arnom, ac nad yw hyn yn fater datganoledig, yr wyf yn fodlon gwneud hynny os cred Lorraine y byddai o fudd.

**Jonathan Morgan:** Unwaith eto effeithir ar fywydau miloedd o bobl yng Nghaerdydd a'r llu o fusnesau sydd yn gweithredu yma oherwydd camau ac ymyrraeth anghyfreithlon y chwith lloerig lleiafrifol fel Steve Bell, sydd yn adnabyddus iawn ar draws y sector am y math hwn o anghydfod. Mae Caerdydd ar stop o'r herwydd ac mae cyfrifoldeb arnoch chi fel Prif Weinidog—efallai nad yw'n fater datganoledig ond mae o bwys mawr i bobl Caerdydd—i siarad â'ch cyd-aelodau yn Llundain i ddod â'r mater i ben yn fuan. Mae angen camau cadarn ac arweinyddiaeth benderfynol yn hytrach na chymodi.

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn aml yn eich canmol am eich ymgais i weithredu fel gwladweinydd ond bu eich cyfraniad i'r gwrthwyneb i'ch ymddygiad diweddar yn y Siambr hon. Os gall unrhyw beth atal yr anghydfod diwydiannol rhag cael ei ddatrys neu amharu ar ddelwedd Caerdydd neu Gymru y tu allan i Gymru, cyfraniad o'r fath sydd bellach wedi ei gofnodi a wna hynny. Sut y bydd dweud bod Caerdydd ar stop oherwydd yr anghydfod neu fod swyddogion yr undeb ar y 'chwith lloerig' yn datrys yr

when it comes to industrial dispute. I avoid taking sides because ACAS may need to bring the two sides together if they cannot be brought together independently to solve the situation, as it always is in the end. A solution is often delayed by inflammatory comments of a unilateral kind that favour one side over the other, such as those you have just made.

2:40 p.m.

**Tom Middlehurst:** What we have just heard is classic ignorance from the Conservatives. You cannot resolve an industrial dispute by intervening politically. We should learn the lessons of the past. This dispute will only be settled by both sides sitting around the table to discuss it, hopefully with the assistance of those who can provide conciliation services. I am sure, First Minister, that you will agree that we need to reflect on the current situation. Hopefully, both sides will see that the only way to solve this is for them to sit around the table, hammer out their differences and come to solutions. If ACAS is prepared to intervene and assist in that process, so be it. However, we, as politicians, should tread carefully and refrain from making the inflammatory, unnecessary comments that Jonathan Morgan made today.

**The First Minister:** I am not a shy, retiring violet. If I had expertise in industrial conciliation, I would be happy to offer my services. I have never been trained in that skill. I do not propose to assert or arrogate to myself skills that I do not have. Therefore, I welcome Tom Middlehurst's comment.

**Alun Cairns:** The First Minister is seeking to abdicate responsibility for such issues completely. Is he the political leader in Wales or not? Does he accept that in these challenging economic times, the last thing that Wales needs is militant action such as this, which will deter investment in Wales?

anghydfod? Dyna'r pechod gwreiddiol untu o ran anghydfodau diwydiannol. Osgoaf gymryd ochr gan ei bod yn bosibl y bydd angen i ACAS, ddod â'r ddwy ochr ynghyd os na allant ddod ynghyd yn annibynnol i ddatrys y sefyllfa, fel sydd yn digwydd bob amser yn y pendraw. Caiff datrysiaid yn aml ei ohirio oherwydd y math o sylwadau ymfflamychol untu yn cefnogi'r naill ochr yn erbyn y llall, fel y sylwadau hynny yr ydych newydd eu gwneud.

**Tom Middlehurst:** Mae'r hyn yr ydym newydd ei glywed yn enghraifft glasurrol o anwybodaeth gan y Ceidwadwyr. Ni ellir datrys anghydfod diwydiannol drwy ymyrraeth wleidyddol. Dylem ddysgu o wersi'r gorffennol. Dim ond ar ôl i'r ddwy ochr eistedd o gwmpas bwrdd i drafod y caiff yr anghydfod hwn ei ddatrys, gyda chymorth y rhai a all ddarparu gwasanaethau cymodi, gobeithio. Yr wyf yn siŵr, Brif Weinidog, y cytunwch fod angen inni ystyried y sefyllfa bresennol yn ddwys. Gobeithiaf y bydd y naill ochr a'r llall yn gweld mai'r unig ffordd o'i datrys yw iddynt eistedd o gwmpas bwrdd, datrys y gwahaniaeth barn a dod i delerau. Os yw ACAS yn fodlon ymyrryd a chynorthwyo yn y broses, gorau oll. Fodd bynnag, dylem ni, fel gwleidyddion, droedio'n ofalus a pheidio â gwneud sylwadau diangen, ymfflamychol fel y gwnaeth Jonathan Morgan heddiw.

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf yn un swil o bell ffordd. Pe bawn yn arbenigwr ar gymodi diwydiannol, byddwn yn falch o gynnig fy ngwasanaethau. Gan na chefais hyfforddiant erioed yn y sgil hwn, ni fwriadaf honni neu hawlio ar gam fy mod yn meddu ar sgiliau nad oes gennyf. Felly, croesawaf sylw Tom Middlehurst.

**Alun Cairns:** Mae'r Prif Weinidog yn ceisio gwrthod bod yn gyfrifol am faterion o'r fath yn gyfan gwbl. Onid ef yw arweinydd gwleidyddol Cymru? A yw'n derbyn mai'r peth olaf sydd ei angen ar Gymru yn y cyfnod hwn o sialensau economaidd yw camau ymosodol megis y rhain, a fydd yn darbwyllo pobl rhag buddsoddi yng

Nghymru?

**The First Minister:** It is the use of words such as 'Cardiff has been brought to a standstill', when nothing could be further from the truth, that discourages investment in Wales. I am the leader of the partnership Government of this Assembly, but that does not make me responsible for matters that have not been devolved to the Assembly. It only confuses matters if we pretend that we are responsible for matters when we are not. If I can play a helpful and useful role, on advice from ACAS or anyone else, then I will do so. If the discussions that Lorraine Barrett, as the constituency Assembly Member for the Penarth Road area of Cardiff, where the head post office is located, reported to us are taking place this afternoon, indicate that I can contribute, then I will do so. However, I have no skills in this area, nor are we responsible for this matter, much as some of us might or might not like us to be.

You cannot have à la carte Assembly powers whenever it suits. This is an opportunity for you to play to the gallery and say 'we wish we were running the Post Office'. Next, you will say, 'we wish we were running the army'. We know what our settlement is, and it does not include responsibility for post office matters, let alone industrial disputes in the post office.

**Gwenda Thomas:** Credaf ei fod yn briodol imi ddatgan buddiant yn y mater hwn.

**Karen Sinclair:** Does Rhodri remember, as I do, the Tories' position on the hauliers, only a few weeks ago?

**The First Minister:** Yes. Their views are on the record, and no doubt would prove interesting reading. However, it would be wrong to give copies of the record for that period to people involved in this dispute, because it would not help them to reach a solution.

**Prif Weinidog Cymru:** Defnyddio geiriau megis 'mae Caerdydd ar stop', er nad yw hynny'n wir o gwbl, sydd yn perswadio pobl rhag buddsoddi yng Nghymru. Arweinydd Llywodraeth bartneriaeth y Cynulliad hwn ydwyf fi, ond ni olyga hynny fy mod yn gyfrifol am faterion nas datganolwyd i'r Cynulliad. Ni fyddem ond yn drysu pethau pe baem yn cymryd arnom ein bod yn gyfrifol am faterion lle nad oes cyfrifoldeb arnom. Os gallaf chwarae rôl ddefnyddiol, fuddiol ar gyngor ACAS neu unrhyw un arall, gwnaf hynny. Os dengys y trafodaethau y mae Lorraine Barrett, fel Aelod etholaethol y Cynulliad dros ardal Ffordd Penarth yng Nghaerdydd, lle y mae prif swyddfa'r post, wedi ein hysbysu ohonynt, sydd yn digwydd y prynhawn yma, y gallaf gyfrannu, yna gwnaf hynny. Fodd bynnag, nid wyf yn meddu ar unrhyw sgiliau yn y maes hwn, ac nid ydym yn gyfrifol am y mater hwn ychwaith, er cymaint y byddai rhai ohonom yn dymuno neu ddim yn dymuno felly.

Ni ellir cael pwerau à la carte i'r Cynulliad pryd bynnag y bo'n addas. Mae hwn yn gyfle ichi chwarae i'r galeri a dweud 'byddai'n dda gennym pe baem yn rhedeg Swyddfa'r Post'. Y tro nesaf, byddwch yn dweud, 'byddai'n dda gennym pe baem yn rhedeg y fyddin'. Gwyddom beth yw ein setliad, ac nid yw'n cynnwys cyfrifoldeb dros faterion swyddfa'r post, heb sôn am anghydfodau diwydiannol o fewn swyddfa'r post.

**Gwenda Thomas:** I think that it is appropriate for me to declare an interest in this matter.

**Karen Sinclair:** A yw Rhodri yn cofio, fel myfi, safbwynt y Torïaid ar y cludwyr nwyddau, dim ond ychydig wythnosau yn ôl?

**Prif Weinidog Cymru:** Ydwyf, cofnodwyd eu safbwyntiau, ac yn ddiâu byddent yn ddiddorol i'w darllen. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol rhoi copïau o'r cofnod am y cyfnod hwnnw i bobl sydd yn ymwneud â'r anghydfod hwn, am na fyddai'n eu helpu i ddatrys y sefyllfa.



**Brian Hancock:** Bearing in mind your concern for the post office services, do you share my concern for the sub-post offices throughout Wales that are closing at twice the rate at which they were closing previously?

**The Presiding Officer:** Order. This emergency question is not about sub-post offices.

**Alun Pugh:** I was concerned by Nick Bourne's response. Will you organise staff development for Conservative party Members on how to use a fax machine and e-mail? As well as being unfamiliar with the technology of the 1980s, it seems that they also want to return to those employee-bashing times.

**The First Minister:** I cannot improve on that comment.

**Brian Hancock:** O ystyried eich pryder ynglŷn â gwasanaethau swyddfa'r post, a ydych yn rhannu fy mhryder am yr is-swyddfeydd post ledled Cymru sydd yn cau ar gyfradd ddwywaith gymaint ag y buont yn y gorffennol?

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw'r cwestiwn brys hwn yn ymwneud ag is-swyddfeydd post.

**Alun Pugh:** Yr oeddwn yn pryderu ynglŷn ag ymateb Nick Bourne. A wnewch drefnu hyfforddiant staff ar gyfer Aelodau'r Blaid Geidwadol ar sut i ddefnyddio peiriant ffacs ac e-bost? Yn ogystal â bod yn anghyfarwydd â thechnoleg yr 1980au, ymddengys eu bod hefyd am ddychwelyd at y cyfnod hwnnw o ddwrddio'r gweithwyr.

**Prif Weinidog Cymru:** Ni allaf ragori ar y sylw hwnnw.

### **Datganiad ar Golli Swyddi yn Alcan, Rogerstone Statement on Job Losses at Alcan, Rogerstone**

**The Deputy First Minister and Minister for Economic Development (Michael German):** I make this statement in response to an urgent question that the Presiding Officer accepted this morning. Both the First Minister and I were saddened by yesterday's announcement that 220 jobs will be lost at the Alcan facility in Rogerstone, when the foil part of the facility is closed next year. Alcan was one of the first inward investors into Wales after the second world war, and has had a presence here for over half a century.

I have already been in contact with the company, as have our officials, to offer the Assembly's and its sponsored public bodies' full support for the staff affected by this announcement. The company is grateful for all the offers and messages of support it has received. The company has indicated that it is looking for assistance with training.

The position is that, due to a combination of factors, the company has had to make the regrettable decision to close the foil business

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Gwnaf y datganiad hwn mewn ymateb i gwestiwn brys a dderbyniodd y Llywydd y bore yma. Yr oedd y Prif Weinidog a minnau'n drist o glywed y cyhoeddiad ddoe bod 220 o swyddi yn cael eu colli yng ngweithfan Alcan yn Rogerstone, pan fydd y rhan o'r weithfan sydd yn gwneud ffoil yn cau y flwyddyn nesaf. Alcan oedd un o'r mewnfuddsoddwyr cyntaf yng Nghymru ar ôl yr ail ryfel byd, a bu yma ers dros hanner canrif.

Yr wyf eisoes, ynghyd â'n swyddogion, wedi cysylltu â'r cwmni i gynnig cefnogaeth lawn y Cynulliad a'i gyrff cyhoeddus nodedig i'r staff yr effeithir arnynt gan y cyhoeddiad hwn. Mae'r cwmni'n ddiolchgar am yr holl gynigion a negeseuon o gefnogaeth a dderbyniodd. Mae'r cwmni wedi nodi ei fod yn chwilio am gymorth o ran hyfforddiant.

Y sefyllfa yw, oherwydd cyfuniad o ffactorau, bod yn rhaid i'r cwmni wneud y penderfyniad anffodus i gau'r busnes ffoil yn

at Rogerstone, which currently employs some 220 staff, on 30 June 2001. These factors are severe market conditions, including strong competition from continental Europe, particularly Russia and China; a product mix dependent largely on unprofitable household foil, and the continued strength of the pound against European currencies.

Assembly officials, including representatives from the local training and enterprise council and the Welsh Development Agency, met with the company in October to discuss possible future assistance. However, as the company is not located in an assisted area, provision of substantive assistance, mainly in the form of regional selective assistance, is not possible. Alcan will continue to provide over 500 jobs at the sheet facility, which are valuable and important to the Welsh economy. We must foster our indigenous firms as well as support good quality inward investment. It is not an 'either or' situation; we have to do both and do them well.

On the immediate situation, TEC South East Wales will shortly submit an application for the redundancies to be treated as significant, which is likely to be approved by the Assembly. The TEC is also considering, in conjunction with the employment service, implementing additional rapid response measures to assist the affected staff. The decision is dependent on the redundancy situation becoming clearer, for example, knowing how many redundancies are compulsory and how many are voluntary. However, I understand that the company has proposed voluntary redundancy in compensation terms to staff at the foil and sheet operations on the Rogerstone site. It is possible that some staff on the foil site may be able to transfer to the sheet operation, which is when the local TEC can step in and help with any necessary retraining. Employee representatives, including local unions, are being fully consulted by the company and will be meeting senior managers at Alcan tomorrow to discuss the emerging situation.

Rogerstone, sydd ar hyn o bryd yn cyflogi tua 220 o staff, ar 30 Mehefin 2001. Ymhlith y ffactorau hyn mae amodau llym y farchnad, gan gynnwys cystadleuaeth gref o gyfandir Ewrop, yn arbennig Rwsia a Tsieina; ystod o gynnyrch sydd yn dibynnu'n fawr ar ffoil i'r cartref nad yw'n gwneud elw, a chryfder y bunt o hyd yn erbyn arian cyfred gwledydd Ewrop.

Cyfarfu swyddogion y Cynulliad, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r cyngor hyfforddiant a menter lleol ac Awdurdod Datblygu Cymru â'r cwmni ym mis Hydref er mwyn trafod cymorth posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan nad yw'r cwmni mewn ardal a gynorthwyir, nid oes modd rhoi cymorth sylweddol, yn bennaf ar ffurf cymorth rhanbarthol dethol. Bydd Alcan yn parhau i gyflogi dros 500 o bobl yn y weithfan dalenni, sydd yn werthfawr ac yn bwysig i economi Cymru. Rhaid inni feithrin ein cwmnïau cynhenid yn ogystal â chefnogi mewnffuddsoddi o safon dda. Nid sefyllfa 'naill ai neu' ydyw; rhaid inni wneud y ddau a hynny'n dda.

O ran y sefyllfa sydd ohoni, bydd Cyngor Hyfforddiant a Menter De-Ddwyrain Cymru yn cyflwyno cais yn fuan i'r swyddi a gollwyd gael eu trin fel rhai arwyddocaol, sydd yn debygol o gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried, mewn cydweithrediad â'r gwasanaeth cyflogi, roi mesurau ymateb buan ychwanegol ar waith er mwyn cynorthwyo'r staff yr effeithir arnynt. Dibynna'r penderfyniad ar sefyllfa gliriach ynglŷn â'r diswyddiadau, er enghraifft, gwybod faint o ddiswyddiadau gorfodol a faint o ddiswyddiadau gwirfoddol fydd. Fodd bynnag, deallaf fod y cwmni wedi cynnig diswyddo gwirfoddol mewn telerau iawndal i'r staff yn y gweithredleoedd ffoil a dalenni ar safle Rogerstone. Mae'n bosibl y gall rhai aelodau o'r staff gael eu trosglwyddo i'r gweithle dalenni, a gall y Cyngor Hyfforddiant a Menter lleol gynnig help o ran unrhyw ailhyfforddi sydd ei angen. Mae'r cwmni'n ymgynghori'n llawn â chynrychiolwyr y cyflogeion, gan gynnwys yr undebau lleol, a fydd yn cyfarfod ag uwch reolwyr Alcan yfory er mwyn trafod y

sefyllfa sydd yn datblygu.

As soon as the redundancies have been formally identified as significant, any of the affected staff will be able to gain immediate access to work-based learning for adults, if they so desire. They will receive immediate access to a wide range of assistance that they would not normally receive before six months of unemployment. This programme is funded by the National Assembly and delivered through the training and enterprise councils. It is designed to help people aged 25 and over, who are unemployed and at risk of exclusion from the job market to secure and sustain employment through a range of training and other assistance to enhance skills. Job losses in Wales, particularly in manufacturing, have been more than replaced by new jobs, not only in services, but also in highly skilled manufacturing operations. That is why the requirement to enhance people's skills is such an important element of our response to these redundancies and of our general strategy for the Welsh economy. It is early days yet, but the Assembly is ready to provide all possible assistance to affected staff. That promise has already been made to the company, and it is one that we will keep.

The irony of industrial good and bad news in Wales is that this morning Wireless Systems International announced that it would be investing over £17 million in south Wales, establishing a large-scale manufacturing facility for the production of a range of high-efficiency power amplifiers for the mobile telecommunications industry. This announcement demonstrates that Wales can still meet the needs of such modern, high technology companies. It is excellent news for south Wales and a vote of confidence in the skills of the people of Cwmbran, Newport and the surrounding area. This superb project will bring 264 new leading edge technology mobile telephony jobs into Wales. Wireless Systems considered alternative locations in the UK and abroad. This announcement acknowledges the fact that local agencies and the Assembly, which has provided the company with regional selective assistance grant, can compete and

Cyn gynted ag y dynodir y diswyddiadau yn ffurfiol fel rhai arwyddocaol, gall unrhyw aelodau o'r staff yr effeithir arnynt gael mynediad ar unwaith i ddysgu yn gysylltiedig â gwaith i oedolion, os dymunant. Cânt fynediad ar unwaith i ystod eang o gymorth na fyddant fel arfer yn ei gael cyn bod yn ddi-waith am chwe mis. Ariennir y rhaglen hon gan y Cynulliad Cenedlaethol ac fe'i cyflwynir drwy'r cynghorau hyfforddiant a menter. Ei nod yw helpu pobl 25 oed a hŷn, sydd yn ddi-waith ac mewn perygl o gael eu hallgau o'r farchnad waith i sicrhau a chynnal cyflogaeth drwy ystod o hyfforddiant a chymorth arall sydd yn gwella eu sgiliau. Cafwyd mwy o swyddi newydd nid yn unig yn y sector gwasanaethau, ond hefyd yn y gweithrediadau gweithgynhyrchu â sgiliau uchel na nifer y swyddi a gollwyd yng Nghymru, yn enwedig yn y sector gweithgynhyrchu. Dyma pam bod y gofyniad i wella sgiliau pobl yn elfen mor bwysig o'n hymateb i golli'r swyddi hyn a'n strategaeth gyffredinol ar gyfer economi Cymru. Mae'n gynnar eto, ond mae'r Cynulliad yn barod i roi pob cymorth posibl i'r staff yr effeithir arnynt. Gwnaethpwyd yr addewid hwnnw eisoes i'r cwmni, ac mae'n addewid a gadwn.

Y peth eironig ynglŷn â'r newyddion da a'r newyddion drwg oddi wrth ddiwydiant yng Nghymru yw bod Wireless Systems International wedi cyhoeddi y bore yma y byddai'n buddsoddi dros £17 miliwn yn ne Cymru, gan sefydlu gweithfan weithgynhyrchu ar raddfa fawr a fydd yn cynhyrchu ystod o fwyhawyr pŵer o effeithlonrwydd uchel ar gyfer y diwydiant telathrebu symudol. Dengys y cyhoeddiad hwn y gall Cymru fodloni anghenion cwmnïau cyfoes, uwch dechnoleg o'r fath o hyd. Mae'n newyddion ardderchog i dde Cymru ac yn arwydd o ffydd yn sgiliau pobl Cwmbrân, Casnewydd a'r cylch. Daw'r prosiect gwych hwn â 264 o swyddi technoleg arloesol ym maes teleffoni symudol i Gymru. Ystyriodd Wireless Systems leoliadau eraill yn y DU a thramor. Mae'r cyhoeddiad hwn yn cydnabod y ffaith y gall asiantaethau lleol a'r Cynulliad, a roddodd gymorth rhanbarthol dethol i'r

work together to secure such high-calibre jobs. This is a superb project, bringing leading edge technology and mobile phone telephony into Wales, and I wish Wireless Systems every success for the future. A skilled and adaptable workforce will be essential to the success of this project and is the reason why the Assembly is placing such a high priority in Wales on developing people's skills to help us to adapt to the ever-changing technologies of the future.

**Phil Williams:** I respect the fact that it saddens you to make this statement, but it saddens me to return, yet again, to the problems of the manufacturing industry in Wales. The Assembly has discussed the effect of an overvalued pound on agriculture, tourism, the clothing industry, car components, steel, electronics, and now the aluminium industry. We should remember that Rogerstone lies between Ebbw Vale and Llanwern. Two hundred and twenty jobs will be lost in a region where there have already been serious cuts in the steel industry and where the threats of much more serious cuts still hang over the region. It is not only a threat to primary industries, but to ancillary industries. These job losses, which perhaps total 4,000 by now, have been offset by new employment. However, when comparing the balance of employment in Wales with that of the UK as a whole, there is no doubt that, with the serious losses in the bedrock of our industry, the gap in gross domestic product per capita and in the employment potential will widen.

2:50 p.m.

I have asked you the following question twice and I warned that it would not be long before it rose again. So far, I have not received the answer that I require. Do you agree that the blame should not be solely directed at the overvalued pound, as if that was outside the Government's control? It should also be directed at the Labour Government, which has encouraged a high parity for the pound. It set guidelines in the Bank of England Act 1998 that only referred to inflation, and made no mention of employment or the general health of the

cwmni, gystadlu a chydweithio i sicrhau swyddi o safon mor uchel. Mae hwn yn brosiect gwych, gan ddod â thechnoleg arloesol a theleffoni symudol i Gymru, a dymunaf bob llwyddiant i Wireless Systems yn y dyfodol. Bydd gweithlu medrus a hyblyg yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn a dyma'r rheswm pam bod y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth mor uchel yng Nghymru ar ddatblygu sgiliau pobl i'n helpu i addasu i dechnoleg fythol gyfnewidiol yn y dyfodol.

**Phil Williams:** Yr wyf yn parchu'r ffaith ei bod yn fater o dristwch ichi wneud y datganiad hwn ond mae'n tristwch i minnau fy mod yn gorfod dychwelyd unwaith eto at broblemau'r diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru. Trafododd y Cynulliad effaith y bunt rhy uchel ar amaethyddiaeth, twristiaeth, y diwydiant dillad, cydrannau ceir, dur, electroneg, ac yn awr y diwydiant alwminiwm. Dylem gofio bod Rogerstone rhwng Glynebwy a Llanwern. Collir 220 o swyddi mewn rhanbarth lle y bu toriadau difrifol eisoes yn y diwydiant dur a lle y mae bygythiad o doriadau llawer mwy difrifol yn y rhanbarth o hyd. Nid yn unig yw'n fygythiad i ddiwydiannau cynradd, ond i'r diwydiannu eilaidd. Mae'r gwaith newydd wedi cymryd lle'r swyddi hyn a gollwyd, sef hyd at gyfanswm o 4,000 erbyn hyn. Fodd bynnag, pan gymherir cydbwysedd cyflogaeth yng Nghymru â chyflogaeth yn y DU yn ei chyfanrwydd, nid oes unrhyw amheuaeth y bydd y gagendor o ran cynnyrch mewnwladol crynswth y pen a phosibiliadau cyflogaeth yn lledu yn sgîl y colledion difrifol yn sylfaen ein diwydiant.

Yr wyf wedi gofyn y cwestiwn canlynol ichi ddwywaith a rhybuddiais y byddai'n codi eto cyn bo hir. Hyd yn hyn, ni chefais yr ateb y gofynnais amdano. A gytunwch na ddylid beio'r bunt rhy uchel yn unig, fel pe bai hynny y tu hwnt i reolaeth y Llywodraeth? Dylid hefyd feio'r Llywodraeth Lafur sydd wedi annog paredd uchel ar gyfer y bunt. Pennodd ganllawiau yn Neddf Banc Lloegr 1998 a gyfeiriodd at chwyddiant yn unig, heb sôn o gwbl am gyflogaeth na iechyd cyffredinol yr economi. Mae'r Llywodraeth Lafur yn dibynnu'n llwyr ar gyfraddau llog

economy. The Labour Government relies entirely on high interest rates to control inflation in the south of England. It refuses to consider the alternative of higher taxes for the wealthy, especially in the south of England, who largely fuel part of the inflation. It should be blamed, above all, for creating total uncertainty about the intention or timing of UK entry into the euro. Do you share my anger at its indifference to the economic problems of large areas of Wales? Will you ensure that this message reaches Gordon Brown and Tony Blair, who do not seem to have been listening carefully in the past?

**Michael German:** It is your job to bring gloom and doom where light sometimes exists. The fact that new jobs in high-tech manufacturing have been announced today just down the road from the Alcan plant, exceeding the number of jobs lost, seems to have been lost upon you, according to your statement. I have made my views known about the euro and will continue to do so, as will your party in the coming general election. I hope that the people of this country will respond to our criticisms.

However, the low value of the euro is not at fault in this case. These losses were largely due to the low value of the Chinese currency and the rouble. The National Assembly cannot directly influence the People's Republic of China. Although we tried our best, it pointed out to us that there are only 3 million of us, and that that may cause difficulties. The conditions of the domestic market were largely dominated by conditions in China and Russia, where the principal changes are occurring. That is important.

We must recognise that the economy is changing. We must match skills to new technologies. If we do not do that, we cannot change our economy and cannot match the gap in GDP and find higher value jobs. A myth is circulating that everything is disappearing in the manufacturing sector in Wales and that nothing survives. Nothing could be further from the truth. The Welsh Electronics Forum, which met recently as a taskforce to impress that fact upon the people

uchel er mwyn rheoli chwyddiant yn ne Lloegr. Mae'n gwrthod ystyried y dewis arall sef trethi uwch i'r cyfoethog, yn arbennig yn ne Lloegr, sydd yn bwydo'r chwyddiant i raddau helaeth. Dylid ei beio, uwchlaw popeth, am greu ansicrwydd llwyr ynglŷn â bwriad neu amseriad y DU o ran ymuno â'r ewro. A ydych yn rhannu fy nictier ynglŷn â'i difaterwch tuag at y problemau economaidd mewn rhannau helaeth o Gymru? A wnewch chi sicrhau bod y neges hon yn cyrraedd Gordon Brown a Tony Blair, nad yw'n ymddangos eu bod wedi bod yn gwrando'n ofalus yn y gorffennol?

**Michael German:** Eich gwaith chi yw dod â diflastod lle y mae goleuni yn bodoli weithiau. Ymddengys, yn ôl eich datganiad, nad ydych wedi gwerthfawrogi'r ffaith bod mwy o swyddi newydd wedi eu cyhoeddi yn y sector gweithgynhyrchu uwch dechnoleg nid nepell o ffatri Alcan, na'r swyddi a gollwyd. Yr wyf wedi nodi fy marn ar yr ewro a byddaf yn parhau i wneud hynny, fel eich plaid chithau yn yr etholiad cyffredinol nesaf. Gobeithiaf y bydd pobl y wlad hon yn ymateb i'n beirniadaeth.

Fodd bynnag, nid gwerth isel yr ewro sydd ar fai yn yr achos hwn. Cafwyd y colledion hyn yn bennaf oherwydd gwerth isel arian Tsieina a'r rwbl. Ni all y Cynulliad Cenedlaethol ddylanwadu'n uniongyrchol ar Weriniaeth Tsieina. Er inni wneud ein gorau glas, nodwyd mai dim ond 3 miliwn ohonom sydd, ac y bydd hynny o bosibl yn achosi anawsterau. Yr oedd yr amodau yn Tsieina a Rwsia, lle y mae'r prif newidiadau yn digwydd, yn tra-arglwyddiaethu ar amodau y farchnad fewnwladol i raddau helaeth. Mae hynny'n bwysig.

Rhaid inni gydnabod bod yr economi'n newid. Rhaid inni gyfateb sgiliau â'r technolegau newydd. Os na wnawn hynny, ni allwn newid ein heconomi na llenwi'r bwlch o ran cynnyrch mewnwladol crynswth a dod o hyd i swyddi o werth uwch. Mae si ar led bod popeth yn diflannu yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru ac nad oes unrhyw beth yn goroesi. Nid yw hynny'n wir o gwbl. Mae Fforwm Electroneg Cymru, a gyfarfu yn ddiweddar fel tasglu i ddarbwylllo

of Wales, is at pains to observe that only small parts of the electronics industry are moving from Wales. There is a substantial industry in Wales that is here to stay. It will be an industry in transition because, as Phil knows, the products that it seeks to create and those that will survive in future depend on the higher technologies. That is why I am pleased to welcome today's announcement regarding Cwmbran.

**Rosemary Butler:** As the Assembly Member for Newport West, I must inform the Assembly that there is great concern about these job losses in Newport. It is particularly devastating for the workers, especially because of the insensitive timing of the announcement in the month running up to Christmas. It is also disappointing to the local economy. These are high quality, high paid jobs that provide good pensions. Alcan has always been considered to be a blue-chip industry. It is worrying that its workforce has been reduced by almost a third.

The Minister for Economic Development announced new jobs this morning, but these jobs should be in addition to and not replacing the jobs lost in Alcan. I would like your assurance that these jobs are the kind of quality jobs that are being lost in Alcan. In your statement you said that TEC South East Wales will shortly be submitting an application for their redundancies to be treated as significant, which is likely to be approved immediately by the Assembly. When will this application arrive? The workers need to see action now from the National Assembly for Wales.

**Michael German:** There is clearly a need for reskilling. I will address the first issue. The type of jobs that we are losing are 160 operatives in multi-skilled teams, along with some craftsmen, production control, scheduling and maintenance engineers. The 160 operation staff form the bulk of the 220 whose jobs have been lost. The new skills that will be required by Wireless Systems in Cwmbran will be more highly skilled.

pobl Cymru o'r ffaith honno, yn awyddus iawn i nodi mai dim ond rhannau bach o'r diwydiant electronig sydd yn symud o Gymru. Mae diwydiant sylweddol yng Nghymru sydd yma i aros. Bydd yn ddiwydiant mewn cyfnod trosiannol, am fod y cynhyrchion, fel y gŵyr Phil, y mae'n ceisio eu creu a'r cynhyrchion a fydd yn parhau yn y dyfodol yn dibynnu ar yr uwch dechnolegau. Dyna pam fy mod yn falch o groesawu'r cyhoeddiad heddiw ynglŷn â Chwmbrân.

**Rosemary Butler:** Fel yr Aelod Cynulliad dros Orllewin Casnewydd, rhaid imi hysbysu'r Cynulliad fod pryder mawr ynglŷn â'r swyddi hyn a gollwyd yng Nghasnewydd. Mae'n arbennig o drychinebus i'r gweithwyr, yn enwedig o safbwynt amseriad ansensitif y cyhoeddiad yn y mis cyn y Nadolig. Mae'n siomedig hefyd o ran yr economi leol. Mae'r rhain yn swyddi o safon uchel â thâl uchel sydd yn rhoi pensiynau da. Ystyriwyd Alcan erioed fel cwmni cadarn. Mae'n achos pryder bod bron traean y gweithlu wedi ei golli.

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y swyddi newydd y bore yma, ond dylai'r swyddi hyn fod yn ychwanegol at y swyddi a gollwyd yn Alcan nid yn eu lle. Ceisiwn eich sicrwydd mai swyddi o safon uchel fel y rhai a gollir yn Alcan yw'r swyddi hyn. Yn eich datganiad, dywedasoeh y bydd Cyngor Hyfforddiant a Menter De-Ddwyrain Cymru yn cyflwyno cais cyn bo hir i'w diswyddiadau gael eu trin fel rhai arwyddocaol, sydd yn debygol o gael ei gymeradwyo ar unwaith gan y Cynulliad. Pryd y bydd y cais hwn yn cyrraedd? Mae angen i'r gweithwyr weld bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd camau yn awr.

**Michael German:** Mae'n amlwg bod angen ailsgilio. Ymdriniaf â'r mater cyntaf. Y math o swyddi yr ydym yn eu colli yw 160 o weithwyr mewn timau aml-fedrus, ynghyd â rhai chrefftwyr, peirianwyr rheoli a threfnu cynhyrchu a pheirianwyr cynnal a chadw. Y 160 o'r staff gweithredu fydd y mwyafrif llethol o'r 220 o swyddi a gollwyd. Bydd y sgiliau newydd y bydd Wireless Systems yn gofyn amdanynt yng Nghwmbrân yn llawer

However, that is where we urgently need to bridge the gap. We need to ensure that skilled people work in teams. Anybody who visits a modern production enterprise will see that team working is essential. There are people who are used to team working in production. We can build upon their skills so that they will be suitable for these higher level jobs. That is the kind of shift that we want to see.

As far as the TEC submission is concerned, the technical submission as to whether these jobs are significant or not depends on when the voluntary redundancy situation is resolved. That will be offered to all employees at Alcan. There could be an adjustment between workers and those who wish to take voluntary redundancy. However, the TEC will provide immediate training opportunities to people who want to be reskilled. The question of the technical way in which this arises depends on when the negotiations with the union and the workforce are completed. My understanding is that this will not happen until next June. I understand that Wireless Systems will recruit now for opening in April. There is some time for you, as a local Member, to talk to the unions and the workforce about bridging that gap.

**Alun Cairns:** The Welsh Conservative Party regrets the news that 220 jobs will be lost from Alcan in Rogerstone. I am concerned about the way that these 220 jobs are being dismissed because it coincides with an inward investment project in the same area. I remind the Minister that every manufacturing job provides an additional two service sector jobs. It is not only 220 jobs. There is a multiplier effect that should be taken into consideration. Is it not the case that the failing euro and the increased costs that are being introduced by this administration and the Westminster Government are biting and hurting manufacturing jobs—on which we have a disproportionate dependence in Wales—and hitting the Welsh economy hard? Furthermore, this kind of job will be hit even harder by the climate change tax, which will be introduced from April

mwy medrus. Fodd bynnag, dyma'r lle y mae angen inni lanw'r bwlch fel mater o frys. Mae angen inni sicrhau bod pobl fedrus yn gweithio mewn timau. Bydd unrhyw un sydd yn ymweld â menter cynhyrchu gyfoes yn gweld bod gweithio mewn timau yn hanfodol. Ceir pobl sydd yn gyfarwydd â gweithio mewn timau cynhyrchu. Gallwn adeiladu ar eu sgiliau fel y byddant yn gymwys ar gyfer y swyddi lefel uchel hyn. Dyna'r math o newid yr ydym am ei weld.

O ran cyflwyniad y Cyngor Hyfforddiant a Menter, mae'r cyflwyniad technegol a yw'r swyddi hyn yn arwyddocaol yn dibynnu ar y sefyllfa ynglŷn â diswyddo gwirfoddol a phryd y caiff ei ddatrys. Caiff hynny ei gynnig i bob un o gyflogeion Alcan. Gellid bod addasu rhwng gweithwyr a'r rhai sydd yn dymuno diswyddo'n wirfoddol. Fodd bynnag, bydd y cyngor yn rhoi cyfleoedd hyfforddi ar unwaith i bobl sydd am feithrin sgiliau newydd. Mae'r cwstiwn ynglŷn â'r ffordd dechnegol y mae hyn yn codi yn dibynnu ar pryd y caiff y negodiadau â'r undeb a'r gweithlu eu cwblhau. Deallaf na fydd hyn yn digwydd tan fis Mehefin nesaf. Deallaf y bydd Wireless Systems yn recriwtio'n awr erbyn yr agoriad yn Ebrill. Mae rhywfaint o amser ichi, fel Aelod Lleol, siarad â'r undebau a'r gweithlu ynglŷn â llanw'r bwlch hwnnw.

**Alun Cairns:** Mae'n edifar gan Blaid Geidwadol Cymru glywed y newyddion y collir 220 o swyddi yn Alcan yn Rogerstone. Yr wyf yn pryderu ynglŷn â'r ffordd y diystyri'r y 220 o swyddi hyn am ei fod yn cyd-daro â phrosiect mewnfuddsoddi yn yr un ardal. Atgoffaf y Gweinidog fod pob swydd weithgynhyrchu yn darparu dwy swydd arall yn y sector gwasanaethau. Nid 220 o swyddi yn unig ydynt. Ceir effaith luosogi y dylid ei hystyried. Onid yw'n wir bod yr ewro wan a'r costau cynyddol a gyflwynir gan y weinyddiaeth hon a Llywodraeth San Steffan yn niweidiol i swyddi gweithgynhyrchu—y mae gennym ddibyniaeth anghymesur arnynt yng Nghymru—ac yn ergyd drom i economi Cymru? At hynny, bydd y math hwn o swydd yn cael ergyd galetach oherwydd y dreth newid hinsawdd, a gyflwynir o fis Ebrill

onwards. That will have a more exaggerated effect in Wales than in other parts of the United Kingdom.

In your statement, you mentioned that only low-skilled jobs can be followed through in Eastern Europe. I returned from the Czech Republic yesterday and they have plans to upskill their workforce and appear to be much more dynamic than the Assembly's administration. We met a deputy minister in the Czech Republic yesterday who could almost be called a Thatcherite. He seizes the opportunity in developing skills and has plans to attract the higher-skilled jobs to Eastern Europe. This could well be the thin end of the wedge of a mass exodus of jobs from the south Wales economy to Eastern Europe.

We are also placing a great deal of faith in the TECs. I appreciate that they are being wound up and that successor bodies will accept the role and the tasks of the TECs, but they will not be as skilled or experienced in these circumstances. What plans will be given to the WDA and the National Council for Education and Training for Wales, who will inherit these responsibilities?

3:00 p.m.

**Michael German:** I will have to make my statement all over again because you clearly did not listen to it. Anybody who wishes Margaret Thatcher upon the Czech Republic will probably be saddened by the end result, considering the devastation that she caused to Wales's economy.

On the facts that you did not hear: first, you said that I dismissed these job losses. You clearly did not listen, so I will tell you again that I said that the First Minister and I were saddened by yesterday's announcement that 220 jobs will be lost at the Alcan facility. I then went on to describe the facility. Clearly, you were not listening and I hope that you will listen now when I tell you that this is not good news. I spent much time telling you how we will deal with and manage this issue.

ymlaen. Caiff hynny fwy o effaith yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

Yn eich datganiad, soniasoch mai dim ond swyddi â sgiliau isel y gellir eu cyflwyno yn Nwyrain Ewrop. Dychwelais o'r Weriniaeth Tsiec ddoe ac mae ganddynt gynlluniau i uwchraddio sgiliau eu gweithlu ac ymddengys ei bod yn llawer mwy dynamig na gweinyddiaeth y Cynulliad. Cyfarfuom â dirprwy weinidog y Weriniaeth Tsiec ddoe y gellid dweud ei fod yn Thatcheriaid bron. Mae'n bachu ar y cyfle i ddatblygu sgiliau ac mae'n bwriadu denu'r swyddi â sgiliau uwch i Ddwyrain Ewrop. Mae'n bosibl y gallai hyn fod yn flaen y gyllell i lu o swyddi economi de Cymru i Ddwyrain Ewrop.

Yr ydym hefyd yn ymddiried gryn dipyn yn y Cynghorau Hyfforddiant a Menter. Gwerthfawrogaf y ffaith eu bod yn cael eu diddymu ac y bydd y cyrff olynol yn ymgymryd â rôl a thasgau'r cynghorau, ond ni fydd angen iddynt fod mor fedrus a phrofiadol o dan yr amgylchiadau hyn. Pa gynlluniau a roddir i'r WDA a Chyngor Cymru dros Addysg a Hyfforddiant, a fydd yn etifeddu'r cyfrifoldebau hyn?

**Michael German:** Bydd yn rhaid imi wneud fy natganiad o'r newydd am nad oeddech yn gwrando arno mae'n amlwg. Bydd unrhyw un sydd yn dymuno gweld polisïau Margaret Thatcher yn y Weriniaeth Tseic yn debygol o edifarhau wrth weld y canlyniad terfynol, o ystyried y difrod a barodd hithau i economi Cymru.

O ran y ffeithiau nas clywsoch: yn gyntaf, dywedasoich imi ddiystyru'r swyddi hyn a gollwyd. Mae'n amlwg nad oeddech yn gwrando, felly nodaf ichi eto imi ddweud bod y Prif Weinidog a minnau'n drist o glywed y cyhoeddiad ddoe y collir 220 o swyddi yng ngweithfan Alcan. Euthum ymlaen wedyn i ddisgrifio'r weithfan. Yn amlwg, nid oeddech yn gwrando, a gobeithiaf y byddwch yn gwrando'n awr pan ddywedaf wrthyhch nad yw hyn yn newyddion da.



I did not dismiss the job losses in any way.

Treuliais gryn amser yn dweud wrthyhych sut y byddwn yn rheoli ac yn ymdrin â'r mater hwn. Ni ddiystyriaais y swyddi a gollwyd o gwbl.

Secondly, I did not say that the people affected are low skilled and that low skills are being transferred. Those affected are 160 operatives in multi-skilled teams, which is what the production environment has been working towards. These are skilled workers, who will, with relevant upskilling into the new technologies, be very acceptable to the job market. If they are successful, they could well find themselves in better paid employment at the end of it all.

Yn ail, ni ddywedais mai pobl â sgiliau isel yw'r bobl yr effeithir arnynt ac mai sgiliau isel a drosglwyddir. Y bobl yr effeithiwyd arnynt yw'r 160 o weithwyr mewn timau amlfedrus, sef yr hyn y mae'r amgylchedd cynhyrchu wedi bod yn ceisio ei gyflawni. Gweithwyr medrus ydynt, a byddant yn dderbyniol iawn yn y farchnad waith pan gaiff eu sgiliau eu huwchraddio yn unol â'r dechnoleg newydd. Os ydynt yn llwyddiannus, gallent fod mewn gwaith â mwy o dâl yn y pen draw.

You keep referring to the damage that the currency does. Currencies are damaging, but the principle damage—and I repeat this to you—is that done by the Chinese currency and the rouble. If you think that the competition from Russia and China could have been beaten off by the National Assembly through some policy on the pound to deal with currency issues, you are mistaken. There are wider issues relating to our economy and the crucial issue is that we must invest in skills, which is what this Government intends to do.

Yr ydych yn parhau i gyfeirio at y niwed a wna'r arian cyfredol. Gwna arian cyfredol niwed, ond y prif niwed—a dywedaf hynny wrthyhych drachefn—yw'r niwed a wna arian Tsieina a'r rwbl. Os credwch y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol fod wedi gwrthsefyll y gystadleuaeth gan Rwsia a Tsieina drwy ryw bolisi ar y bunt er mwyn mynd i'r afael â materion arian cyfredol, yr ydych yn gwneud camsyniad. Mae materion ehangach sydd yn ymwneud â'n heconomi a'r mater holl bwysig yw bod yn rhaid inni fuddsoddi mewn sgiliau, sef yr hyn y bwriada'r Llywodraeth hon ei wneud.

**Val Feld:** Before I make my substantive point, I cannot resist expressing great surprise at the notion that being dynamic and being Thatcherite are synonymous. Once again, I am gobsmacked at the Conservatives' convenient amnesia. It is as if thousands of jobs were not lost in Wales during the years of Tory Government. However, I am glad to say that we have come a long way since then.

**Val Feld:** Cyn imi wneud fy mhrif bwynt, ni allaf beidio â mynegi fy syndod mawr wrth y cysyniad bod bod yn Thatcheriaid yn gyfystyr â bod yn ddynamig. Unwaith eto, fe'm synnwyd gan amnesia cyfleus y Ceidwadwyr. Maent yn ymddwyn fel na phetai miloedd o swyddi wedi eu colli yng Nghymru yn ystod blynyddoedd y Llywodraeth Doriaidd. Fodd bynnag, mae'n dda gennyf ddweud ein bod wedi gwneud cynnydd da ers hynny.

What do we consider to be long-term jobs and how do we adapt to this kind of change in the economy? This morning, I heard on the radio a spokesman for Wireless Systems, who was billed as offering long-term jobs and said that the company has a commitment to the Welsh economy. However, he also said that the company expects to be here for five

Beth yw swyddi tymor hir yn ein tyb ni a sut yr ydym yn addasu i'r math hwn o newid yn yr economi? Clywais lefarydd Wireless Systems ar y radio y bore yma yr adroddwyd ei fod yn cynnig swyddi tymor hir. Dywedodd fod y cwmni yn ymrwymedig i economi Cymru. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y cwmni yn disgwyl aros yma am

years. That is a very different interpretation of long-term investment.

Do you agree, and what are your current views on how we can enable the Welsh economy to become sufficiently robust so that we can weather this kind of bad news, and pick up the people and the skills quickly? Do you think that what has happened on this occasion is fortuitous or does it indicate that we are beginning to get better at doing that? Can we do more to get earlier intelligence of problems among foreign companies located in Wales? We should consider how we can work with them to get advance warning and to find ways to keep them in Wales, perhaps by providing them with not only financial help but other kinds of support.

**Michael German:** On your last point, it is crucial that we find a way of getting earlier intelligence. One way that we can do that is by working with the cluster groupings. The work that I have done in the last two months in establishing the electronics taskforce is a way of ensuring that we are knowledgeable and ahead of the game in terms of the problems and the exciting developments that that industry has ahead of it.

In terms of investment, we have significant opportunities in west Wales and the Valleys to invest more in companies that are footloose and fancy free, which represent the future for our country. There is no doubt that, as the pace of technologies change—I hope that everybody recognises that the pace of change is not slackening but is becoming faster—we will need to adapt to skills much more rapidly, in order to be ahead of the game. Lifelong learning is not just a statement in inverted commas in an old, dusty education and training manual. It is a reality, and we must invest in the reskilling and continual skilling of our workforce. Only by being at the cutting edge of change will we be able to keep apace with new technologies. This is a great opportunity. We have discussed a sustainable and renewable energy industry, and our burgeoning cultural industry is also an opportunity to develop. Electronics, aerospace and motor vehicle component manufacture are also crucial and

bum mlynedd. Mae hynny'n ddehongliad tra gwahanol o fuddsoddi tymor hir.

A gytunwch, a beth yw eich barn ar hyn o bryd ar sut y gallwn alluogi economi Cymru i fod yn ddigon cadarn fel y gallwn wrthsefyll newyddion drwg o'r fath, a meithrin y bobl a'r sgiliau yn gyflym? A gredwch mai lwc oedd yr hyn a ddigwyddodd y tro hwn neu a yw'n dangos ein bod yn gwella yn hynny o beth? A allwn wneud mwy er mwyn cael gwybodaeth gynnar am broblemau ymhlith cwmnïau tramor a leolir yng Nghymru? Dylem ystyried sut y gallwn gydweithio â hwy er mwyn cael rhybudd ymlaen llaw a chanfod ffyrdd o'u cadw yng Nghymru, efallai drwy roi mathau eraill o gymorth yn ogystal â chymorth ariannol.

**Michael German:** Ynglŷn â'ch pwynt olaf, mae'n hanfodol ein bod yn dod o hyd i ffordd o gael gwybodaeth yn gynharach. Un ffordd y gallwn wneud hynny yw drwy weithio gyda grwpiau clwstwr. Mae'r gwaith a wneuthum yn ystod y deufis diwethaf wrth sefydlu'r tasglu electroneg yn ffordd o sicrhau ein bod yn wybodus ac ar flaen y gad o ran y problemau a'r datblygiadau cyffrous y bydd y diwydiant yn eu hwynebu.

O ran buddsoddi, mae gennym gyfle da yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i fuddsoddi rhagor mewn cwmnïau dilyffethair, a gynrychiola ddyfodol ein gwlad. Nid oes amheuaeth y bydd angen inni addasu i sgiliau yn llawer cyflymach er mwyn arwain y gad wrth i'r newidiadau technolegol gyflymu—gobeithiaf fod pawb yn cydnabod bod y newidiadau'n cyflymu yn hytrach nag arafu. Nid datganiad mewn dyfynodau mewn hen lawlyfr addysg a hyfforddiant llychlyd yw dysgu gydol oes. Mae'n realiti, a rhaid inni fuddsoddi i roi hyfforddiant parhaus i'n gweithlu a rhoi sgiliau newydd iddynt. Dim ond drwy fod ar flaen y gad o ran newidiadau y gallwn ymdopi â'r technolegau newydd. Mae hwn yn gyfle gwych. Yr ydym wedi trafod diwydiant ynni adnewyddadwy a chynaliadwy, ac mae ein diwydiant diwylliannol cynyddol hefyd yn gyfle i ddatblygu. Mae electroneg, awyrofod a gweithgynhyrchu cydrannau cerbydau modur hefyd yn hanfodol bwysig ac yn feysydd

are fields that are developing and strengthening as we speak. Change, of course, will happen. We live in a globalised, economically-changing world. However, if we are prepared, we can not only sustain current jobs, we can also enhance them and ensure a better quality of life for our people.

**William Graham:** Members will know that, for many years, there were two aluminium plants in Newport. However, only one is left. I agree with Rosemary Butler that this was an insensitive time to announce these job losses. In terms of warnings, it would be advisable for people to read the financial press, where analysts have warned for some months that household foil production has become increasingly unprofitable. I refer to the high volume of this product produced in emerging nations.

Will you look closely at maintaining our country's key manufacturing products and sheet manufacturing system? Their future is by no means assured. We have yet to hear the agreement of the main board to place further capital at the disposal of the Rogerstone plant. Will you take this into account and ensure that you present a persuasive argument for appropriate finance to be made available?

**Michael German:** I have already made it clear to the company that we were seeking a guarantee from it that the sheet metal manufacturing facility would continue. The company's response has been to continue to treat this as a high-level capital investment, and it wishes to continue to do so. The company's loss of £10 million over the last two years in the foil sector is an indication that it has succumbed to the problems of the market. However, the company has given an assurance that targeted capital investment will continue. I will monitor that. The company is not in a regional selective assistance area, but we will do whatever we can within the bounds of the rules before us to ensure that the jobs are retained.

sydd yn datblygu ac yn cryfhau fwyfwy. Bydd newidiadau'n digwydd, wrth reswm. Yr ydym yn byw mewn byd sydd yn newid yn economaidd ac sydd o dan ddylanwadau byd-eang. Fodd bynnag, os ydym yn barod, gallwn nid yn unig gadw'r swyddi presennol, ond eu gwella a sicrhau bywyd o ansawdd gwell i'n pobl.

**William Graham:** Gŵyr yr Aelodau y bu dwy weithfan alwminiwm yng Nghasnewydd am flynyddoedd lawer. Fodd bynnag, dim ond un sydd ar ôl. Cytunaf â Rosemary Butler fod hon yn adeg ansensitif i gyhoeddi bod y swyddi hyn yn cael eu colli. O ran cael rhybudd, byddai'n dda pe bai pobl yn darllen y wasg ariannol, lle y bu'r dadansoddwyr yn rhybuddio ers rhai misoedd bod cynhyrchu ffoil i'r cartref wedi mynd yn fwyfwy amhroffidiol. Cyfeiriaf at y swm mawr o'r cynnyrch hwn a gynhyrchir yn y gwledydd sydd yn datblygu.

A wnewch chi edrych yn fanwl ar gadw cynnyrch gweithgynhyrchu allweddol a system gweithgynhyrchu dalenni ein gwlad? Nid yw eu dyfodol yn sicr o bell ffordd. Nid ydym wedi clywed hyd yn hyn bod y prif fwrdd yn cytuno i sicrhau bod mwy o gyfalaf ar gael i weithfan Rogerstone. A wnewch chi ystyried hyn a sicrhau eich bod yn cyflwyno dadl gref dros sicrhau bod cyllid priodol ar gael?

**Michael German:** Yr wyf eisoes wedi egluro i'r cwmni ein bod yn ceisio sicrwydd ganddo y byddai'r weithfan gweithgynhyrchu dalenni metel yn parhau. Bu'r cwmni'n ymateb drwy barhau i drin hyn fel buddsoddiad cyfalaf lefel uchel, ac mae am barhau i wneud hynny. Dengys y ffaith i'r cwmni golli £10 miliwn yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yn y sector ffoil ei fod wedi dioddef oherwydd y problemau yn y farchnad. Fodd bynnag, rhoddodd y cwmni sicrwydd y bydd buddsoddi cyfalaf wedi ei dargedu yn parhau. Byddaf yn monitro hynny. Nid yw'r cwmni mewn ardal cymorth dethol rhanbarthol, ond gwnawn beth bynnag y gallwn o fewn y rheolau sydd ger ein bron i sicrhau y cedwir y swyddi.

**Brian Gibbons:** Do you agree that the descriptions of the Welsh economy given by Alun Cairns and Phil Williams bordered on a virtual caricature of the situation? While there are many areas of concern, such as the strength of the pound—although we heard the good news last week that the euro is strengthening vis-à-vis the pound—it was rich to hear Alun Cairns talk about job creation and job destruction in Wales, when his Government presided over a level of unemployment three times the current level in Wales. Phil Williams's description did not recognise that unemployment in Wales is at its lowest level for the best part of 20 years, and that, even in my constituency, youth unemployment is only 20 per cent of what it was three or four years ago. It does not help that you undermine the credibility of Wales as an economic investment location by continuing to portray a doomsday, catastrophic and cataclysmic picture.

**Michael German:** I could not agree with you more. What the Members from other parties who have contributed today are really saying is that the doors should be closed, the gates locked and the people thrown out of work. That is not how the Assembly should portray Wales. We have a rich future in a diverse economy. Those who say that we have eggs in only one basket are very much mistaken. If they were to count the figures and look at the facts, they will see an economy in transition, which is, however, a secure economy with potential for growth. The key to growth must be the skills of our people. We must invest in those skills. I look forward to working with the National Council for Education and Training to ensure that we continually upskill our workers, recognise the demands placed upon them and meet the challenge of the new technologies. We have a brave and sharp new economy. There is no purpose in talking it down.

3:10 p.m.

**Brian Hancock:** I was saddened and shocked yesterday when I heard the news. The factory is less than half a mile from the boundary of the Islwyn constituency, and

**Brian Gibbons:** A gytunwch fod y disgrifiadau o economi Cymru a roddwyd gan Alun Cairns a Phil Williams yn garicatur bron o'r sefyllfa? Er bod llawer o feysydd sydd yn achosi pryder, fel cryfder y bunt—er inni glywed y newyddion da yr wythnos diwethaf bod yr ewro'n cryfhau o'i chymharu â'r bunt—yr oedd yn syndod i Alun Cairns siarad am greu a dinistrio swyddi yng Nghymru, pan lywyddodd ei Lywodraeth yntau dros lefel ddiweithdra a oedd deirgwaith cymaint â'r lefel bresennol yng Nghymru. Nid oedd disgrifiad Phil Williams yn cydnabod y ffaith bod diweithdra yng Nghymru ar ei lefel isaf ers 20 mlynedd bron, a hyd yn oed yn fy etholaeth i, bod y diweithdra ymhlith pobl ifanc ond 20 y cant o'r hyn a fu dair neu bedair blynedd yn ôl. Nid yw o fudd ichi danseilio hygredd Cymru fel lleoliad buddsoddi economaidd drwy barhau i roi darlun trychinebus, adfyddus dydd y farn.

**Michael German:** Cytunaf yn llwyr â chi. Yr hyn mae'r Aelodau o bleidiau eraill a gyfrannodd heddiw yn dweud mewn gwirionedd yw y dylid cau'r drysau, cloi'r giataiu a diswyddo pobl. Nid dyna'r darlun y dylai'r Cynulliad ei roi o Gymru. Bydd dyfodol cyfoethog mewn economi amrywiol gennym. Mae'r rhai sydd yn dweud ein bod wedi rhoi ein hwyau mewn un fasedged yn gwneud camsyniad mawr. Pe baent yn edrych ar y ffigurau a'r ffeithiau, byddent yn gweld economi sydd mewn cyfnod trosiannol, ond sydd, fodd bynnag, yn economi sicr a chanddi le i dyfu. Rhaid i sgiliau ein pobl fod yn allwedd i dwf. Rhaid inni fuddsoddi yn y sgiliau hynny. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol er mwyn sicrhau ein bod yn gwella sgiliau ein gweithwyr o hyd, yn cydnabod y gofynion a roddir arnynt ac yn cwrdd â her y technolegau newydd. Mae gennym economi newydd hyderus a disglair. Nid oes diben lladd arni.

**Brian Hancock:** Yr oedd yn fater o dristwch a sioc imi pan glywais y newyddion ddoe. Mae'r ffatri lai na hanner milltir o ffin etholaeth Islwyn, ac o ganlyniad mae llawer

consequently many constituents, friends and neighbours work there and in the steel plants, so I am doubly concerned. I am concerned that in this factory, which is long established—as William said, there were two factories there in the past—the average age of the workforce is the age when people tend not to think about furthering their career or changing career because they have accumulated years of service and it may be conducive at their time of life to take what is on offer. I am concerned about the 220 job losses and also about the creation of 260 jobs in the next valley: we should mesh these jobs.

Members have already made points about the training and enterprise councils coming and going and the creation of the National Council for Education and Training. It is important that we realise that we will want those jobs over and above what we are losing. We need to address the training that should be in place now, not next year. We want the jobs now and we must identify them.

I return to the subordinate legislation that I proposed to ensure that a programme of careers education is provided for all post-16 students. We need to address that in the future. I have great concerns for the people of Islwyn. I am anxious for long-term jobs. That point was made on the radio this morning. Like Val Feld, I was concerned. I am worried about the quality of the jobs. We are not interested in footloose and fancy-free jobs. There is a long recurring record where companies come to the Valleys and disappear, and this happens often at Christmas time, which is a bad time. Gross domestic product is going down, and the gap is getting bigger. That is our problem. We must do something about it, mesh the jobs and pull them together. Let us get on with it.

**Michael German:** The task before us is to reduce the gap in the GDP. We have the advantage of Objective 1 money to do that. We also know that, while jobs will be lost in the economy, we must work towards the

o'm hetholwyr, fy nghyfeillion a'm cymdogion yn gweithio yno ac yn y gwaith dur, felly mae dau achos pryder gennyf. Yr wyf yn pryderu mai oedran cyfartalog y gweithlu yn y ffatri, sydd wedi hen sefydlu—bu dwy ffatri yno yn y gorffennol, fel y dywedodd William—yw'r oedran pan fydd pobl yn tueddu i beidio â meddwl am ddatblygu eu gyrfa ymhellach neu newid gyrfa am fod blynyddoedd o wasanaeth ganddynt ac efallai ei bod yn hwylus iddynt dderbyn yr hyn a gynigir ar yr adeg honno yn eu bywydau. Yr wyf yn pryderu ynghylch y 220 o swyddi a gollwyd a hefyd ynghylch creu'r 260 o swyddi yn y cwm cyfagos: dylem gyplysu'r swyddi hyn.

Mae'r Aelodau eisoes wedi sôn am ddiddymu'r cynghorau hyfforddiant a menter a chreu'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol. Mae'n bwysig inni sylweddoli y byddwn am gael y swyddi hyn yn ychwanegol at y rhai a gollwn. Mae angen inni roi sylw i'r hyfforddiant a ddylai fod ar waith yn awr, nid y flwyddyn nesaf. Mae angen y swyddi arnom yn awr a rhaid inni eu nodi.

Dychwelaf at yr is-ddeddfwriaeth a gynigiais er mwyn sicrhau y darperir rhaglen o addysg gyrfaoedd i bob myfyriwr dros 16 oed. Mae angen inni roi sylw i hynny yn y dyfodol. Yr wyf yn pryderu'n fawr ynghylch pobl Islwyn. Yr wyf yn pryderu ynghylch swyddi tymor hir. Gwnaethpwyd y pwynt hwnnw ar y radio y bore yma. Fel Val Feld, yr oeddwn innau'n pryderu. Yr wyf yn pryderu ynghylch ansawdd y swyddi. Nid ydym am gael swyddi dilyffethair. Ers tro bu cwmnïau'n dod i'r Cymoedd ac yn diflannu, ac mae hyn yn digwydd yn aml ar adeg y Nadolig, sydd yn amser gwael. Mae cynnyrch mewnwladol crynswth yn gostwng, ac mae'r gagendor yn cynyddu. Dyna'r broblem sydd gennym. Rhaid inni wneud rhywbeth ynghylch hynny, cyplysu'r swyddi a'u tynnu ynghyd. Gadewch inni fwrw iddi.

**Michael German:** Y dasg sydd o'n blaenau yw lleihau'r gagendor o ran cynnyrch mewnwladol crynswth. Gallwn fanteisio ar arian Amcan 1 i wneud hynny. Gwyddom hefyd, er y caiff swyddi eu colli yn yr

future and the new economy. That is why the national economic development strategy, which you are a part of preparing, will be so crucial to helping us picture the sort of Wales in which we want to live in 10 or 15 years. I repeat that investing in the skills of your workforce—existing workers as well as those who are coming into work—is the crucial element which will make that difference, along with the proper investment that we can make to be selectively helpful in Wales in a way that cannot be done elsewhere. We are not trying to prop up the economy. We are investing for the future. We must expect the economy to move much more rapidly in the future. If you think that our economy can be sustained by standing still, you are mistaken. The clue is skills and retraining.

economi, fod yn rhaid inni weithio tuag at y dyfodol a'r economi newydd. Dyma pam y bydd y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, yr ydych yn cymryd rhan wrth ei pharatoi, yn holl bwysig i'n helpu i ddychmygu'r Gymru yr ydym am fyw ynddi ymhen 10 neu 15 mlynedd. Dywedaf eto fod buddsoddi yn sgiliau eich gweithlu—gweithwyr presennol yn ogystal â'r rhai a ddaw i mewn i'r gwaith—yn elfen holl bwysig a fydd yn gwneud y gwahaniaeth hwnnw, ynghyd â'r buddsoddiad priodol y gallwn ei wneud o ran cymorth dethol yng Nghymru mewn ffordd na ellir ei wneud mewn mannau eraill. Nid ydym yn ceisio cynnal yr economi. Yr ydym yn buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Rhaid inni ddisgwyl i'r economi symud yn llawer cyflymach yn y dyfodol. Yr ydych yn gwneud camsyniad os credwch y gellir cynnal ein heconomi drwy sefyll yn yr unfan. Sgiliau ac ailhyfforddi yw'r allwedd.

### **Datganiad ar Galedi ac Ariannu Myfyrwyr Statement on Student Hardship and Funding**

**The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson):** I wish to make a statement about the terms of reference for the inquiry I intend to set up, to take forward the commitment in 'Putting Wales First: A Partnership Agreement for the People of Wales' to conduct an independent investigation into student hardship and funding in Wales, dealing with the issues covered by the Cubie report of the independent committee of inquiry in Scotland that fall within the Assembly's remit. I am pleased to do this, from a personal viewpoint and because it shows that the first partnership agreement of the National Assembly for Wales is already bearing fruit.

At oral Assembly questions on 2 November I told Dafydd Wigley that I would ensure that the investigation is commissioned in such a way that it plays into the Education and Lifelong Learning Committee's proposed higher education policy review. I also told Jonathan Morgan that I would consider an investigation into hardship and that I am committed to ensuring that the greatest

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Dymunaf wneud datganiad am gylch gorchwyl yr ymchwiliad y bwriadaf ei sefydlu, er mwyn mynd ag ymrwymiad 'Rhoi Cymru'n Gyntaf: Cytundeb Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru' ymlaen er mwyn cynnal ymchwiliad annibynnol i galedi ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, gan ddelio â'r materion a gwmpaswyd gan adroddiad Cubie o bwyllgor ymchwilio annibynnol yn yr Alban a gwmpesir o fewn cylch gwaith y Cynulliad. Mae'n bleser gennyf wneud hyn, o safbwynt personol ac am ei fod yn dangos bod cytundeb partneriaeth cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dwyn ffrwyth yn barod.

Yn y cwestiynau llafar a ofynnwyd yn y Cynulliad ar 2 Tachwedd dywedais wrth Dafydd Wigley y byddwn yn sicrhau y comisynir yr ymchwiliad mewn modd sydd yn sicrhau y bydd yn berthnasol i adolygiad polisi addysg uwch arfaethedig y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Dywedais wrth Jonathan Morgan hefyd y byddwn yn ystyried ymchwiliad i galedi ac fy mod yn

number of young people, in particular, have access to the widest possible opportunities of higher education. I also invited the members of the Education and Lifelong Learning Committee, on 15 November, to nominate people to take part in the investigation.

One major theme in the Assembly's vision for the nation is that the development of an inclusive society where everyone has the chance to fulfil his or her potential. In the programme for Government laid out in the partnership agreement, we have defined our principles for education and lifelong learning in these terms:

'High quality, lifelong education, available to all of the people of Wales, is our highest priority. Education liberates talents, extends opportunity and helps create wealth.

We will put in place policies to achieve long-term and sustained improvement in the quality of education in Wales, with the aim of building one of the best education systems in the world.'

We wish to upskill. We want to be able to grow the knowledge economy for the benefit of our communities and the individuals in them, and we wish to extend opportunity and widen participation in education beyond compulsory school age in all parts of our communities. In further and higher education, that means that we shall seek to remove barriers to participation so that all those who want to and can meet the challenges, can further their education.

I have prepared draft terms of reference, which I have posted on the Assembly intranet. The investigation's terms of reference and biographies of its members are also available on the Chamberweb. As I said on 2 November, the issue is not whether we should have tuition fees or not. Tuition fees exist. I want this investigation to help the Assembly to make the best use of its powers and budgets and to make an impact sooner rather than later in this policy area.

ymrwymedig i sicrhau y gall y nifer uchaf posibl o bobl ifanc, yn arbennig, gael mynediad at y dewis ehangach posibl o gyfleoedd addysg uwch. Hefyd, estynnais wahoddiad i aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 15 Tachwedd, i enwebu pobl i gymryd rhan yn yr ymchwiliad.

Un o brif themâu'r weledigaeth sydd gan y Cynulliad ar gyfer y genedl yw datblygu cymdeithas gynhwysol lle caiff pawb y cyfle i gyflawni ei botensial. Yn y rhaglen a nodwyd yn y cytundeb partneriaeth ar gyfer y Llywodraeth, yr ydym wedi diffinio ein hegwyddorion ar gyfer addysg a dysgu gydol oes fel a ganlyn:

'Addysg gydol oes o ansawdd uchel, ar gael i holl bobl Cymru, yw ein blaenoriaeth uchaf. Mae addysg yn rhyddhau doniau, yn ymestyn cyfle ac yn help i greu cyfoeth.

Byddwn yn sefydlu polisiau i sicrhau gwelliant hirdymor a chynaliadwy yn ansawdd addysg yng Nghymru, gyda'r nod o lunio un o'r cyfundrefnau addysg gorau yn y byd.'

Yr ydym am loywi sgiliau pobl. Yr ydym am ddatblygu'r economi gwybodaeth er budd ein cymunedau a'r unigolion ynddynt, ac yr ydym yn dymuno ehangu cyfleoedd a chynyddu nifer y bobl sydd yn cymryd rhan mewn addysg y tu hwnt i oedran ysgol gorfodol ym mhob rhan o'n cymunedau. Ym maes addysg bellach ac uwch, golyga hynny y byddwn yn ceisio diddymu'r rhwystrau at gyfranogi er mwyn i bawb sydd am ac sydd yn gallu cwrdd â'r sialensiau allu datblygu eu haddysg ymhellach.

Yr wyf wedi paratoi cylch gorchwyl drafft, a roddais ar fewnrwyd y Cynulliad. Mae cylch gorchwyl yr ymchwiliad a bywgraffiadau ei aelodau hefyd ar gael ar we'r Siambr. Fel y dywedais ar 2 Tachwedd, nid a ddylem gael ffioedd hyfforddi ai peidio yw'r mater dan sylw. Mae ffioedd hyfforddi yn bodoli. Yr wyf am i'r ymchwiliad hwn helpu'r Cynulliad i wneud y defnydd gorau o'i bwerau a'i gyllidebau ac i sicrhau y bydd hyn yn cael effaith cyn gynted â phosibl ar y maes polisi hwn.

That is a challenging agenda but I am confident that a well-based study on these lines will be invaluable for the Assembly and for the future of students in Wales. I will discuss the draft terms of reference with the Education and Lifelong Learning Committee on 13 December, as previously agreed. I will be happy to consider comments and suggestions from other Members. That is why the terms of reference are in draft form.

I will place the report's recommendations before the Assembly when it is published. The Cabinet will give serious consideration to the recommendations, and we shall then, as agreed, consult the Education and Lifelong Learning Committee on our response in terms of implementation.

In the Education and Lifelong Learning Committee meeting, I invited Members to nominate people who could be considered for membership of the investigation group. I have also approached the National Union of Students. I am grateful to those who put forward names for consideration. I stress that I am not establishing another public body. Rather, this is a group of people, acting in an unpaid capacity, brought together to use their experience and expertise for the benefit of the community of Wales and to undertake a specific task within a time limit.

I am pleased to announce that Professor Teresa Rees has agreed to chair the investigation task group. She is a professor in the School of Social Sciences, Cardiff University, and her expertise is in equal opportunities, labour market policies and the European Union. Prior to her current appointment she was Professor of Labour Market Studies at the University of Bristol. She is a member of the Equal Opportunities Commission and represents Wales on the Commission. The following have also agreed to sit on the group: Rob Humphreys, an academic in the Department of Continuing Education at the University of Wales, Swansea; David Jenkins, General Secretary of the Trades Union Congress Wales; Dr Sonia Reynolds, a member of the Further Education Funding Council for Wales;

Mae hon yn agenda heriol ond yr wyf yn hyderus y bydd astudiaeth gynhwysfawr i'r perwyl hwn yn werthfawr iawn i'r Cynulliad ac i ddyfodol myfyrwyr yng Nghymru. Byddaf yn trafod y cylch gorchwyl drafft gyda'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 13 Rhagfyr, fel y cytunwyd yn flaenorol. Byddaf yn barod i ystyried sylwadau ac awgrymiadau gan Aelodau eraill. Dyna pam mai ar ffurf drafft y mae'r cylch gorchwyl.

Byddaf yn cyflwyno argymhellion yr adroddiad i'r Cynulliad pan gaiff ei gyhoeddi. Bydd yn rhaid i'r Cabinet roi ystriaeth ddifrifol i'r argymhellion, ac yna byddwn yn ymgynghori â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, fel y cytunwyd, ar ein hymateb o ran gweithredu.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, estynnais wahoddiad i'r Aelodau enwebu pobl y gellid eu hystyried i fod yn aelodau o'r grŵp ymchwilio. Yr wyf hefyd wedi cysylltu ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Yr wyf yn ddiolchgar i'r rhai a awgrymodd enwau i'w hystyried. Pwysleisiaf nad wyf yn sefydlu corff cyhoeddus arall. Yn hytrach, grŵp o bobl yw'r rhain, na chânt eu talu, a ddygwyd ynghyd i ddefnyddio eu profiad a'u harbenigedd er budd cymuned Cymru ac er mwyn ymgymryd â thasgau penodol o fewn cyfnod penodol o amser.

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod yr Athro Teresa Rees wedi cytuno i gadeirio'r grŵp gorchwyl ymchwilio. Mae'n athro yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd, ac mae'n arbenigo ym meysydd cyfle cyfartal, polisiau'r farchnad lafur a'r Undeb Ewropeaidd. Cyn ei phenodiad presennol yr oedd yn Athro Astudiaethau'r Farchnad Lafur ym Mhrifysgol Bryste. Mae'n aelod o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a chynrychiola Cymru ar y Comisiwn. Mae'r canlynol hefyd wedi cytuno i fod yn rhan o'r grŵp: Rob Humphreys, academydd yn Adran Addysg Barhaus Prifysgol Cymru, Abertawe; David Jenkins, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngres yr Undebau Llafur, Cymru; Dr Sonia Reynolds, aelod o Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru; Kenneth Richards, economydd academiaidd ym Mhrifysgol



Kenneth Richards, an academic economist at the University of Wales, Aberystwyth, now retired; Ray Singh, a barrister at law and a member of the Commission for Racial Equality, who represents Wales's interests on the Commission and who was a member of the National Assembly Advisory Group; and Eleri Wynne Jones, a member of the Higher Education Funding Council for Wales, Director of Channel Four Television between 1986 and 1990 and a member of the Sianel Pedwar Cymru Authority between 1983 and 1990. Last, but not least, is Matt Whiting, President of the University of Glamorgan Students' Union, who was nominated by the National Union of Students, Wales.

In conclusion, I hope that you agree that the group of people that we have assembled will do a valuable job for the people of Wales. I place on record my thanks to them for their willingness to undertake this important task. The group that will be known as the investigation group on student hardship and funding will hold its first meeting to discuss how to take forward this initiative on Friday 8 December. I will expect the group to report to me by Easter 2001

3:20 p.m.

**Jonathan Morgan:** On behalf of the Welsh Conservative Party, I thank the Minister for bringing forward this review, for which many of us in this Chamber have been calling since July of last year. The road to Damascus is clearly a long one, but I am glad that the Government has reached the final destination. Will you confirm that the review—I know that you mentioned this in your statement—in no way undermines the Education and Lifelong Learning Committee's ability to examine this crucial issue as part of its higher education review? It should not replace the Committee's review of student hardship and the funding of higher education. That is a crucial part of the review and I hope that you will support the Committee in that work.

In terms of the work of your group, when does it intend to meet and how often? I assume that its meetings will be held in

Cymru, Aberystwyth, sydd wedi ymddeol erbyn hyn; Ray Singh, bargyfreithiwr ac aelod o'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, sydd yn cynrychioli buddiannau Cymru ar y Comisiwn ac a oedd yn aelod o Grŵp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol; ac Eleri Wynne Jones, aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyfarwyddwraig Channel Four Television rhwng 1986 a 1990 ac aelod o Awdurdod Sianel Pedwar Cymru rhwng 1983 a 1990. Heb anghofio Matt Whiting, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Morgannwg, a enwebwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru.

I gloi, gobeithiaf y byddwch yn cytuno y bydd y grŵp o bobl a gasglwyd ynghyd yn cyflawni tasg werthfawr i bobl Cymru. Cofnodaf fy niolch iddynt am eu parodrwydd i ymgymryd â'r dasg bwysig hon. Bydd y grŵp a elwir yn grŵp ymchwilio ar galedi ac ariannu myfyrwyr yn cynnal ei gyfarfod cyntaf i drafod sut i fynd â'r fenter hon ymlaen ddydd Gwener 8 Rhagfyr. Disgwyliaf i'r grŵp adrodd yn ôl imi erbyn Pasg 2001.

**Jonathan Morgan:** Ar ran Plaid Geidwadol Cymru, diolchaf i'r Gweinidog am ddod â'r adolygiad hwn ymlaen rhywbeth, y mae nifer ohonom yn y Siambr hon wedi ei ddymuno ers mis Gorffennaf y llynedd. Mae'r ffordd i Ddamascus yn amlwg yn un faith, ond yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi cyrraedd pen y daith. A wnewch chi gadarnhau na fydd yr adolygiad—gwn eich bod wedi crybwyll hyn yn eich datganiad—yn tanseilio gallu'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes mewn unrhyw ffordd i archwilio'r mater holl bwysig hwn fel rhan o'i adolygiad addysg uwch? Ni ddylai ddisodli adolygiad y Pwyllgor ar galedi myfyrwyr ac ariannu addysg uwch. Mae hynny'n rhan hanfodol o'r adolygiad a gobeithiaf y byddwch yn cefnogi'r Pwyllgor gyda'r gwaith hwnnw.

Yn nhermau gwaith eich grŵp, pryd y mae'n bwriadu cwrdd a pha mor aml? Tybiaf y cynhelir ei gyfarfodydd yn gyhoeddus er

public so that when the group takes evidence from interest groups, particularly the National Union of Students, which I hope will offer a considerable amount of evidence on student hardship, the public will be able to attend and to listen to the broad range of evidence being presented. We do not want higher education to become a preserve of the middle classes only. We welcome any steps by the Government to widen access to the many thousands of young people in and outside Wales, who have the academic ability to go to university.

**Cynog Dafis:** Soniwch nad oes dewis ar hyn o bryd ond defnyddio cynlluniau PFI ar gyfer datblygiadau pwysig, a chydabyddaf fod hynny'n wir. A ydych yn cytuno ei bod yn resyn o beth fod y fframwaith polisi y mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol yn ei roi arnom yn ein gorfodi i mewn i'r sianel hon? Gallai hynny fod yn wahanol pe bai agwedd Trysorlys y Deyrnas Gyfunol at ofyniad benthyca'r sector cyhoeddus a'r diffinad ohono yn wahanol, a phe bai'r Llywodraeth yn ganolog yn cymryd agwedd wahanol at wariant cyhoeddus ac yn caniatáu inni ddefnyddio arian a godir drwy drethiant ar gyfer buddsoddi mewn pob math o ddatblygiadau cyfalaf?

**Cynog Dafis:** You mention that there is no choice at present but to use PFI schemes for important developments, and I acknowledge that that is true. Do you agree that it is regrettable that the policy framework imposed upon us by the United Kingdom Government forces us into this channel? That could be different if the attitude of the United Kingdom Treasury towards the public sector borrowing requirement and its definition of it were different, and if central Government took a different attitude to public expenditure and allowed us to use the money raised by taxation for investment in all kinds of capital developments?



**Edwina Hart:** The trouble is, Cynog, that I have to deal with the reality of the Treasury's policy in my discussions on PFI and public-private partnerships. It would be nice to be able to comment on what I regard as the economic management of the country, but that would be inappropriate. I must look at what we can do in Wales now in the context of national Government policy.

With the assistance of the Assembly's Committees, I shall consider how the Assembly can improve the quality of its administrative procedures and assistance for private finance in Wales, hopefully providing better and more accessible advice and guidance. As part of this initiative, officials will design and maintain a website dedicated to public-private partnership issues. In the medium term we need a clear statement about future PFI credit bidding rounds. The existing uncertainty hinders the progress of possible schemes, and clear guidance from the Assembly is essential. At present, PFI credits are only available to local authorities. I would like to investigate whether a similar arrangement should be extended to the health sector. The Assembly will work with the health sector to investigate the potential benefit of taking this forward within the developing capital planning framework. It is an entirely appropriate matter for the Health and Social Services Committee to discuss.

3:50 p.m.

Clear guidance is needed to deal with the transfer of soft facilities management, employed in some PFI contracts. That tends to affect staff such as cleaners, porters and ancillary staff. There have been schemes where such indirectly-associated responsibilities, and the staff involved, have been transferred to the financier. We will work with our partners to clarify the issues involved in such transfers. Within the value for money framework, I am keen to look favourably on bids that exclude the inappropriate transfer of staff. I am also aware that it has caused great consternation in some projects in Caerphilly, Rhondda

**Edwina Hart:** Y drafferth yw, Cynog, bod yn rhaid imi ddelio â realiti polisi'r Trysorlys wrth drafod y fenter cyllid preifat a phartneriaethau cyhoeddus-preifat. Byddai'n braf gallu rhoi sylwadau ar reolaeth economaidd y wlad yn fy marn, ond ni fyddai hynny'n briodol. Rhaid imi ystyried yr hyn y gallwn ei wneud yng Nghymru yn awr yng nghyd-destun polisi'r Llywodraeth genedlaethol.

Gyda chymorth Pwyllgorau'r Cynulliad, ystyriaf sut y gall y Cynulliad wella ansawdd ei weithdrefnau gweinyddol a'i gymorth i arian preifat yng Nghymru, gan ddarparu cyngor ac arweiniad gwell a mwy hygyrch, gobeithio. Fel rhan o'r fenter hon, bydd swyddogion yn dylunio a chynnal gwefan ar gyfer materion partneriaeth cyhoeddus-preifat yn benodol. Yn y tymor canolig, mae angen datganiad clir am rowndiau cynigion credyd y fenter cyllid preifat yn y dyfodol. Mae'r ansicrwydd presennol yn rhwystro cynnydd cynlluniau posibl, ac mae arweiniad clir gan y Cynulliad yn hanfodol. Ar hyn o bryd, dim ond awdurdodau lleol a all gael credydau'r fenter cyllid preifat. Hoffwn ymchwilio i weld a ddylid ehangu trefniant tebyg i'r sector iechyd. Gweithia'r Cynulliad gyda'r sector iechyd i ymchwilio i'r manteision posibl a geir wrth ddatblygu hyn o fewn y fframwaith cynllunio cyfalaf sydd yn datblygu. Mae'n fater cwbl briodol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei drafod.

Mae angen arweiniad clir i ddelio â throsglwyddo rheolaeth cyfleusterau meddal, a ddefnyddir mewn rhai o gontractau'r fenter cyllid preifat. Tuedda hynny i effeithio ar staff megis glanhawyr, porthorion a staff atodol. Bu cynlluniau lle trosglwyddwyd cyfrifoldebau o'r fath sydd yn anuniongyrchol gysylltiedig, a'r staff sydd ynghlwm â'r cynlluniau, i'r ariannwr. Gweithiwn gyda'n partneriaid i esbonio'r materion sydd ynghlwm â throsglwyddiadau o'r fath. O fewn y fframwaith gwerth am arian, yr wyf yn awyddus i edrych yn ffafriol ar gynigion nad ydynt yn cynnwys trosglwyddo staff yn amhriodol. Yr wyf yn

Cynon Taff and other local authority areas, where staff may have been involved in the transfer. There have been concerns about staff being involved in the transfer of these assets.

The Local Government and Housing Committee is continuing its review of the capital financing of council housing. As well as evaluating stock transfers and options, the Committee will consider the benefits or otherwise of PFI in financing capital investment in council housing stock. There are currently eight authorities in England with housing pathfinder projects supported by the Department for the Environment, Transport and the Regions. We will review the evidence from these projects and consider the merits of any pilot schemes in Wales.

We need to streamline the bureaucracy associated with these projects. The time, cost and effort of developing these projects is significant. Through reducing bureaucracy and improving access to information, the Assembly can assist in cutting down on cost. The public sector in Wales is keen to develop the principle of joint working, although at the moment there are legal, stakeholder, and, of course, political issues that complicate schemes. The Assembly will consider several areas where there is potential for cross-sector co-operation and will see where we can adapt existing guidance and legislation to reduce bureaucracy.

We need to develop a strategic framework for public-private partnership and PFI projects in Wales. At present, the majority of capital projects are undertaken at a local level, based on local priorities. The Assembly is sometimes in a position to see possible links across sectors and to encourage cross-authority co-operation. If the Assembly supports the motion, the review into private finance will be continued by the two identified Committees. In addition, I wish to continue the dialogue with our

ymwybodol hefyd yr achosodd hyn lawer o gythrwfl mewn rhai prosiectau yng Nghaerffili, Rhondda Cynon Taf ac ardaloedd awdurdodau lleol eraill, lle gallai staff fod wedi bod yn rhan o'r trosglwyddiad. Bu pryderon y byddai staff yn rhan o'r gwaith o drosglwyddo'r asedau hyn.

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn parhau â'i arolygiad o ariannu cyfalaf tai cyngor. Yn ogystal â gwerthuso trosglwyddiadau ac opsiynau stoc, ystyria'r Pwyllgor fanteision neu anfanteision y fenter cyllid preifat i ariannu buddsoddi cyfalaf yn y stoc tai cyngor. Ar hyn o bryd, mae wyth awdurdod yn Lloegr yn cynnal prosiectau tai arloesol a gefnogir gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau. Adolygwn y dystiolaeth a geir gan y prosiectau hyn ac ystyriwn rinweddau unrhyw gynlluniau peilot yng Nghymru.

Mae angen inni resymoli'r fiwrocratiaeth sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau hyn. Mae'r amser, y gost a'r ymdrech sydd eu hangen i ddatblygu'r prosiectau hyn yn arwyddocaol. Drwy leihau biwrocratiaeth a gwella mynediad i wybodaeth, gall y Cynulliad gynorthwyo i gwtogi'r gost. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn awyddus i ddatblygu'r egwyddor o gydweithio, er bod materion cyfreithiol a materion o ran budd-ddeiliaid ac, wrth gwrs, materion gwleidyddol ar hyn o bryd sydd yn cymhlethu cynlluniau. Ystyria'r Cynulliad nifer o feysydd lle mae potensial i gydweithio ar draws y sectorau a ble y gallwn addasu arweiniad a deddfwriaeth bresennol er mwyn lleihau'r fiwrocratiaeth.

Mae angen inni ddatblygu fframwaith strategol ar gyfer y bartneriaeth cyhoeddus-preifat a phrosiectau'r fenter cyllid preifat yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ymgymerir â'r rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf ar lefel leol, yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol. Weithiau, mae'r Cynulliad mewn sefyllfa i weld cysylltiadau posibl ar draws sectorau ac i annog cydweithredu ar draws awdurdodau. Os cefnoga'r Cynulliad y cynnig, parha'r ddau Bwyllgor a nodir â'i arolygiad i arian preifat. Yn ogystal, dymunaf barhau â'r

partners on this issue. I will, therefore, establish a working group of partner organisations to advise on the means whereby the Assembly can provide co-ordination and assistance.

Private finance is providing Wales with capital assets that it desperately needs. The systems associated with such financing need to be organised efficiently and effectively. The quality of service needs to be guaranteed in all such finance schemes. The motion asks the Assembly to note the point we have reached and to consider what is happening in terms of the ongoing review. It also asks that the review should continue and for your assistance in Committee to help to establish a public-private partnership and PFI policy for Wales.

**The Presiding Officer:** I am grateful to the Minister for keeping well within her allotted 10 minutes. To protect time for this and the subsequent debate, I will limit speeches by those proposing amendments to five minutes, and by other Members to three minutes. I call Janet Ryder to propose the amendments in the name of Jocelyn Davies.

**Janet Ryder:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies. I propose amendment 1. After clause 1 add as new clause:

*regrets the fact that the UK's policies on public expenditure and the definition of the public sector borrowing requirements inhibit capital development in the public sector through traditional methods.*

I propose amendment 2. After clause 1 add as new clause:

*regrets the Government of Wales's failure to provide an objective analysis of the costs and benefits of PFI.*

I propose amendment 3. After clause 1 add as new clause:

drafodaeth â'n partneriaid ar y mater hwn. Felly, sefydlaf weithgor o sefydliadau partner i roi cyngor ar y ffyrdd y gall y Cynulliad gydlynw'r gwaith a darparu cymorth.

Mae arian preifat yn rhoi'r asedau cyfalaf i Gymru y mae angen enbyd arni. Mae angen trefnu'r systemau sydd yn gysylltiedig ag angen ariannu o'r fath yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae angen sicrhau ansawdd y gwasanaeth ym mhob cynllun ariannu o'r fath. Gofynna'r cynnig i'r Cynulliad nodi'r pwynt y cyraeddassom ac ystyried yr hyn a ddigwydd o ran yr adolygiad parhaus. Gofynna hefyd y dylai'r adolygiad barhau a gofynna am eich cyngor yn y Pwyllgorau i helpu i sefydlu partneriaeth cyhoeddus-preifat a pholisi menter cyllid preifat i Gymru.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am gadw'n dda o fewn y deng munud a ddyrannwyd iddi. Er mwyn sicrhau amser i hyn a'r ddadl ddilynol, cyfyngaf areithiau gan y rheini sydd yn cynnig gwelliannau i bum munud, ac areithiau gan Aelodau eraill i dair munud. Galwaf ar Janet Ryder i gynnig y gwelliannau yn enw Jocelyn Davies.

**Janet Ryder:** Cynigïaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies. Cynigïaf welliant 1. Ychwaneger fel cymal newydd ar ôl cymal 1:

*yn gresynu'r ffaith bod polisiau'r DU ar wariant cyhoeddus a'r diffiniad o ofynion benthyca y sector cyhoeddus yn llesteirio datblygiadau cyfalaf yn y sector cyhoeddus. drwy ddulliau traddodiadol.*

Cynigïaf welliant 2. Ychwaneger fel cymal newydd ar ôl cymal 1:

*yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â darparu dadansoddiad gwrthrychol o anfanteision a manteision menter cyllid preifat.*

Cynigïaf welliant 3. Ychwaneger fel cymal newydd ar ôl cymal 1:

*notes that contrary to paragraph 2.3 of the report, Plaid Cymru's submission to the consultation expressed serious reservations about following the PFI route.*

I propose amendment 4. After clause 1 add as new clause:

*registers its profound scepticism's about PFI as a means of providing a cost-effective solution to the need for public capital development.*

I propose amendment 5. In the third clause delete 'further progress' and add after 'report',

*on a range of options for funding public capital development projects.*

I appreciate what Edwina said about this being an ongoing process. The document as it stands shows a complete failure to listen. The motion before us today, if allowed to stand unamended, completely fails to put the interests of Wales first. One reason for the Assembly's existence is to tackle the democratic deficit in Wales. The total commitment to the use of private finance initiatives and public-private partnerships expressed in this document, and the way in which the so-called consultation process totally ruled out any other options, undermines that important principle by giving away control of many public sector projects. It is an abject capitulation to the dictats of Westminster.

The private finance initiative is a perfect example of New Labour taking on the tattered old clothes of the Tory party. Introduced by the Conservatives in 1992, this policy was embraced enthusiastically by the Blair Government in spite of the serious concerns expressed by a wide range of public bodies and many Labour Party members. The amendments proposed by Plaid Cymru—The Party of Wales today, express our dismay that no alternative method of financing public sector projects has been, nor ever will be, considered by this Labour-Liberal coalition. I appeal to those Members of the

*yn nodi bod Plaid Cymru, yn groes i baragraff 2.3 yr adroddiad, wedi mynegi yn ei chyflwyniad i'r ymgynghoriad bryderon dybryd ynghylch dilyn y trywydd menter cyllid preifat.*

Cynigiau welliant 4. Ychwaneger fel cymal newydd ar ôl cymal 1:

*yn cofrestru ei amheuan difrifol ynghylch menter cyllid preifat fel ffordd o ddarparu ateb cost-ffeithiol i'r angen am ddatblygiadau cyfalaf cyhoeddus.*

Cynigiau welliant 5. Dileer 'ar gynnydd' yn y trydydd cymal ac ar ôl 'adrodd' ychwaneger,

*ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ariannu prosiectau datblygu cyfalaf cyhoeddus.*

Gwerthfawrogaf yr hyn a ddywedodd Edwina fod hon yn broses barhaus. Dengys y ddogfen fel ag y mae fethiant llwyr i wrando. Mae'r cynnig sydd ger ein bron heddiw, os caiff ei dderbyn heb ei ddiwygio, yn methu'n llwyr â rhoi buddiannau Cymru yn gyntaf. Un o'r rhesymau dros fodolaeth y Cynulliad yw mynd i'r afael â'r diffyg democratiaeth yng Nghymru. Mae'r ymrwymiad llwyr i ddefnyddio mentrau cyllid preifat a phartneriaethau cyhoeddus-preifat a fynegir yn y ddogfen hon, a'r ffordd y dileodd y broses ymgynghori fel y'i gelwir unrhyw opsiynau eraill, yn tansilio'r egwyddor bwysig honno drwy ddosrannu rheolaeth llawer o brosiectau yn y sector cyhoeddus. Ildiwn yn llwyr i orchmynion San Steffan.

Mae'r fenter cyllid preifat yn enghraifft berffaith o Lafur Newydd yn gwisgo hen ddillad bratiog y blaid Doriaidd. Wedi'i gyflwyno gan y Ceidwadwyr yn 1992, croesawyd y polisi hwn yn llawn brwdfrydedd gan Lywodraeth Blair er gwaethaf y pryderon difrifol a fynegwyd gan amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus a llawer o aelodau'r Blaid Lafur. Mynega'r gwelliannau a gynigir heddiw gan Blaid Cymru—The Party of Wales, ein siom na fydd y glymblaid Lafur-Rhyddfrydol hon yn ystyried yn awr neu yn y dyfodol dulliau eraill o ariannu prosiectau yn y sector

Labour Party who have previously either abstained or voted against PFI to join us today to prevent this headlong dash by the Cabinet to commit the Assembly to a path that will lead to a corporate takeover of the public sector: privatisation by the not so back door.

Our regret that the coalition has failed to even provide an objective analysis of the costs and benefits of PFI is encompassed in amendment 2. Research has shown that, at a conservative estimate, the Scottish PFI programme for the health service will cost £2 billion more than if the Treasury had acquired the assets directly. Under PFI, the public sector buys now and pays very dearly later. PFI projects are expensive for many reasons. They include high set-up costs, lengthy negotiations involving expensive lawyers and consultants employed by both sides and, of course, the extra cost of private sector borrowing.

The Audit Commission has already warned of the excessive profits that consortia can make from PFI. For example, the private sector achieved a return of 19.4 per cent a year on Parc Prison, Bridgend and returns of 20 per cent from the Skye Bridge project. The Public Accounts Committee has also voiced concerns. It has pointed out that, in the short-term, a PFI deal may be more affordable than a conventional procurement, because public sector does not have to find the money up-front to meet the initial capital costs. However, the buy now pay later financing of projects means that the costs are higher than in a conventionally financed, equivalent project.

**David Melding** *rose*—

**Janet Ryder:** I am sorry. I would like to take the intervention but if we are sticking to five minutes, there is no time.

cyhoeddus. Apeliaf ar yr Aelodau hynny o'r Blaid Lafur a ymataliodd yn y gorffennol neu a bleidleisiodd yn erbyn y fenter cyllid preifat i ymuno â ni heddiw i rwystro'r Cabinet rhag rhuthro ar ei ben i ymrwymo'r Cynulliad i lwybr lle meddiannir ar y sector cyhoeddus yn gorfforaethol, sef preifateiddio lled-agored.

Cwmpesir y ffaith ein bod yn gresynu bod y glymblaid hon wedi methu hyd yn oed â darparu dadansoddiad gwrthrychol o anfanteision a manteision y fenter cyllid preifat yng ngwelliant 2. Dangosodd ymchwil y bydd rhaglen y fenter cyllid preifat yn yr Alban ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn costio £2 biliwn yn fwy, yn ôl amcangyfrif ceidwadol, na phe byddai'r Trysorlys wedi cael yr asedau yn uniongyrchol. O dan y fenter cyllid preifat, mae'r sector cyhoeddus yn prynu yn awr ac yn talu'n ddrud iawn wedyn. Mae prosiectau'r fenter cyllid preifat yn ddrud iawn am lawer o resymau. Maent yn cynnwys costau sefydlu uchel, negodiadau hirfaith gan gynnwys cyfreithwyr ac ymgynghorwyr drud a gyflogir gan y ddwy ochr ac, wrth gwrs, cost ychwanegol benthyca o'r sector preifat.

Rhybuddiodd y Comisiwn Archwilio eisoes am yr elw mawr y gall consortia ei wneud o'r fenter cyllid preifat. Er enghraifft, cyflawnodd y sector preifat elw o 19.4 y cant y flwyddyn ar Garchar y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr ac elw o 20 y cant o brosiect Pont Skye. Lleisiwyd pryderon gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd. Nododd y gellir fforddio bargaen y fenter cyllid preifat yn fwy yn y tymor byr na chaffaeliad confensiynol, gan nad oes rhaid i'r sector cyhoeddus gael yr arian ar y dechrau i gwrdd â'r costau cyfalaf cychwynnol. Fodd bynnag, golyga'r ffordd o ariannu prosiectau lle prynir yn awr ond telir amdanynt wedyn fod y costau'n uwch nag mewn prosiect cyfateb a ariennir mewn ffordd gonfensiynol.

**David Melding** *a gododd*—

**Janet Ryder:** Mae'n flin gennyf. Hoffwn dderbyn yr ymyriad ond os cadwn at bum munud, nid oes amser.

The length of PFI contracts, sometimes up to 60 years, means that public bodies are tied into a service provision that may not be necessary or appropriate. The body of the document states that:

Golyga hyd contractau menter cyllid preifat, sydd weithiau yn parhau am hyd at 60 o flynyddoedd, fod cyrff cyhoeddus yn gaeth i ddarparu gwasanaeth nad yw'n angenrheidiol neu'n briodol, o bosibl. Mae corff y ddogfen yn datgan:

'it is often important that relevant staff transfer from the public to the private sector operator in order to secure value for money'.

It goes on to state that:

Â ymlaen i nodi:

'staff such as canteen personnel, receptionists and porters do not contribute directly to the up-keep of an asset and may therefore not be crucial to the operations of the private sector partner. These employees are often included within the PFI contract to improve further the potential cost savings achievable by the private sector'.

The Labour Party is ready to throw away workers to make bids more attractive and maximise the cost savings for their new friend, private finance. Their only offer is to clarify the position of such workers.

Mae'r Blaid Lafur yn barod i gael gwared ar weithwyr er mwyn i'r cynigion fod yn fwy deniadol ac er mwyn i'w ffrind newydd, cyllid preifat, arbed cymaint o arian â phosibl. Eu hunig gynnig yw esbonio sefyllfa gweithwyr o'r fath.

In addition, the economic benefits to local communities are dubious, as there is no control over those massive profits made by the private sector or how they will be used. They will more than likely be directed away from local communities to form the profits for shareholders. There are alternatives to PFI. The Chancellor could relax the borrowing restrictions on public authorities. Relaxing the restrictions imposed by the public sector net cash requirements that are almost unique to the UK would allow authorities to borrow at attractive rates from the European investment—[*Interruption.*]

Yn ogystal, mae'r manteision ariannol i gymunedau lleol yn amheus, gan nad oes rheolaeth dros yr elw mawr hwnnw a wneir gan y sector preifat neu sut y'i defnyddir. Yn fwy na thebyg, fe'u cyfeirir oddi wrth y cymunedau er mwyn llunio'r elw ar gyfer y cyfranddeiliaid. Mae dewisiadau eraill ar wahân i'r fenter cyllid preifat. Gallai'r Canghellor lacio'r cyfyngiadau benthyca ar awdurdodau cyhoeddus. Byddai llacio'r cyfyngiadau a osodir gan ofynion arian clir y sector cyhoeddus sydd bron yn unigryw i'r DU yn caniatáu awdurdodau i fenthyca ar gyfraddau deniadol gan yr arian Ewropeaidd a fuddsoddir—[*Torri ar draws.*]

**The Presiding Officer:** Order. Your five minutes are up.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae eich pum munud wedi dod i ben.

**Alun Cairns:** I propose amendment 6. Add at the end of motion as new clause:

**Alun Cairns:** Cynigiad welliant 6. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

*welcomes PFI as a form of funding and congratulates the last Government on introducing it as an innovative method of procurement.*

*yn croesawu menter cyllid preifat fel dull o ariannu ac yn llongyfarch y Llywodraeth ddiwethaf ar ei chyflwyno fel dull caffael arloesol.*

I propose amendment 7. Add at the end of motion as new clause: Cynigiad welliant 7. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

*calls for PFI to be used to maximise investment and to build and renovate schools, hospitals and publicly owned housing.* yn galw ar i'r fenter cyllid preifat gael ei defnyddio i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl ac i adeiladu ac adnewyddu ysgolion, ysbytai a thai sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus.

I propose amendment 8. Add at the end of motion as new clause: Cynigiad welliant 8. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

*calls for PFI to be used wherever possible to relieve the burdens of capital expenditure on the taxpayer and to maximise investment.* yn galw ar i'r fenter cyllid preifat gael ei defnyddio lle bynnag y bo'n bosibl i ysgafnhau beichiau gwariant cyfalaf y trethdalwr ac i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl.

I propose amendment 9. Add at the end of the motion as new clause: Cynigiad welliant 9. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

*calls for PFI to be used in any future social housing project.* yn galw ar i'r fenter cyllid preifat gael ei defnyddio mewn unrhyw brosiect tai cymdeithasol yn y dyfodol.

I propose amendment 10. Add at the end of the motion as new clause: Cynigiad welliant 10. Ychwaneger at ddiwedd y cynnig fel cymal newydd:

*calls for PFI to be used to maximise investment to build and maintain trunk roads and motorways.* yn galw ar i'r fenter cyllid preifat gael ei defnyddio i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl i adeiladu a chynnal cefnffyrdd a thraffyrdd.

It is a great pleasure to propose these amendments and to lead the debate for the Welsh Conservative Party. Mae'n bleser mawr gennyf gynnig y gwelliannau hyn ac arwain y ddatl ar gyfer Plaid Geidwadol Cymru.

It is by now agreed that the use of private money in the procurement of public services delivers value for money for the taxpayer and releases the burden of large capital expenditure from public sector organisations. Erbyn hyn, cytunir bod defnyddio arian preifat i gaffael gwasanaethau cyhoeddus yn cyflwyno gwerth am arian ar gyfer y trethdalwr ac yn rhyddhau sefydliadau'r sector cyhoeddus o faich gwariant cyfalaf mawr.

It was only two weeks ago that I tabled a statement of opinion remembering Baroness Thatcher's massive, positive contribution to Wales and the United Kingdom during her period in office. One of the many policies that improved our way of life was the introduction of private sector initiative and private sector funding in the procurement of goods and services. That was achieved in Dim ond pythefnos yn ôl cyflwynais ddatganiad barn yn cofio cyfraniad cadarnhaol enfawr y Farwnes Thatcher i Gymru a'r Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod mewn swydd. Un o'r polisiau niferus i wella ein ffordd o fyw fu cyflwyno'r fenter sector preifat ac arian gan y sector preifat wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau. Cyflawnwyd hynny mewn

many ways, most notably through privatisation. Later, in 1992, the policy was further developed by Norman Lamont, who was John Major's Chancellor of the Exchequer, with the introduction of private finance initiative.

4:00 p.m.

I know that the Labour Party and the Liberal Party were opposed to both measures at the outset but I welcome their conversion along the road to Damascus on this matter. That is the purpose of amendment 6. I regret that the Labour-Liberal coalition will not support my amendment 6 that recognises PFI as an innovative way of funding public services, particularly as they are currently using private finance initiatives. Therefore, I ask them to reconsider their support for amendment 6. Although the nationalists are still left in the tax and spend period of the 1970s, which devastated public sector services and the prosperity of the private sector, I still live in hope and maybe, they will move into the twenty-first century one day and accept the reality of the situation and the benefits to everyone concerned.

I do not want to spend too much time highlighting the benefits of privatisation.

**Brian Gibbons** *rose*—

**The Presiding Officer:** Are you giving way to Brian Gibbons?

**Alun Cairns:** I am not, Llywydd. I apologise because time is short.

The benefits of privatisation are known to all of us, so much so that the Labour Party is now pushing ahead with its own privatisation policy of air traffic control. However, it is fair to say that that conversion is not necessarily widespread throughout the party. Therefore, we will pay close attention to the voting habits of many Members. In spite of their initial opposition, there have been over 350 PFI deals in the UK, worth over £17 billion of private capital investment into public services as a result of the introduction of this innovative form of financing.

llawer o ffyrdd, yn enwedig drwy breifateiddio. Yn ddiweddarach, yn 1992, datblygwyd y polisi ymhellach gan Norman Lamont, sef Canghellor y Trysorlys John Major, pan gyflwynwyd y fenter cyllid preifat.

Gwn y gwrthwynebodd y Blaid Lafur a'r Blaid Ryddfrydol y ddau fesur ar y cychwyn ond croesawaf eu tröedigaeth ar y ffordd i Ddamascus ynglŷn â'r mater hwn. Dyna ddiben gwelliant 6. Mae'n ddrwg gennyf na fydd y glymblaid Lafur-Rhyddfrydol yn cefnogi gwelliant 6 sydd yn cydnabod y fenter cyllid preifat fel ffordd arloesol o ariannu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig gan y defnyddiant fentrau cyllid preifat ar hyn o bryd. Felly, gofynnaf iddynt ailystyried eu cefnogaeth i welliant 6. Er y gadawyd y cenedlaetholwyr yng nghyfnod trethu a gwario'r 1970au, a ddistrywiodd wasanaethau'r sector cyhoeddus a ffyniant y sector preifat, gobeithiaf o hyd y symudant efallai i'r unfed ganrif ar hugain ryw ddiwrnod ac y derbyniant realiti'r sefyllfa a'r manteision i bawb sydd ynghlwm â'r mater.

Ni ddymunaf dreulio gormod o amser yn amlygu manteision preifateiddio.

**Brian Gibbons** *a gododd*—

**Y Llywydd:** A ildiwch i Brian Gibbons?

**Alun Cairns:** Na wnaif, Lywydd. Ymddiheuraf gan fod amser yn brin.

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o fanteision preifateiddio, i'r fath raddau fel bod y Blaid Lafur yn awr yn gwthio ymlaen gyda'i bolisi preifateiddio ei hunan o reolaeth trafndiaeth yn yr awyr. Fodd bynnag, mae'n deg dweud nad yw'r dröedigaeth honno o reidrwydd yn eang drwy'r blaid. Felly, talaf sylw agos at arferion pleidleisio llawer o'r Aelodau. Er gwaethaf eu gwrthwynebiad cychwynnol, bu mwy na 350 o fargeinion y fenter cyllid preifat yn y DU, sydd yn werth mwy na £17 biliwn o fuddsoddiad cyfalaf preifat i



wasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i gyflwyno'r dull arloesol hwn o ariannu.

New facilities have, or are being established, throughout Wales. Notably, the new hospital in Baglan is being built with private money. Doctors, nurses and patients do not care how such a Conservative commitment is funded, so long as they have the high quality facilities to help them offer and receive the first class treatment that they deserve. I wonder how much taxes would have risen, or which other public services would have been cut, if the Baglan hospital had to be funded from public coffers if this administration was run by the nationalists.

Mae cyfleusterau newydd wedi'u sefydlu, neu wrthi'n cael eu sefydlu, ledled Cymru. Yn bennaf, adeiladir yr ysbyty newydd ym Maglan gan ddefnyddio arian preifat. Nid oes gwahaniaeth gan feddygon, nyrsys a chleifion sut yr ariennir ymrwymiad Ceidwadol o'r fath, cyhyd ag y bo cyfleusterau o ansawdd uchel ganddynt i'w helpu i gynnig a chael y driniaeth ardderchog y maent yn ei haeddu. Tybed faint fyddai trethi wedi codi, neu pa wasanaethau cyhoeddus eraill fyddai wedi'u cwtogi, pe byddai rhaid ariannu ysbyty Baglan o goffrau cyhoeddus pe redir y weinyddiaeth hon gan y cenedlaetholwyr.

PFI gives us the best of both worlds; private sector discipline and a high level of public service. Therefore, it is incumbent upon us to facilitate the role of the private sector organisations in supporting public services. The streamlining of bureaucracy and transparency should be the theme that is drawn from today's debate. Business is frustrated by the high costs of bidding and the weak contract management in the public sector. In order to alleviate the concerns of potential bidders, the UK Government has established the Office of Government Commerce, which targets each department to save on their procurement budget.

Rhydd y fenter cyllid preifat y gorau o ddau fyd inni; disgyblaeth y sector preifat a lefel uchel o wasanaeth cyhoeddus. Felly, mae'n ddyletswydd arnom hwyluso rôl sefydliadau'r sector preifat wrth gefnogi gwasanaethau cyhoeddus. Rhesymoli biwrocratiaeth ac eglurder yw'r thema a geir o'r ddadl heddiw. Rhwystrir busnes gan gostau uchel cyflwyno cynigion a'r rheolaeth wan o gontractau a geir yn y sector cyhoeddus. Er mwyn lleddfu pryderon cynigwyr posibl, sefydlodd Llywodraeth y DU Swyddfa Masnach y Llywodraeth, sydd yn targedu pob adran i arbed ar eu cyllideb caffael.

The OGC's role will be to champion world class public procurement in the promotion of good practice. I will be interested in the Minister's response as to how OGC relates to Wales and what lessons have been learned in how they undertake their PFI initiative. The Westminster Government is embracing PFI and the Assembly can also exploit these opportunities. Furthermore, the former PFI Treasury taskforce has evolved into Partnerships UK, which provides hands-on support for individual deals. The lessons from these organisations need to be learnt in our activities following this debate.

Rôl Swyddfa Masnach y Llywodraeth fydd cefnogi'r caffaeliadau cyhoeddus gorau wrth hyrwyddo arfer da. Byddaf yn ymddiddori yn ymateb y Gweinidog o ran sut mae Swyddfa Masnach y Llywodraeth yn ymwneud â Chymru a pha wersi a ddysgwyd ynglŷn â sut yr ymgymmerant â'u menter cyllid preifat. Mae Llywodraeth San Steffan yn croesawu'r fenter cyllid preifat a gall y Cynulliad fanteisio ar y cyfleoedd hyn hefyd. Yn ogystal, datblygodd cyn dasglu menter cyllid preifat y Trysorlys yn Partnerships UK, sydd yn darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer bargeinion unigol. Mae angen dysgu gwersi o'r sefydliadau hyn yn ein gweithgareddau yn sgîl y ddadl hon.

The paper that we are debating today

Cynigia'r papur a ddadleuwn heddiw fesurau

proposes short, medium and long-term measures. The short-term measures propose a PFI unit as a 'clearing house' for good practice. It also quotes that procuring authorities rely on external advisors and the need to mitigate costs. However, it would be ironic if such a service was established and the private sector not used as a method of delivery. The small business service in England, obviously a different organisation but the principles remain; it will be run on a franchise basis and this could be a method of delivery of this 'clearing house'.

**The Presiding Officer:** Thank you, Alun. Your time is up.

**Peter Black:** I said in a previous debate that I am agnostic about PFI. That is because I am a realist and I recognise the benefit of attracting private finance to provide added value to public expenditure. It is a matter of some regret that the present Government has not changed the public spending rules to make investment in capital projects in the public sector possible without going down the PFI route. There is a cost, and one of the fundamental questions that needs to be answered by this review is whether the benefits of enhancing the existing budgets by using private finance to get around Treasury rules can be justified in terms of the value for money that we get from such projects and the impact on people's jobs and the terms and conditions of those jobs. The assumptions that are made through the public sector comparator in comparing the cost of financing a project through traditional public sector methods and PFI are vital in ensuring value for money. The problem is that, as with all such comparisons, the assumptions can be changed to get the answer that we want.

The second consideration has to be the impact of PFI on employees. This review needs to highlight that if the financial viability of the PFI project is dependent on lowering pay and worsening employee conditions, then that should be made clear from the start. It should also consider the situation of new staff taken on after PFI

tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Cynigia'r mesurau tymor byr uned menter cyllid preifat fel 'tŷ clirio' ar gyfer arfer da. Dyfynna hefyd fod awdurdodau caffael yn dibynnu ar gynghorwyr allanol a'r angen i liniaru costau. Fodd bynnag, byddai'n eironig pe sefydlir gwasanaeth o'r fath a phe na ddefnyddir y sector preifat fel dull cyflenwi. Mae'n amlwg bod y gwasanaeth busnesau bach yn Lloegr yn sefydliad gwahanol, ond yr un yw'r egwyddorion; fe'i rhedir ar sail masnachfrait a gallai hyn fod yn ddull cyflwyno'r 'tŷ clirio' hwn.

**Y Llywydd:** Diolch, Alun. Mae'ch amser ar ben.

**Peter Black:** Dywedais mewn dadl flaenorol fy mod yn agnostic am y fenter cyllid preifat. Y rheswm dros hyn yw oherwydd mai realydd ydwyf ac oherwydd y cydnabyddaf fanteision denu arian preifat i roi gwerth ychwanegol i wariant cyhoeddus. Mae'n destun gofid na newidiodd y Llywodraeth bresennol y rheolau gwario cyhoeddus er mwyn buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf yn y sector cyhoeddus heb fynd ar drywydd y fenter cyllid preifat. Mae cost yn hyn, ac un o'r cwestiynau hanfodol mae angen i'r adolygiad hwn ei ateb yw a ellir cyfiawnhau manteision cynyddu'r cyllidebau presennol, drwy ddefnyddio arian preifat er mwyn osgoi rheolau'r Trysorlys, o ran y gwerth am arian a gawn o brosiectau o'r fath a'r dylanwad ar swyddi pobl ac ar delerau ac amodau'r swyddi hynny. Mae'r tybiaethau a wneir drwy gymharydd y sector cyhoeddus wrth gymharu cost ariannu prosiect drwy ddulliau sector cyhoeddus traddodiadol a'r fenter cyllid preifat yn hanfodol er mwyn sicrhau gwerth am arian. Fel gyda phob cymhariaeth o'r fath, y broblem yw y gellir newid y tybiaethau er mwyn cael yr ateb a ddymunwn.

Dylanwad y fenter cyllid preifat ar weithwyr yw'r ail ystyriaeth. Mae angen i'r adolygiad hwn amlygu y dylid ei gwneud yn glir o'r dechrau os dibynna prosiect y fenter cyllid preifat ar ostwng cyflogau a gwaethygu amodau'r gweithwyr. Dylai ystyried hefyd sefyllfa staff newydd a ddechreuodd ar ôl y fenter cyllid preifat y mae eu hamodau

whose conditions of work are worse than those of the staff who are transferred. Those are the two main points I wanted to make on PFI given the time available.

I will say a few words about the amendments. I have a great deal of sympathy with some of the Plaid Cymru amendments and would want to see some of those issues considered by the Subject Committees when they investigate PFI. However, I agree with Edwina that we should not pre-empt those discussions by passing those amendments now. On the Tory amendments, their enthusiasm for the dogma of the market and the profit motive has got the better of them. We are all aware that Alun Cairns is a banker, but that does not make him an expert on public finance. The one thing that his party needs to explain is how it will square its calls for more investment in the NHS and education with William Hague's commitment to cut £8 billion from public services during the course of the next Parliament. If, as seems likely from the amendments that they have tabled today, they propose to square that circle by using PFI, then they are living in a fantasy world. One of the key lessons of the last 10 years is that you cannot successfully replace public investment with private capital because the aims and objectives of both are different. We cannot afford to have our houses, roads, schools and hospitals subjected to the vagaries of the market. If we are to use PFI, it must be used sparingly and effectively. The blunt instrument that it would become if the Conservative amendments are passed would butcher our public services.

**David Lloyd:** Datganaf fy muddiant arferol fel meddyg. Nid oes dwywaith nad yw ariannu menter cyllid preifat yn fwy costus i'r gwasanaeth iechyd yn y pen draw o'i gymharu ag ariannu cyhoeddus. Yr unig ddewis gyda chynlluniau menter preifat i adeiladu ysbytai yw defnyddio cyllid preifat i'w codi, neu beidio â'u codi o gwbl. Canlyniad costau uwch cynlluniau menter preifat uwch yw bod llai o welyau mewn ysbytai cynllun menter preifat—bron yn ddiethriad—nag yn yr ysbytai cyhoeddus y

gwaith yn waeth na'r aelodau o'r staff a drosglwyddodd. Dyna'r ddau brif bwynt y dymunais eu nodi ynglŷn â'r fenter cyllid preifat gan ystyried yr amser sydd ar gael.

Dywedaf ychydig eiriau am y gwelliannau. Cydymdeimlaf yn fawr â rhai o welliannau Plaid Cymru a hoffwn i'r Pwyllgorau Pwnc ystyried rhai ohonynt pan ymchwiliant i'r fenter cyllid preifat. Fodd bynnag, cytunaf ag Edwina na ddylem achub y blaen ar y trafodaethau hynny drwy basio'r gwelliannau hynny yn awr. Ynglŷn â'r gwelliannau Torïaidd, aeth eu brwdfrydedd am ddogma'r farchnad a'r cymhelliad elw yn drech na hwy. Mae pob un ohonom yn ymwybodol mai banciwr yw Alun Cairns, ond ni olyga hynny ei fod yn arbenigwr ar arian cyhoeddus. Un peth y mae angen i'w blaidd ei egluro yw sut y bydd yn cysoni eu galwadau i fuddsoddi mwy o arian yn yr NHS ac addysg ag ymrwymiad William Hague i gwtogi £8 biliwn o'r gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y sesiwn nesaf o'r Senedd. Os cynigiant gysoni'r cylch hwnnw drwy ddefnyddio'r fenter cyllid preifat, a ymddengys i fod yn debygol gan y gwelliannau a gyflwynasant heddiw, wedyn maent yn byw mewn byd ffantasi. Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r 10 mlynedd diwethaf yw na ellir llwyddo i roi cyfalaf preifat yn lle buddsoddiad cyhoeddus gan fod nodau ac amcanion y ddau yn wahanol. Ni allwn fforddio i'n tai, ffyrdd, ysgolion ac ysbytai ddioddef mympwyon y farchnad. Os dymunwn ddefnyddio'r fenter cyllid preifat, rhaid ei defnyddio'n anaml ac yn effeithiol. Byddai'r erfyn di-awch a ddeuai pe pasiai'r gwelliannau Ceidwadol yn difetha ein gwasanaethau cyhoeddus.

**David Lloyd:** I declare my usual interest as a doctor. There is no doubt that PFI funding is more costly to the health service in the long-run compared to public funding. The only choice available with PFI schemes to build hospitals is to use private finance to build them or not build them at all. The consequence of the higher costs of PFI are that there are fewer beds in PFI hospitals—almost without exception—as compared to the public hospitals they replace. The provision cannot respond to the need for

maent yn eu disodli. Nid yw'r ddarpariaeth yn gallu ymateb i'r angen am newid dros y blynyddoedd oherwydd bod yr ysbytai newydd wedi'u clymu i gytundebau tymor hir.

Canlyniad arall menter cyllid preifat yw rhaniad yn staff y gwasanaeth iechyd. Yn y gorffennol, yr oedd pawb yn gweithio yn yr un tîm: y cogyddion, y glanhawyr, y porthorion, y meddygon a'r nyrsys. Nid yw hynny'n wir bellach. Mae'r sawl sydd yn glanhau a'r sawl sydd yn coginio, ac eraill, yn gweithio i gyflogwyr gwahanol yn y sector preifat. Mae hynny'n tanseilio'n gyfan gwbl undod cryf staff ein gwasanaeth iechyd.

Investment under the PFI costs more than public sector procurement. The annual charge for the use of privately financed facilities is between 9 and 18 per cent of the original construction costs, whereas governments can borrow at interest rates of only 3 to 3.5 per cent. The extra cost of private finance is disguised by the Treasury's insistence that NHS trusts discount costs at 6 per cent per annum, when comparing the cost of the private finance option with public sector investment. The amount of risk transferred to the private sector under privately-financed deals has been grossly exaggerated, leading to spurious attributions of additional value to private sector options. Public services financed by public funding? That will be the day.

4:10 p.m.

**Alison Halford:** I do not live in the dream world inherited by Plaid Cymru. I am a realist, and I know that there will never be enough money to fulfil all the expectations that we, and our constituents, want. PFI would not be my natural choice, but we do not live in a perfect world.

Holywell, in my constituency, is a lovely place, which desperately needs a community hospital. I will describe the north Wales town, a place that is a long way away. It is a traditional Welsh market town that takes its name from St Winifred's holy well, which is

change over the years because the new hospitals are tied into long-term contracts.

Another consequence of PFI is a division among health service staff. In the past, everybody worked as part of the same team: the cooks, the cleaners, the porters, the doctors and the nurses. That is no longer true. Those who clean and those who cook, and others, work for different employers in the private sector. That completely undermines the strong unity of our health service staff.

Mae buddsoddi o dan y fenter cyllid preifat yn costio mwy nag o dan gaffaeliadau'r sector cyhoeddus. Mae'r tâl blynyddol i ddefnyddio cyfleusterau a ariennir yn breifat rhwng 9 a 18 y cant o'r costau adeiladu gwreiddiol, tra y gall llywodraethau fenthyca arian ar gyfraddau llog o ddim ond 3 i 3.5 y cant. Cuddir cost ychwanegol arian preifat gan fod y Trysorlys yn mynnu mai 6 y cant y flwyddyn yw costau gostyngedig ymddiriedolaethau'r NHS, o gymharu cost yr opsiwn cyllid preifat â buddsoddiad y sector cyhoeddus. Gorddywedwyd yn fawr ar gyfanswm y risg a drosglwyddir i'r sector preifat o dan fargeinion a ariennir yn breifat, gan briodoli gwerth ychwanegol ffug i opsiynau'r sector preifat. Ariannu gwasanaethau cyhoeddus gan arian preifat? Fe'i credaf pan y'i gwelaf.

**Alison Halford:** Nid wyf yn byw yn y byd breuddwydion a etifeddwyd gan Blaid Cymru. Realydd ydwyf, a gwn na fydd byth digon o arian i gyflawni ein holl ddisgwyliadau a holl ddisgwyliadau ein hetholwyr. Ni ddewiswn y fenter cyllid preifat fel dewis cyntaf, ond nid ydym yn byw mewn byd perffaith.

Mae Treffynnon, yn fy etholaeth, yn lle hyfryd, gydag angen enbyd am ysbyty cymunedol. Disgrifiaf y dref yng ngogledd Cymru, sydd yn bell oddi yma. Tref farchnad draddodiadol Gymreig ydyw sydd yn dwyn ei henw o ffynnon sanctaidd Gwenffrewi, sef

one of the seven wonders of Wales. The town was once a powerhouse, supplying labour for the factories and mills that sprang up in Greenfield Valley during the eighteenth century. It used to be the third largest town in Wales, and now has a population of 23,000. Some say that it is a typical small Welsh town being left behind. With Edwina's bold proposals, PFI can provide what the residents of the area so desperately want: a community hospital. They have been making do with a former workhouse, which has long outlived its usefulness. This place is an embarrassment. The health authority cannot afford its upkeep and maintenance, and yet cannot afford to close it. There is a community hospital in the area, but it does not function properly and does not serve the needs of the people. It is a favourable location and capable of expansion. However, it needs public money, and PFI is the only way that this can occur. Although it is not the best option, provided that staffing is kept separate from the way in which it is done now, provided that Edwina's excellent proposals of considering the bureaucracy and ways of improving costing measures and PFI generally, it will receive my support because I and my constituents want a community hospital.

**Pauline Jarman:** I declare an interest as leader of Rhondda Cynon Taff County Borough Council, which has submitted a PFI application to the Assembly.

The Office of Fair Trading recently launched a campaign warning people not to be pressured into borrowing too much at Christmas. The slogan of the campaign is also relevant to PFI, and is the view of most people:

'Don't let credit turn into debt'.

I will continue where Janet Ryder finished. Despite what has been said, there are alternatives to PFI. The Chancellor could relax the borrowing restrictions on public authorities. Relaxing the restrictions imposed on the public sector net cash requirement, which are almost unique to the United Kingdom, would allow authorities to borrow

un o saith rhyfeddod Cymru. Bu'r dref yn bwerdy ar un adeg, gan gyflenwi llafur ar gyfer y ffatrïoedd a'r melinau a godwyd yng Nghwm Greenfield yn ystod y ddeunawfed ganrif. Hi oedd y dref fwyaf ond tair yng Nghymru, ac mae poblogaeth o 23,000 ganddi erbyn hyn. Dywed rhai mai tref fach Gymreig nodweddiadol ydyw a gaiff ei gadael ar ôl. Gyda chynigion beiddgar Edwina, gall y fenter cyllid preifat roi i drigolion yr ardal yr hyn y mae eisiau arnynt gymaint, sef ysbyty cymunedol. Gwnaethant y tro gyda hen dloty, na fu o fudd ers amser maith. Mae'r lle hwn yn codi cywilydd. Ni all yr awdurdod iechyd fforddio ei gynnal a'i gadw, ac eto ni all fforddio ei gau. Mae ysbyty cymunedol yn yr ardal, ond ni weithia'n gywir ac ni wasanaetha anghenion y bobl. Mae'i leoliad yn addas a gellir ei ehangu. Fodd bynnag, mae angen arian cyhoeddus arno, a'r fenter cyllid preifat yw'r unig ffordd o wneud hyn. Er nad hwn yw'r opsiwn gorau, os cedwir staffio ar wahân i'r ffordd y'i gwneir ar hyn o bryd, os derbynnir cynigion ardderchog Edwina ynglŷn ag ystyried y fiwrocratiaeth a'r ffyrdd o wella mesurau costio a'r fenter cyllid preifat yn gyffredinol, derbynia fy nghefnogaeth gan fy mod i a'm hetholwyr yn dymuno gweld ysbyty cymunedol.

**Pauline Jarman:** Datganaf fuddiant fel arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sydd wedi cyflwyno cais menter cyllid preifat i'r Cynulliad.

Yr wyf hefyd yn falch y gall y drafodaeth am ein cenedligrwydd a'n hunaniaeth oresgyn gwleidyddiaeth bleidiol. Cynigiau y cynnig yn yr ysbryd hwnnw. Dylai uno holl Aelodau'r Cynulliad. Drafftwyd y cynnig yn y fath fodd ag i roi'r cyfle i bob Aelod ei gefnogi. Nid yw'n beirniadu unrhyw un am fethiannau yn y gorffennol. Mynegiant syml o ffaith ydyw—y dylai ffurflen cyfrifiad 2001 gynnwys blwch ticio Cymreig.

Ystyriwch y grym ychwanegol y byddai mabwysiadu'r cynnig hwn yn ei roi inni. Byddai'r Cynulliad wedi llefaru ag un llais a gallem wahodd arweinwyr pleidiau'r Cynulliad i ysgrifennu at Tony Blair ar y cyd ar ran pobl Cymru i alw am gynnwys blwch ticio priodol. Mae hynny'n gais syml, clir a rhesymol. Nid oes angen dinistrio'r ffurflenni presennol. Y cyfan sydd angen inni ei wneud yw naill ai gofyn am dudalen ychwanegol yn gynnwys blwch ticio Cymreig neu drosargraffu'r dudalen bresennol. Efallai y bydd rhaid newid y meddalwedd er mwyn cyflawni hynny. Efallai yr arbedwn ryw faint o arian i'r Trysorlys. Amcangyfrifir y byddai'r gost o baratoi tudalen newydd, neu hyd yn oed drosargraffu, yn £60,000. Gallem arbed £940,000 i'r Trysorlys ar gost hysbysebu, na fyddai ei angen.

Yr wyf yn fwy na pharod i dderbyn ysbryd

I but, given the assurances on how we propose to progress, I hope that the Welsh Conservative Party will withdraw its amendment.

We do not advocate or support a civil disobedience campaign on this issue. With that in mind, I will deal with the Lib-Lab amendment. I am not happy with how it has been drafted. It states the obvious. It is also defensive, as it seems to acknowledge that the campaign for tick box is almost doomed to failure. We must not let an imaginary threat of non-compliance deflect attention from the real issue, which is that the people of Wales should be allowed to declare their identity. Given the need for the widest possible support for this, we will accept the Lib-Lab amendment, although we are unconvinced of its relevance or value in the context of the debate. The overriding concern for the Assembly is to accept this motion and then to invite party leaders in Wales to write to Tony Blair to express the settled wish of the people of Wales. This body will then have spoken and the people of Wales will have been given a voice. Therefore, I urge all Members to support our motion. It is literally a time for us, as a nation, to stand up and be counted.

**William Graham:** I propose amendment 1. Add as new clause:

*To avoid all confusion on how to express your national identity, the census form should be overprinted with a Welsh tick box. This method of collecting the most accurate information on nationality acknowledges that the software will require upgrading to total the number of people who write they are Welsh in the 'other' space. This will allow the people of Wales to have the same opportunity to register their nationality that will be given to the people of Scotland and Ireland.*

We hope to look forward to a new era in the history of Wales and, in particular, in politics in Wales. The Assembly was elected to be the voice of Wales for this generation. The people of Wales look to us today to voice their expectations that they should be given

gwelliant I ond, o gofio'r sicrwydd a roddwyd o ran sut y bwriadwn symud ymlaen, gobeithiaf y bydd Plaid Geidwadol Cymru yn tynnu ei gwelliant yn ôl.

Nid ydym o blaid ymgyrch anufudd-dod sifil ar y mater hwn. Gan gofio hynny, ymdriniaf â'r gwelliant Rhyddfrydol-Llafur. Nid wyf yn fodlon ar y ffordd y'i draftiwyd. Mae'n datgan yr amlwg. Mae hefyd yn amddiffynnol, gan yr ymddengys ei fod yn cydnabod bod yr ymgyrch dros flwch ticio ymron yn sicr o fethu. Ni ddylem adael i fgythiad dychmygol o anghydymffurfio dynnu sylw o'r mater gwirioneddol, sef y dylid caniatáu i bobl Cymru ddatgan eu hunaniaeth. O gofio bod angen y gefnogaeth ehangaf bosibl i hyn, derbyniwn y gwelliant Rhyddfrydol-Llafur, er nad ydym yn argyhoeddedig o'i berthnasedd na'i werth yng nghyd-destun y ddatl. Y mater holl bwysig i'r Cynulliad yw derbyn y cynnig hwn ac yna wahodd arweinwyr y pleidiau yng Nghymru i ysgrifennu at Tony Blair yn mynegi dymuniadau pendant pobl Cymru. Yna bydd y corff hwn wedi llefaru a bydd pobl Cymru wedi cael eu dweud. Felly, erfyniaf ar bob Aelod i gefnogi ein cynnig. Yn syml, mae'n bryd inni, fel gwlad, sefyll a chael ein cyfrif.

**William Graham:** Cynigiaf welliant 1. Ychwaneger fel cymal newydd:

*Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch wrth fynegi'ch hunaniaeth genedlaethol, dylid argraffu blwch ticio Cymraeg ar ffurflen y cyfrifiad. Trwy'r dull hwn y cesglir yr wybodaeth fwyaf cywir am genedligrwydd, ond cydnabyddir y bydd angen uwchraddio'r meddalwedd iddo allu cyfrif hefyd nifer y bobl sydd yn nodi eu bod yn Gymry yn y blwch 'arall'. Bydd hyn yn caniatáu i bobl Cymru gael yr un cyfle â phobl yr Alban ac Iwerddon i gofrestru eu cenedligrwydd.*

Gobeithiwn edrych ymlaen at oes newydd yn hanes Cymru ac, yn benodol, gwleidyddiaeth Cymru. Etholwyd y Cynulliad i fod yn llais i Gymru ar gyfer y genhedlaeth hon. Mae pobl Cymru yn disgwyl inni heddiw leisio eu disgwyliadau y dylid rhoi'r cyfle iddynt



this opportunity to register their national identity. If Wales is truly a nation, its people must have the opportunity to record their nationality.

The Welsh Conservatives have been labelled as not being Welsh at heart, for leading the campaign against establishing the Assembly. We have turned a page and that is not only untrue, but it is history. Today, we are talking about fact. We are seeking to have the census forms overprinted with a Welsh tick box that allows everyone to have the clearest and easiest opportunity to record their national identity. I am grateful to Sarah Dickins of BBC Wales for giving me a copy of the intended form. Members will note that there is a large space on the form. It would be easy to have it overprinted, hence the cost need not be what has been ridiculously claimed in the press. I endorse Ieuan Wyn Jones's comments in terms of why cannot you be white or black Caribbean, Asian or Asian British, black or black British, Chinese or from another ethnic group and still be a Welshman or a Welshwoman?

The million-pound package announced by Tony Blair in October is worth almost half the amount estimated to be required to have all the census forms reprinted. However, the package will only fund an advertising campaign that cannot guarantee that all those who wish to register as Welsh will be able to do so. If people follow the advice in that campaign and make the extra effort to write 'Welsh' within the 'Other' option, they may find that their efforts were for nothing. 'Welsh' written in on the census form may not be read by the scanning machine. Len Cook, the national statistician and registrar general, has remarked that such entries may not be included in the vitally important digest of census figures.

It is vital that everyone should complete their census forms. The census is the only detailed social survey that includes everyone in the United Kingdom. The information that it provides will be used to ensure that services that future governments provide match the needs of the people. Overprinting the census

gofrestru eu hunaniaeth genedlaethol. Os yw Cymru yn genedl, rhaid rhoi'r cyfle i'w phobl gofnodi eu cenedligrwydd.

Labelwyd Ceidwadwyr Cymru fel plaid heb Gymru yn eu calonnau, am arwain yr ymgyrch yn erbyn sefydlu'r Cynulliad. Yr ydym wedi troi dalen ac mae hynny nid yn unig yn anwir, ond mae'n hanes. Heddiw, yr ydym yn sôn am ffaith. Yr ydym am i flwch ticio Cymreig gael ei drosargraffu ar ffurflenni'r cyfrifiad, sydd yn sicrhau'r cyfle cliraf a hawsaf i bawb gofnodi eu hunaniaeth genedlaethol. Yr wyf yn ddiolchgar i Sarah Dickins o BBC Cymru am roi copi imi o'r ffurflen arfaethedig. Bydd yr Aelodau yn sylwi bod gofod mawr ar y ffurflen. Byddai'n hawdd ei throsargraffu, felly ni fyddai angen i'r gost fod mor fawr â'r swm afresymol a honwyd yn y wasg. Cymeradwyaf sylwadau Ieuan Wyn Jones o ran pam na allwch fod yn Garibiaidd ddu neu wyn, Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, yn ddu neu'n Brydeinig du, yn Dsieineaidd neu o grŵp ethnig arall ac yn Gymro neu'n Gymraes ar yr un pryd?

Mae'r pecyn miliwn o bunnau a gyhoeddwyd gan Tony Blair ym mis Hydref yn werth bron hanner y swm yr amcangyfrifwyd y byddai ei angen i ailargraffu holl ffurflenni'r cyfrifiad. Fodd bynnag, ni fydd y pecyn ond yn ariannu ymgyrch hysbysebu na all warantu y gall pawb sydd am gofrestru fel Cymry wneud hynny. Os bydd pobl yn dilyn y cyngor yn yr ymgyrch honno ac yn gwneud yr ymdrech ychwanegol i ysgrifennu 'Cymreig' o fewn yr opsiwn 'Arall' efallai y bydd eu hymdrechion yn ofer. Efallai na fydd y peiriant sganio yn darllen 'Cymreig' wedi'i ysgrifennu ar ffurflen y cyfrifiad. Mae Len Cook, yr ystadegydd gwladol a'r cofrestrydd cyffredinol, wedi nodi efallai na chaiff sylwadau o'r fath eu cynnwys yn y broses holl bwysig o grynhoi ffigurau'r cyfrifiad.

Mae'n hanfodol y dylai pawb gwblhau ffurflenni'r cyfrifiad. Y cyfrifiad yw'r unig arolwg cymdeithasol manwl sydd yn cynnwys pawb yn y Deyrnas Unedig. Defnyddir y wybodaeth a ddarperir ganddo i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraethau'r dyfodol yn cyfateb ag anghenion y bobl. Bydd

forms with a Welsh tick box will cost far less than the advertising campaign. That is the clearest and easiest option to allow all those people who wish to register their national identity as Welsh to do so. We ask the Assembly to voice the feelings of the people of Wales by supporting this amendment and allowing them to have the same opportunity as the people of Scotland to register their nationality. If this Assembly stands for anything, it must be for hope for the future, and by declaring Welsh identity on this form we hope for and look forward to a confident future.

**Andrew Davies:** I propose amendment 2. Add new paragraph:

*While recognising the strength of opinion on this matter, the Assembly urges all people in Wales to fulfil their legal duty to complete the census form, acknowledging that undercounting of the population of Wales could have serious implications for core funding received by vital services in Wales over the coming decade; and calls on all political parties in Wales and all Assembly Members to encourage its completion.*

**Helen Mary Jones:** I am glad to have the opportunity to debate this matter again in the Assembly and that this time we have an opportunity to vote and, as Ieuan Wyn Jones said, to make our views and therefore the views of the nation clear. When I raised this in the short debate, I received a strong response from members of the public all over Wales saying that they were glad that I had done so. I received a particularly strong response from my own constituency, which gives the lie to the point that some people have been attempting to make that this is a matter of interest to the chattering classes only. Llanelli is an interesting place, but none of us would call it a haunt of the chattering classes. It is not only the *cyfryngis*—the media-types—who are concerned about this.

I was particularly interested in the response that I had from members of the black and ethnic minority communities. The comments from those communities highlighted for me

trosargraffu blwch ticio Cymreig ar ffurflenni'r cyfrifiad yn costio llawer llai na'r ymgyrch hysbysebu. Dyna'r opsiwn cliraf a hawsaf i ganiatáu i bawb sydd am gofrestru eu hunaniaeth genedlaethol fel Cymreig wneud hynny. Gofynnwn i'r Cynulliad leisio teimladau pobl Cymru drwy gefnogi'r gwelliant hwn a chaniatáu iddynt gael yr un cyfle â phobl yr Alban i gofrestru eu cenedligrwydd. Os saif y Cynulliad hwn dros unrhyw beth, gobaith ar gyfer y dyfodol ddylai hynny fod, a thrwy ddatgan hunaniaeth Gymreig ar y ffurflen hon gobeithiwn am ddyfodol hyderus ac edrychwn ymlaen ato.

**Andrew Davies:** Cynigiad welliant 2. Ychwaneger paragraff newydd:

*Er ein bod yn cydnabod cryfder y farn ar y mater hwn, mae'r Cynulliad yn annog holl bobl Cymru i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i gwblhau ffurflen y cyfrifiad, gan gydnabod y gallai tangyfrif poblogaeth Cymru gael goblygiadau difrifol o safbwynt y cyllid craidd a dderbynnir gan wasanaethau allweddol yng Nghymru dros y degawd nesaf; ac mae'n galw ar bob plaid wleidyddol yng Nghymru a phob un o Aelodau'r Cynulliad i annog pobl i'w chwblhau.*

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn falch o gael y cyfle i drafod y mater hwn eto yn y Cynulliad a bod gennym gyfle i bleidleisio y tro hwn ac, fel y nododd Ieuan Wyn Jones, i leisio ein safbwyntiau ac felly safbwyntiau'r genedl. Pan godais y mater hwn yn y ddadl fer, cefais ymateb cryf gan aelodau'r cyhoedd ledled Cymru yn nodi eu bod yn falch fy mod wedi gwneud hynny. Derbyniais ymateb arbennig o gryf gan fy etholaeth i, sydd yn gwrth-ddweud y pwnt y mae rhai pobl wedi ceisio ei wneud mai mater o ddiddordeb i bobl ddiwylliannol yn unig yw hwn. Mae Llanelli yn lle diddorol, ond ni ellid ei alw'n un o hoff fannau'r bobl ddiwylliannol. Nid y cyfryngis yn unig sydd yn poeni am hyn.

Yr oedd yn arbennig o ddiddorol gennyf glywed yr ymateb a gefais gan aelodau o'r cymunedau du a lleiafrifoedd ethnig. Amlygodd y sylwadau gan y cymunedau

one further reason that perhaps I did not fully express when I last spoke on this matter, about the importance of needing to be able to register one's Welshness. It has sometimes been said that some black and ethnic minority members of our communities feel more alienated from Welsh society since the establishment of the Assembly. The comments that I received suggest that for many black and ethnic minority citizens, the reverse is true. They feel strongly about their Welsh identity and they wish to have a way of expressing it. However, for some of those citizens, it may be the case that they do not feel fully part of our nation. That must be a source of great concern to us all.

We need the census data to enable us to measure how our black and ethnic minority fellow citizens identify now. If we find out that a higher percentage of people from, for example, ethnic minority backgrounds do not wish to express themselves as Welsh than the percentage of white citizens, we have a problem. As an equal opportunities body we would need to address that problem. We need to have this information to enable us to measure how people feel about themselves and about the new nation that we are trying to build, so that we can measure the impact of many of our equality measures in 10 years time.

The same is equally true in a different way for non-Welsh born citizens of Wales. Surely we want to find out how they identify with this project and whether they feel that they are part of it. There is no way on the current form for people who were not born here and do not speak Welsh to identify themselves as citizens of Wales. I am sure that we cannot find that acceptable.

The arguments about how all this has come about have been well rehearsed. The reasons why the Office for National Statistics did not accept the warnings that we all know it was given are important. There are lessons that we must learn from this. What matters now is what happens. One of the reasons why Plaid Cymru does not support the Conservative

hynny imi un rheswm arall na fynegais yn llawn, o bosibl, pan siaradais ar y mater hwn y tro diwethaf, sef pwysigrwydd yr angen i unigolion allu cofnodi eu Cymreictod. O bryd i'w gilydd nodir bod rhai aelodau du a lleiafrifoedd ethnig ein cymunedau yn teimlo eu bod wedi'u hynysu ymhellach o gymdeithas Cymru ers sefydlu'r Cynulliad. Mae'r sylwadau a dderbyniais yn awgrymu bod y gwrthwyneb yn wir i lawer o ddinasyddion du a lleiafrifoedd ethnig. Teimlant yn gryf am eu hunaniaeth Gymreig a dymunant gael rhyw ffordd o'i mynegi. Fodd bynnag, i rai o'r dinasyddion hynny, efallai nad ydynt yn teimlo'n rhan lawn o'n cenedl. Mae'n rhaid bod hynny yn fater o bryder mawr inni i gyd.

Mae angen data'r cyfrifiad arnom i'n galluogi i fesur beth yw hunaniaeth ein cyddinasyddion du a lleiafrifoedd ethnig yn awr. Os canfyddwn fod canran uwch o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft, nad ydynt yn dymuno mynegi eu bod yn Gymreig na chanran y dinasyddion gwyn, mae gennym broblem. Fel corff cyfle cyfartal byddai angen inni ymdrin â'r broblem honno. Mae angen y wybodaeth hon arnom i'n galluogi i fesur sut mae pobl yn teimlo amdanynt hwy eu hunain ac am y genedl newydd yr ydym yn ceisio ei hadeiladu, er mwyn inni allu mesur effaith llawer o'n mesurau cydraddoldeb ymhen 10 mlynedd.

Mae'r un peth yr un mor wir mewn ffordd wahanol ar gyfer dinasyddion Cymru nas ganwyd yng Nghymru. Onid ydym am ganfod sut maent yn uniaethu â'r prosiect hwn ac a ydynt yn teimlo'n rhan ohono? Nid oes unrhyw ffordd ar y ffurflen gyfredol i bobl nas ganwyd yma ac nad ydynt yn siarad Cymraeg i nodi eu hunaniaeth fel dinasyddion Cymru. Yr wyf yn siŵr na all hynny fod yn dderbyniol inni.

Yr ydym yn hen gyfarwydd â'r dadleuon am yr hyn a achosodd y sefyllfa. Mae'r rhesymau pam na dderbyniodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y rhybuddion yr ydym yn gwybod iddi eu cael yn bwysig. Mae gwersi y mae'n rhaid inni eu dysgu o hyn. Yr hyn sydd yn bwysig yn awr yw beth sydd yn digwydd. Un o'r rhesymau pam nad yw Plaid Cymru yn

Party's amendment is that we think that it ties the hands of the Government too much. I would be happy with an additional page. Overprinting is probably the simplest method, but if an additional page would be simpler and cheaper I am happy to live with that, which is why we will not support the Conservative amendment.

This surely must be something that we can all agree that it is possible to change. It is not too late to put this right. I hope that colleagues in the Chamber will support this motion to enable it to be clearly expressed to the Government.

**Val Feld:** I am pleased to be able to follow on from Helen Mary because I was sitting here wondering whether to intervene. A number of the issues that I wanted to deal with relate directly to the things she was saying. I have no doubt that the issue of our identity is of fundamental importance to us all. We should not pretend that that is not the case. For me, learning about that identity, tackling it and making it visible—not just to ourselves but to people outside Wales—was always going to be a central part of the devolution process. It was a major reason why we needed devolution, because we had lived for so long in a country called 'and Wales': 'England and Wales' or 'Scotland and Wales'; it was invisible. Devolution gave us a voice for people in Wales. That is powerful and important and we are only just beginning to come to grips with it. We have only been here for a short time.

4:50 p.m

I have made my voice heard. I have written to the chief executive of the ONS. I have raised this issue in several places. I have spoken to my local Member of Parliament, we have discussed it in the Labour Party and in the Labour group. I am satisfied that we have made our voice heard. The question is whether we can go any further.

Devolution was also about the fact that the needs of Wales were being ignored. I am

cefnogi gwelliant y Blaid Geidwadol yw ein bod yn credu ei fod yn clymu dwylo'r Llywodraeth yn ormodol. Byddwn yn fodlon ar dudalen ychwanegol. Mwy na thebyg mai trosargraffu yw'r dull symlaf, ond pe byddai tudalen ychwanegol yn symlach ac yn rhatach byddwn yn fodlon byw gyda hynny, a dyna pam na fyddwn yn cefnogi gwelliant y Ceidwadwyr.

Dylai hyn fod yn rhywbeth y gallwn oll gytuno ei bod yn bosibl ei newid. Nid yw'n rhy hwyr i unioni'r cam. Gobeithiaf y bydd fy nghyd-Aelodau yn y Siambr yn cefnogi'r cynnig hwn i alluogi iddo gael ei fynegi'n glir i'r Llywodraeth.

**Val Feld:** Yr wyf yn falch o gael siarad ar ôl Helen Mary gan fy mod wedi bod yn eistedd yma yn tybio a ddylwn ymyrryd. Mae nifer o'r materion yr oeddwn am ymdrin â hwy yn ymwneud yn uniongyrchol â'r pethau a nodwyd ganddi. Nid oes amheuaeth gennyf bod ein hunaniaeth yn fater o bwysigrwydd sylfaenol inni i gyd. Ni ddylem esgus nad yw hynny'n wir. Yn bersonol, yr oedd dysgu am yr hunaniaeth honno, mynd i'r afael â hi a'i hamlygu—nid yn unig i ni ein hunain ond i bobl y tu allan i Gymru—bob amser am fod yn rhan ganolog o'r broses ddatganoli. Dyna un o'r prif resymau pam yr oedd angen datganoli, gan ein bod wedi byw cyhyd mewn gwlad o'r enw 'a Chymru': 'Lloegr a Chymru' neu 'Yr Alban a Chymru'; yr oedd yn anweledig. Yn sgîl datganoli rhoddwyd llais i bobl Cymru. Mae hynny'n bwerus ac yn bwysig ac megis dechrau yr ydym wrth fynd i'r afael â hyn. Dim ond am gyfnod byr y buom yma.

Lleisiais fy marn. Ysgrifennais at brif weithredwr yr ONS. Codais y mater mewn sawl lle. Siaradais â'm Haelod Seneddol lleol, trafodwyd y mater yn y Blaid Lafur ac yn y grŵp Llafur. Yr wyf yn fodlon bod ein llais wedi'i glywed. Y cwestiwn yn awr yw a allwn fynd ymhellach.

Yr oedd datganoli hefyd yn ymwneud â'r ffaith bod anghenion Cymru'n cael eu

satisfied that the noise that we have made so far means that those needs will not be ignored in the past—

**Ron Davies:** In the future.

**Val Feld:**—in the future. Thank you, Ron. Sorry, I am getting a little carried away.

It is important to consider what is on offer to us. I return to what Helen Mary said: she is absolutely right about Welsh identity and what it means to different people who live in Wales. We do not know enough about that. We do not know how people in north Wales feel or how people in south Wales, black people, white people and people who have come to live in Wales feel. Frankly, we will not get that information from a simple tick box on the census form. We will get it from a proper study of Welsh identity that will enable us to raise a whole range of questions that can tease out some of those complexities and enable us therefore to obtain substantive information to inform our future social and economic policy.

This brings me to the question about whether we have gone far enough. The great danger in going any further than this is that a campaign of disobedience builds up and then people do not complete the form. Then we do not have the critical socio-economic data that we need to plan this Assembly's activities.

**The Presiding Officer:** Order. Your time is up.

**Owen John Thomas:** There are three standpoints that politicians have taken on the issue of the census form in Wales. First, there is the arrogant and offensive attitude shown by those who insist on decrying and denying the rights of Welsh citizens of various ethnic backgrounds to describe themselves as Welsh. This group seeks to impose upon all Welsh citizens, and the citizens of England, the geo-political term, 'British'. Secondly, there are those who say, 'let us put the census form right, print an insert and allow the people of Wales to

hanwybyddu. Yr wyf yn fodlon bod y sŵn a wnaethom hyd yn hyn yn golygu na chaiff yr anghenion hynny eu hanwybyddu yn y gorffennol—

**Ron Davies:** Yn y dyfodol.

**Val Feld:**—yn y dyfodol. Diolch, Ron. Ymddiheuraf, yr wyf yn mynd i hwyl braidd.

Mae'n bwysig ystyried beth a gynigir inni. Dychwelaf at yr hyn a ddywedodd Helen Mary: mae yn llygad ei lle am hunaniaeth Gymreig a'i hystyr i wahanol bobl sydd yn byw yng Nghymru. Ni wyddom ddigon am hynny. Ni wyddom deimladau pobl yng ngogledd Cymru na theimladau pobl yn ne Cymru, pobl ddu, pobl wyn a phobl sydd wedi dod i fyw i Gymru. A bod yn onest, ni chawn y wybodaeth honno o flwch ticio syml ar ffurflen y cyfrifiad. Bydd angen astudiaeth gywir o hunaniaeth Gymreig a fydd yn ein galluogi i godi llu o gwestiynau a all ddatgelu rhai o'r cymhlethdodau hynny a'n galluogi felly i gael gwybodaeth bendant i lywio ein polisi cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol.

Daw hynny â mi at y cwestiwn a ydym wedi mynd yn ddigon pell. Y perygl mawr wrth fynd ymhellach na hyn yw y bydd ymgyrch anufudd-dod yn datblygu ac na fydd pobl wedyn yn llenwi'r ffurflen. Yna ni fydd gennym y data cymdeithasol-economaidd hanfodol sydd ei angen arnom i gynllunio gweithgareddau'r Cynulliad hwn.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae eich amser ar ben.

**Owen John Thomas:** Mae tri safbwynt a gymerwyd gan wleidyddion o ran ffurflen y cyfrifiad yng Nghymru. Yn gyntaf, mae'r agwedd ffroenuchel a sarhaus a ddangosir gan y rheini sydd yn mynnu bychanu a gwrthod hawliau dinasyddion Cymru o amrywiol gefndiroedd ethnig i ddisgrifio eu hunain fel Cymry. Mae'r grŵp hwn am orfodi'r term daearyddol-wleidyddol 'Prydeinig' ar bob dinesydd Cymreig, a dinasyddion Lloegr. Yn ail, mae'r rheini a ddywed 'gadewch inni gywiro ffurflen y cyfrifiad, argraffu nodyn ychwanegol a galluogi i bobl Cymru ateb y

answer the questions on ethnicity in line with their own instincts'. It appears that the cost of such an exercise, including printing and processing, would not exceed one tenth of the expenditure on the Welsh census. It is a reasonable and practical proposal, and I stress that it is an opportunity for the National Assembly to show that it can act successfully on behalf of Welsh interests. However, there is a third standpoint on this matter. That is where people voice their disapproval of the unfortunately-worded form, but then proceed to trot out a succession of excuses when presented with each means of correcting that mistake.

This is by no means the most important issue that this Assembly must address, but it is a litmus test to show whether, as a national institution, we have the determination to tell Westminster to put matters right. Today we heard Rhodri's reply to my question about making St David's Day a Welsh bank holiday. He wrote to Mr Murphy, but he has not replied yet. Therefore, we do not know whether he is pressing the Westminster Government—*yn pwysu ar y Llywodraeth yn San Steffan*. He tells me that he has written twice. That is fine, but it is not good enough. We have been elected to the Assembly. This national institution has been founded to serve the people of Wales and here we are writing to this chap Murphy and he is not responding and doing what we tell him to do. We should demand that he does so. If you show Westminster that you are serious, it might take notice of you. If you keep on knocking on the door with a sponge, it will not even hear you.

**Peter Black:** I have given much thought to identity recently. To a large extent, we are defined by our upbringing, by our family and by the community in which we live. That community can be defined, in the narrowest of senses, as the street in which we live or, much wider, as the country or even the continent of which we form a part.

I was born and brought up in England, as were both my parents. However, in terms of ancestry, I carry a large portion of Scottish blood, a fair smattering of Irish blood and some Welsh blood. My grandmother was

cwestiynau ar ethnigrwydd yn unol â'u greddf'. Ymddengys na fyddai cost ymarfer o'r fath, gan gynnwys argraffu a phrosesu, yn fwy na degfed o'r gwariant ar y cyfrifiad yng Nghymru. Mae'n gynnig rhesymol ac ymarferol, a phwysleisiaf ei fod yn gyfle i'r Cynulliad Cenedlaethol ddangos y gall weithredu'n llwyddiannus ar ran buddiannau Cymreig. Fodd bynnag, ceir trydydd safbwynt ar y mater, sef lle mae pobl yn lleisio eu hanfodlonrwydd ar eiriad anffodus y ffurflen, ond yn mynd ati i gyflwyno cyfres o esgusodion ar ôl clywed pob dull o unioni'r cam hwnnw.

Nid dyma'r mater pwysicaf y mae'n rhaid i'r Cynulliad ymdrin ag ef o bell ffordd, ond mae'n brawf litmws i ddangos a yw'r penderfyniad gennym, fel sefydliad cenedlaethol, i orchymyn i San Steffan unioni'r cam. Heddiw clywsom ymateb Rhodri i'm cwestiwn am wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc yng Nghymru. Ysgrifennodd at Mr Murphy, ond nid yw wedi ateb eto. Felly, ni wyddom a yw'n pwysu ar y Llywodraeth yn San Steffan ai peidio. Dywed wrthyf ei fod wedi ysgrifennu ddwywaith. Iawn, ond nid yw'n ddigon da. Fe'n hetholwyd i'r Cynulliad. Sefydlwyd y sefydliad cenedlaethol hwn i wasanaethu pobl Cymru a dyma ni yn ysgrifennu at y dyn Murphy yma a hwnnw'n methu ag ymateb a gweithredu ar ein cais. Dylem fynnu hynny. Os dangoswch i San Steffan eich bod o ddifrif, efallai y cymer sylw ohonoch. Os parhewch i guro ar y drws â sbwng, ni fydd yn eich clywed hyd yn oed.

**Peter Black:** Yr wyf wedi rhoi cryn ystyriaeth i hunaniaeth yn ddiweddar. I raddau helaeth, fe'n diffinnir gan ein magwraeth, gan ein teulu a chan y gymuned yr ydym yn byw ynddi. Gellir diffinio'r gymuned honno, yn ei hystyr gulaf, fel y stryd yr ydym yn byw ynddi neu, yn ehangach, fel y wlad neu hyd yn oed y cyfandir yr ydym yn rhan ohono.

Cefais fy ngeni a'm magu yn Lloegr, ac felly hefyd fy rhieni. Fodd bynnag, yn nhermau fy nghyndeidiau, mae cyfran fawr o'n gwaed yn dod o'r Alban, cyfran sylweddol o'r Iwerddon a rhywfaint o Gymru. Yr oedd fy mam-gu yn

from a Welsh-speaking family based in north Wales. I have lived in Wales for 22 years and I identify most closely with communities in Wales to the extent that I would place a tick in the box that defined me as Welsh, if I were to have the opportunity to do so on next year's census form. However, it is not that simple, as I also think of myself as being part of the greater community of Britain and as a European. We all belong to several communities, all of which are interrelated and interlinked. Identity lies in part of each of those communities.

I support the need for a Welsh tick box on next year's census form, as do the other Welsh Liberal Democrats, because it is right that people should be able to record their identity. Although the census is, essentially, an instrument to gather useful statistics to inform public policy, it does so by asking us to define ourselves in terms of family, employment, education and status. Such a definition cannot be complete unless we are also allowed to define ourselves in terms of our community and ethnicity.

However, we must be careful in how we conduct this campaign. The National Assembly does not have the power to raise its own finances through taxation, despite the fact that some of us believe that it should have that ability. Our money comes from the UK Government in accordance with a formula that is based entirely on population. With high levels of poverty and deprivation in many parts of Wales, with severe problems of ill-health, poor housing, educational underachievement and economic inactivity, we need every penny that we can get. We cannot put that at risk. That is why, no matter what the outcome of this campaign, we must urge people to complete the census form. That is why I hope that the Assembly will support the campaign for a Welsh tick box but also support the Labour and Liberal Democrat amendment. Without that amendment, we are in danger of adding our voices to a campaign that will undermine everything that we have tried to achieve since May 1999.

hanu o deulu Cymraeg o ogledd Cymru. Yr wyf wedi byw yng Nghymru ers 22 mlynedd ac yr wyf yn uniaethu agosaf â chymunedau yng Nghymru i'r graddau y byddwn yn rhoi tic yn y blwch a oedd yn fy niffinio fel Cymro pe rhoddid y cyfle imi wneud hynny ar ffurflen cyfrifiad y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, nid yw mor syml â hynny, gan fy mod hefyd yn ystyried fy mod yn rhan o gymuned ehangach Prydain ac Ewrop. Yr ydym oll yn perthyn i sawl cymuned, a phob un ohonynt yn rhyngberthnasol ac yn rhyng-gysylltiedig. Mae rhan o'n hunaniaeth ymhob un o'r cymunedau hynny.

Cefnogaf yr angen am flwch ticio Cymreig ar ffurflen cyfrifiad y flwyddyn nesaf, fel y gwna'r Democratiaid Rhyddfrydol Cymreig eraill, gan ei bod yn iawn i bobl allu cofnodi eu hunaniaeth. Er bod y cyfrifiad, yn ei hanfod, yn offeryn i gasglu ystadegau defnyddiol i lywio polisi cyhoeddus, gwna hynny drwy ofyn inni ddiffinio ein hunain yn nhermau teulu, cyflogaeth, addysg a statws. Ni all diffiniad o'r fath fod yn gyflawn oni chawn hefyd ddiffinio ein hunain yn nhermau ein cymuned a'n hethnigrwydd.

Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ofalus o'r ffordd y cynhaliwn yr ymgyrch hon. Nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i godi ei gyllid ei hun drwy drethiant, er gwaethaf y ffaith bod rhai ohonom o'r farn y dylai fod ganddo'r gallu hwnnw. Daw ein harian gan Lywodraeth y DU yn unol â fformwla sydd yn gyfan gwbl seiliedig ar boblogaeth. Gyda lefelau uchel o dlodi ac amddifadedd mewn sawl rhan o Gymru, gyda phroblemau difrifol o ran salwch, tai gwael, tangyflawni addysgol ac anweithgarwch economaidd, mae angen pob ceiniog y gallwn ei chael arnom. Ni allwn beryglu hynny. Dyna pam, waeth beth fydd canlyniad yr ymgyrch hon, y mae'n rhaid inni erfyn ar bobl i gwblhau ffurflen y cyfrifiad. Dyna pam y gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn cefnogi'r ymgyrch dros flwch ticio Cymreig ond y bydd hefyd yn cefnogi gwelliant y Blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Heb y gwelliant hwnnw, yr ydym mewn perygl o ychwanegu ein lleisiau at ymgyrch a fydd yn tanseilio popeth y buom yn ceisio ei gyflawni ers Mai 1999.

**Rhodri Glyn Thomas:** It has been said many times that this issue was brought to the attention of politicians and the Office for National Statistics far too late. I will quote to you from a letter written by John Walter Jones, the chief executive of the Welsh Language Board, to *The Western Mail* on 7 November:

‘I would like to place on record, and not for the first time, that this is not the case:

1. The issue was raised by officials of the Welsh Language Board in a meeting with the ONS on 14 May 1998.’

Therefore, the issue was brought to their attention and a political decision was taken not to include the tick box. Let us be clear about the implications of this. We are not talking about one form. I will quote to you from a letter received by two of my constituents from the Higher Education Statistics Agency:

‘The ethnicity field in the HESA student record uses the categories specified in the 1991 census of population to allow national comparative statistics to be calculated . . . HESA is revising its ethnicity field for the academic year 2001-02 to align with the new ethnicity categories in the 2001 census of population.’

Every comparative form for the next 10 years will follow the same categories as the census for population. On every form, the people of Wales will not be allowed the opportunity to state their nationhood. We, in cool Cymru, are encouraged to wake up every morning and thank the Lord that we are Welsh, but a political decision has been taken not to allow us to register that fact on the census form and on every other comparative form that will follow for the next 10 years. That is the situation as far as we are concerned. It is a political decision and we, as the political forum of Wales, must state our case clearly. We want that change. We want them to accept that they made a mistake and to change the situation. We want to be allowed to have that right to state our nationhood on this form, and on every other form that will be used as a comparative form against it. It is a simple matter of political fact. The buck stops with the Cabinet on the fifth floor of Crickhowell House. We must have political lead from this administration to take to Westminster and to tell them that this wrong

**Rhodri Glyn Thomas:** Dywedwyd sawl gwaith ei bod yn llawer rhy hwyr pan dynnwyd sylw gwleidyddion a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol at y mater hwn. Dyfynnaf lythyr ichi a ysgrifennwyd gan John Walter Jones, prif weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i *The Western Mail* ar 7 Tachwedd:

Felly, tynnwyd eu sylw at y mater a chymerwyd penderfyniad gwleidyddol i beidio â chynnwys y blwch ticio. Gadewch inni fod yn glir am oblygiadau hyn. Nid ydym yn sôn am un ffurflen. Dyfynnaf ichi o lythyr a dderbyniwyd gan ddau o'm hetholwyr o'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch:

Bydd pob ffurflen gymharol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf yn dilyn yr un categorïau â'r cyfrifiad poblogaeth. Ar bob ffurflen, ni roddir y cyfle i bobl Cymru ddatgan eu cenedligrwydd. Cawn ein hannog, yn cŵl Cymru, i ddefro bob bore a diolch i Dduw ein bod yn Gymry, ond gwnaethpwyd penderfyniad gwleidyddol i beidio â chaniatáu inni nodi'r ffaith honno ar ffurflen y cyfrifiad a phob ffurflen gymharol a fydd yn dilyn am y 10 mlynedd nesaf. Dyna'r sefyllfa fel y'i deallwn. Penderfyniad gwleidyddol ydyw a rhaid inni, fel fforwm gwleidyddol Cymru, ddatgan ein hachos yn glir. Yr ydym am weld y newid hwnnw. Yr ydym am iddynt dderbyn eu bod wedi gwneud camgymeriad a newid y sefyllfa. Yr ydym am gael yr hawl i ddatgan ein cenedligrwydd ar y ffurflen hon, ac ar bob ffurflen arall a ddefnyddir fel ffurflen gymharol yn ei herbyn. Mae'n fater syml o ffaith wleidyddol. Mae'r cyfrifoldeb ar y Cabinet ar bumed llawr Tŷ Crughywel. Rhaid inni gael arweinyddiaeth wleidyddol gan y weinyddiaeth hon i fynd i San Steffan a gorchymyn iddynt unioni'r cam.



must be righted.

5:00 p.m.

**Christine Gwyther:** My name is Christine Gwyther, and I make my confession. On 16 August 2000, at the Pembrokeshire County Show, I signed a Plaid Cymru petition deploring the lack of a Welsh tick box on the 2001 census form. I signed it as a proud Welshwoman because I was incensed that the ONS was not listening to the people of Wales. Like my Labour colleagues in Wales, I kept a weather eye on the negotiations that Rhodri Morgan undertook throughout the summer. My good wishes went with him in his efforts to secure an amendment to the form. Ultimately, Rhodri secured a commitment to find out more about the ethnicity of people in Wales in a credible, modern and enlightened manner, which we are told the Scottish form does not include. Well done for that, Rhodri. It was an imperfect conclusion, as I am sure we would all agree. However, that was the conclusion.

It has been a funny summer. At about the same time that the census tick box campaign took off, we heard of the brilliant outcome of the comprehensive spending review, which has fed into a Welsh Labour-led policy programme for the next few years, and the first Objective 1 project commitments. A poor comprehensive spending review would have been cataclysmic for Wales. The lack of a Welsh tick box is not. Call me, like the Joneses—Ieuan Wyn and Helen Mary—a timid patriot, but I will not burn, pulp, shred or swallow my 2001 census form. I will spend my energies ensuring that my constituency benefits as it should from the Labour-led policies that we can now push forward as a result of this year's CSR. However, I have a long memory. This tick box omission was not just a cock-up, it was an insult. It should never happen again, and I will continue working within the Labour party, and within the law, for justice for Wales, because we are worth it.

**Glyn Davies:** I have watched this debate

**Christine Gwyther:** Fy enw i yw Christine Gwyther, a hoffwn gyffesu. Ar 16 Awst 2000, yn Sioe Sir Benfro, llofnodais ddeiseb gan Blaid Cymru yn gresynu nad oedd blwch ticio Cymreig ar ffurflen cyfrifiad 2001. Fe'i llofnodais fel Cymraes falch gan fy mod wedi fy nghythrudo nad oedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gwrandao ar bobl Cymru. Fel fy nghyd-Aelodau Llafur yng Nghymru, cadwais lygad barcud ar y negodiadau a gynhaliwyd gan Rhodri Morgan yn ystod yr haf. Anfonais fy nymuniadau da iddo yn ei ymdrechion i sicrhau gwelliant i'r ffurflen. Yn y pen draw, llwyddodd Rhodri i sicrhau ymrwymiad i gael mwy o wybodaeth am ethnigrwydd pobl yng Nghymru mewn modd credadwy, modern a hyddysg, na chaiff ei gynnwys ar ffurflen yr Alban mae'n debyg. Llongyfarchiadau am hynny, Rhodri. Yr wyf yn siŵr y byddem oll yn cytuno nad oedd yn gasgliad perffaith. Fodd bynnag, dyna oedd y casgliad.

Bu'n haf rhyfedd. Tua'r un pryd â sefydlu ymgyrch blwch ticio'r cyfrifiad, clywsom am ganlyniad ardderchog yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, a fwydodd i raglen polisi o dan arweiniad Plaid Lafur Cymru ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, a'r ymrwymadau prosiect Amcan 1 cyntaf. Byddai adolygiad cynhwysfawr o wariant gwael wedi bod yn gataclysmiaidd i Gymru. Nid felly diffyg blwch ticio Cymreig. Cewch fy ngalw i, fel y Joneses—Ieuan Wyn a Helen Mary—yn wladgarwr di-asgwrn-cefn, ond ni fyddaf yn llosgi, malu, torri neu lyncu ffurflen cyfrifiad 2001. Defnyddiaf fy egni i sicrhau bod fy etholaeth yn elwa fel y dylai o'r polisïau Llafur y gallwn bellach eu datblygu o ganlyniad i'r adolygiad cynhwysfawr o wariant eleni. Fodd bynnag, mae gennyf gof fel eliffant. Nid camgymeriad yn unig oedd hepgor y blwch ticio, yr oedd yn sarhad. Ni ddylai ddigwydd byth eto, a pharhaf i weithio o fewn y blaid Lafur, ac o fewn y gyfraith, i gael cyfiawnder i Gymru, gan ein bod yn ei haeddu.

**Glyn Davies:** Gwyliais y ddadl hon am

about the absence of a Welsh tick box on next year's census form develop all summer. I have found it difficult to understand the sheer inadequacy of the administration in trying to deal with it. It is a straightforward issue on which we could have all agreed. Our First Minister could have shown some leadership, done himself some good and earned the Assembly a few brownie points. However, we have seen the usual, aimless meandering with a half-hearted acknowledgement that there should have been a Welsh tick box, but no commitment to do anything about it. We needed the First Secretary to stick up for Wales, to knock on the door of his pal at 10 Downing Street and demand that he put it right, or he, Rhodri Morgan, would consider that the Prime Minister had let Wales down, and not for the first time.

This issue is straightforward. We all think that there should be a Welsh tick box. Most Labour AMs agree with that. However, the real issue that we are debating today is the willingness of the administration in this Assembly to stand up to the Labour Government at Westminster and to fight for the interests of the Assembly and for Wales. My impression of the administration since day one, whether led by Alun Michael or Rhodri Morgan, is that it is unwilling to do that. It is almost as if the administration thinks that giving Wales an Assembly was sufficient and the job is done. The job is not done. My party was opposed to setting up the Assembly, but we accepted the referendum result. We sought election, and we are working to make this Assembly work. We need a change of attitude and a determination to stick up for Wales.

I do not know how significant this debate about the tick box is. For some people, it seems trivial. On the other hand, it is significant in that it asks each of us, not so much as politicians, but as individuals, how we see ourselves. This self-observation matters to the Welsh. My first territorial identity was as 'Glyn the Bank', not because I am rich, but because of where I was born. My first really powerful identity was with Montgomeryshire, where I became leader of

absenoldeb blwch ticio Cymreig ar ffurflen cyfrifiad y flwyddyn nesaf yn datblygu drwy'r haf. Yr wyf wedi'i chael hi'n anodd deall diffyg llwyr y weinyddiaeth wrth geisio ymdopi â hi. Mae'n fater syml y gallem oll fod wedi cytuno arno. Gallai ein Prif Weinidog fod wedi dangos rhywfaint o arweinyddiaeth, er clod iddo'i hun tra'n cynyddu poblogrwydd y Cynulliad. Fodd bynnag, gwelsom yr un hen ddiffyg penderfyniad di-nod gyda chydabyddiaeth ddifater y dylai fod blwch ticio Cymreig wedi'i gynnwys, ond dim ymrwymiad i weithredu. Yr oedd angen i'r Prif Weinidog gefnogi Cymru, curo ar ddrws ei gyfaill yn 10 Stryd Downing a mynnu iddo unioni'r cam, neu byddai ef, Rhodri Morgan, yn ystyried bod y Prif Weinidog wedi siomi Cymru, ac nid am y tro cyntaf.

Mae'r mater yn syml. Yr ydym oll o'r farn y dylai fod blwch ticio Cymreig. Cytuna'r rhan fwyaf o ACau Llafur â hynny. Fodd bynnag, y mater gwirioneddol a drafodwn heddiw yw parodrwydd y weinyddiaeth yn y Cynulliad hwn i wynebu'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan a brwydro dros fuddiannau'r Cynulliad a Chymru. Fy argraff i o'r weinyddiaeth o'r cychwyn cyntaf, boed o dan arweiniad Alun Michael neu Rhodri Morgan, yw nad yw'n barod i wneud hynny. Mae bron fel petai'r weinyddiaeth yn credu ei bod yn ddigonol bod gan Gymru Gynulliad a bod y gwaith felly ar ben. Nid yw'r gwaith ar ben. Yr oedd fy mhlaid yn erbyn sefydlu'r Cynulliad, ond derbyniasom ganlyniad y refferendwm. Gofynasom am etholiad, ac yr ydym yn gweithio i wneud i'r Cynulliad hwn weithio. Mae angen newid agwedd arnom a phenderfyniad i gadw ochr Cymru.

Ni wn pa mor arwyddocaol yw'r ddadl hon am y blwch ticio. I rai pobl, ymddengys yn ddibwys. Ar y llaw arall, mae'n arwyddocaol gan ei bod yn gofyn i bob un ohonom, nid cymaint fel gwleidyddion, ond fel unigolion, ein barn amdanom ni ein hunain. Mae'r hunan-arsylwi hwn yn bwysig i'r Cymry. Fy hunaniaeth diriogaethol gyntaf oedd fel 'Glyn y Banc', nid am fy mod yn gyfoethog, ond o ganlyniad i'r lle y'm ganwyd. Yr oedd fy hunaniaeth bwerus gyntaf yn Sir Drefaldwyn,

the local council. On a national level, it is, I suppose, politically correct for me to say that I see myself as both Welsh and British and want to tick two boxes. However, whenever I have to choose, I always choose Welsh. To me, there is nothing inherently un-Conservative about that. So, come on, Rhodri, for the sake of Owain Glyndwr, Lloyd George, Aneurin Bevan and Mrs Thatcher, go out and get us our tick box.

**Gwenda Thomas:** Yn anarferol, ceisïaf gefnogi'r cynnig a gwelliant 2, oherwydd fy mod yn siomedig ynghylch diffyg blwch tic Cymreig. Cefnogaf hefyd yr alwad ar i bawb ystyried pwysigrwydd llenwi'r ffurflen er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei hariannu'n deg. Pe baem yn gwrando'n awr ar y drafodaeth yr wythnos diwethaf ar benderfyniad Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig i roi statws treftadaeth byd i Flaenafon, credaf y byddai hynny yn cynnig esboniad o'n teimladau dwfn ynghylch hawl y Cymry i ddewis rhoi tic mewn blwch yn dwyn y disgrifiad 'Cymreig'.

Soniodd Aelod ar ôl Aelod am bwysigrwydd ein hanes a'n hetifeddiaeth ac am fywydau ein cyfamau a'n cyndadau. Yn wir, yr oedd yn drafodaeth liwgar am yr hyn y mae'n ei olygu i lawer ohonom i fod yn Gymry ac yn Brydeinwyr.

I will support the motion, but not the party political motivation that drives the party of Welsh nationalism. To me, this is an issue as much for the non-politically active as for we politicians. I share the regret on the omission of a Welsh tick box voiced by the First Minister, whose Welshness is a characteristic that has earned him the support and respect of our nation. Indeed, my membership of and belief in the Labour Party, the natural party of Wales, is synonymous with being Welsh. I was brought up within a Welsh socialist family, which is very different to a Welsh nationalist one. My mother and father first met on an unemployed workers' march. The Labour Party fought to improve our standard of living and to defend our right to a Welsh identity.

lle deuthum yn arweinydd y cyngor lleol. Ar lefel genedlaethol, tybiaf ei bod yn wleidyddol gywir imi nodi fy mod yn ystyried fy mod yn Gymreig ac yn Brydeinig ac yr hoffwn dicio dau flwch. Fodd bynnag, o orfod dewis, dewisaf Cymreig bob amser. I mi, nid yw hynny'n wrth-Geidwadol mewn unrhyw ffordd. Felly, dewch, Rhodri, er mwyn Owain Glyndŵr, Lloyd George, Aneurin Bevan a Mrs Thatcher, ewch a mynnwch ein blwch ticio.

**Gwenda Thomas:** Unusually, I will try to support both the motion and amendment 2, because I am disappointed by the lack of a Welsh tick box. I also support the call for everyone to consider the importance of filling in the form to ensure that Wales is funded fairly. If we were to listen now to last week's discussion on the United Nations Education, Scientific and Cultural Organisation's decision to give world heritage status to Blaenavon, I believe that it would offer an explanation of our deep feelings on the right of Welsh people to choose to put a tick in a box carrying the description 'Welsh'.

Member after Member spoke about the importance of our history and heritage and about the lives of our ancestors. Indeed, it was a colourful discussion about what it means to many of us to be Welsh and British.

Cefnogaf y cynnig, ond nid cymhelliant pleidiau gwleidyddol sydd yn llywio plaid cenedlaetholdeb Cymru. I mi, mae hwn yn fater yr un mor berthnasol i bobl nad ydynt yn wleidyddol weithgar ag i ni'r gwleidyddion. Rhannaf hefyd y siom ynghylch hepgor blwch ticio Cymreig a leisiwyd gan ein Prif Weinidog, y mae ei Gymreictod yn nodwedd sydd wedi ennill cefnogaeth a pharch ein cenedl iddo. Yn wir, mae fy aelodaeth a'm cred yn y Blaid Lafur, plaid naturiol Cymru, yn gyfystyr â bod yn Gymreig. Fe'm magwyd o fewn teulu sosialaidd Cymreig, sydd yn wahanol iawn i deulu cenedlaetholgar Cymreig. Cyfarfu fy mam a'm tad am y tro cyntaf ar orymdaith i weithwyr di-waith. Brwydrodd y Blaid Lafur i wella safon ein bywydau ac i amddiffyn ein hawl i hunaniaeth

Gymreig.

Therefore, it is no wonder that I consider myself to be SWS—socialist, Welsh and selective—about what I will support today. I believe passionately that Labour is the party for Wales. However, I believe just as passionately that my constituents and the people of Wales deserve a Welsh tick box.

**Alun Pugh:** There are plenty of things to get angry about in this place. You can be angry that the UK is the fourth richest country in the world, but that we educate far too many of our children in buildings that are not fit for purpose. You can get angry about the fact that the richest live seven years longer than the poorest in our society, and you can get justifiably angry about the fact that people are harassed because of the colour of their skin. These things happen every day in Wales, and in my constituency. While our society is disfigured by inequality and injustice, I refuse to get too angry about the lack of a tick box. I will happily write 'Welsh, British and European' on my form.

The lack of a tick box is insensitive and I recognise that many will be offended by it. However anyone who thinks that this is the number one problem facing Wales needs to get out more. This is the last time that we will face this problem. I am confident that the Welsh parliament will legislate to correct this in 2011, the time of the next census, and that the next census form will be a model of equal opportunities practice. There is a long and honourable history of civil protest and disobedience in Wales, but a bonfire of census forms could seriously damage every pupil, patient and pensioner in Wales. So, fill it in, write Welsh in, and send it in.

5:10 p.m.

**Delyth Evans:** Croesawaf y drafodaeth hon heddiw. Bûm yn gweithio'n galed y tu ôl i'r llenni ynghyd ag eraill yn fy mhlaid—Rhodri yn fwy na neb—i geisio newid y sefyllfa gwbl annerbyniol hon. Mae'n dristwch mawr

Felly, nid yw'n syndod fy mod yn ystyried fy hun yn sosialydd, yn Gymreig ac yn ddetholgar ynglŷn â'r hyn a gefnogaf heddiw. Credaf yn frwd mai Llafur yw'r blaid i Gymru. Fodd bynnag, credaf yr un mor frwd fod fy etholwyr a phobl Cymru yn haeddu blwch ticio Cymreig.

**Alun Pugh:** Mae digon o bethau i'ch cythruddo yn y lle hwn. Gallwch gythruddo mai'r DU yw'r bedwaredd wlad fwyaf cyfoethog yn y byd, ond ein bod yn addysgu llawer gormod o'n plant mewn adeiladau anaddas. Gallwch gythruddo am y ffaith bod y bobl fwyaf cyfoethog yn byw saith mlynedd yn hwy na'r tlotaf yn ein cymdeithas, a gallwch gythruddo, a hynny am reswm da, am fod pobl yn dioddef aflonyddwch oherwydd lliw eu croen. Mae'r pethau hyn yn digwydd bob dydd yng Nghymru, ac o fewn fy etholaeth i. Tra bod ein cymdeithas wedi'i hanharddu gan anghydraddoldeb ac anghyfiawnder, gwrthodaf gythruddo'n ormodol am ddiffyg blwch ticio. Byddaf yn fwy na pharod i nodi 'Cymreig, Prydeinig ac Ewropeaidd' ar fy ffurflen.

Mae'r diffyg blwch ticio yn ansensitif a chydabyddaf y bydd llawer wedi'u sarhau ganddo. Fodd bynnag mae angen i unrhyw un sydd o'r farn mai dyma'r broblem fwyaf sydd yn wynebu Cymru ddeffro. Dyma'r tro olaf y byddwn yn wynebu'r broblem hon. Yr wyf yn hyderus y bydd senedd Cymru yn deddfu i gywiro'r camgymeriad hwn yn 2011, adeg y cyfrifiad nesaf, ac y bydd ffurflen y cyfrifiad nesaf yn fodel ar gyfer arfer cyfle cyfartal. Mae hanes hir ac anrhydeddus o brotest ac anufudd-dod sifil yng Nghymru, ond gallai coelcerth o ffurflenni cyfrifiad gael effaith andwyol ar bob disgybl, claf a phensiynwr yng Nghymru. Felly, llenwch y ffurflen, nodwch Cymreig arni, a'i dychwelyd.

**Delyth Evans:** I welcome this debate today. I have been working hard behind the scenes, along with other Members of my party—Rhodri more than anyone—to try to change this completely unacceptable situation. It

gennyf nad yw'r Prif Weinidog yn Llundain, un y mae gennyf feddwl uchel ohono, wedi gweld y ffordd yn glir i wrthdroi'r penderfyniad.

Nid oedd dirmyg bwriadol yn y ffordd y lluniwyd y ffurflen hon yn y lle cyntaf, ond unwaith y daeth y cam yn amlwg a'r niwed i nifer o bobl Cymru yn glir, dylid bod wedi darganfod ffordd i newid y sefyllfa yn gynt. Y mae'n anodd deall sut y gall biwrocraatiaeth ac anawsterau technegol gael eu rhoi o flaen dyhead naturiol pobl i allu mynegi eu cenedligrwydd ar ffurflen.

Gobeithiaf nad yw'n rhy hwyr ac y bydd llais unedig y Cynulliad yn gallu dylanwadu lle y mae lleisiau unigolion wedi methu hyd yn hyn. Nid wyf yn or-obeithiol ond mae'n bwysig bod y neges glir hon yn cyrraedd Llundain. Dylem annog pobl i gwblhau'r ffurflen, a gallwn fod yn ffyddiog, a chael rhyw fath o gysur o'r ffaith na all hyn ddigwydd eto.

**Huw Lewis:** The controversy concerning the Welsh tick box has created a frisson of excitement for at least one Welsh newspaper and for the bulk of the Plaid Cymru membership. However, I think that the rest of the Welsh population looks on fairly bemused. In the course of this so-called national debate, I have not received one letter, phone call nor have I been stopped in the street by a constituent—[ASSEMBLY MEMBERS: 'There's a postal strike'.]

There are no problems at Merthyr post office. I have not been lobbied by anyone on this issue who was not a member of Plaid Cymru or the Independent Wales Party. The much trumpeted, slow-hand-clap at the Millennium Stadium at the Wales versus South Africa rugby match turned out to be a slow, no-way from Welsh rugby fans. For those reasons, I approach this issue with a degree of scepticism as to whether we should be devoting Assembly time to discuss it.

For those reasons, I also look for an alternative motivation for those who seek to raise the profile of this issue in this Chamber. We do not need to look too far for the barely

greatly saddens me that the Prime Minister, someone of whom I have a high opinion, has not seen fit to overturn this decision.

No offence was intended in the way that this form was initially designed, but as soon as the omission became obvious and the hurt felt by many Welsh people became clear, a way should have been found to change the situation earlier. It is difficult to understand how bureaucracy and technical difficulties can be placed before people's natural wishes to be able to express their nationality on a form.

I hope that it is not too late and that the Assembly's united voice can influence where individual voices have failed so far. I am not too hopeful, but it is important that this clear message reaches London. We should encourage people to complete their forms, and we can be confident, and take some comfort from the fact that this cannot happen again.

**Huw Lewis:** Mae'r ddadl ynghylch y blwch ticio Cymreig wedi creu gwefr o gyffro i un papur newydd yng Nghymru o leiaf ac i'r rhan fwyaf o aelodau Plaid Cymru. Fodd bynnag, credaf fod gweddill poblogaeth Cymru yn gwyllo mewn cryn benbleth. Yn ystod y ddadl genedlaethol hon, ni dderbyniais unrhyw lythyrau, galwadau ffôn na chael fy stopio ar y stryd gan etholwr—[AELODAU O'R CYNULLIAD: 'Mae streic bost'.]

Nid oes unrhyw broblemau yn swyddfa bost Merthyr. Nid oes unrhyw un wedi fy lobïo ynglŷn â'r mater hwn nad oedd yn aelod o Blaid Cymru neu Blaid Annibynnol Cymru. Gwrthododd dilynwyr rygbi Cymru gymryd rhan yn yr ymgyrch curo dwylo araf y bu sôn mawr amdani yn Stadiwm y Mileniwm yn y gêm rhwng Cymru a De Affrica. Am y rhesymau hynny, yr wyf yn amau i raddau a ddylem fod yn neilltuo gymaint o amser y Cynulliad i drafod y mater hwn.

Am y rhesymau hynny, edrychaf hefyd am gymhelliant gwahanol i'r rheini sydd yn ceisio codi proffil y mater hwn yn y Siambr hon. Nid oes angen inni edrych yn rhy bell cyn canfod

hidden agenda. Instead of being positive about this, what we have once again is an attempt to replace the normal run of political debate about left versus right, progressive versus conservative with the politics of identity—the politics of Plaid Cymru. That kind of politics will hijack any issue, whether of substance or confection, and replace any meaningful debate of its worth with a murder mystery whodunnit entitled ‘Who done Wales down’. This shining example of nationalist politics is just that—a confection. Part of a long series of bandwagons clambered on by Plaid Cymru that all have the same purpose: to build resentment among the people of Wales against the very idea of Britishness. They troop one by one through the television and radio studios of Wales describing the latest snub, today’s insult and the latest outrage to Wales emerging from Westminster. That is set aside from the fact that Labour in Westminster delivered devolution, Objective 1 and the platform, from which the nationalists could, if they wished, make a positive contribution to the progress of Wales.

I despair at their inability to do so and I despair at the contributions of spokespeople from other political parties who join Plaid Cymru on the rocky ground of the politics of identity rather than the politics of real people’s real lives. Listening to them, you would assume that they were some secret Whitehall department operating in the shadows of the department of anti-Welsh affairs, the apex of a great Anglo-saxon conspiracy to down the Welsh nation at every turn.

The politics of identity will make no difference to the lives of people in Wales except to promote resentment.

**The Presiding Officer:** Order. Your time is up. I allow Members a few seconds to wind up.

**Nick Bourne:** This may not be the most important or urgent issue facing Wales. However, that does not mean that it is not important or urgent. There are other issues that we could debate, but Plaid Cymru has

yr agenda gudd. Yn lle bod yn gadarnhaol, yr hyn sydd gennym unwaith eto yw ymdrech i ddisodli trefn arferol dadl wleidyddol ynghylch y chwith yn erbyn y dde, datblygol yn erbyn ceidwadol â gwleidyddiaeth hunaniaeth—gwleidyddiaeth Plaid Cymru. Bydd y math hwnnw o wleidyddiaeth yn herwgipio unrhyw fater, boed yn fater o sylwedd neu’n gymysgedd, a disodli gwerth unrhyw drafodaeth ystyrion ag antur dirgelwch llofruddiaeth o’r enw ‘Pwy laddodd Cymru’. A dyna yw’r enghraifft wych hon o wleidyddiaeth cenedlaetholwyr—cymysgedd. Rhan o gyfres hir o achosion y dydd a fabwysiadwyd gan Plaid Cymru yn anelu at yr un nod: datblygu drwgdeimlad ymhlith pobl Cymru tuag at y syniad o Brydeinrwydd. Ânt bob yn un drwy stiwdios teledu a radio Cymru yn disgrifio’r sarhad diwethaf a’r cythruddiad diweddaraf yn erbyn Cymru gan San Steffan. Nid ystyrir y ffaith mai’r Blaid Lafur yn San Steffan a gyflwynodd ddatganoli, Amcan 1 a’r llwyfan lle gallai cenedlaetholwyr, pe dymunant, wneud cyfraniad pwysig tuag at gynnydd Cymru.

Yr wyf yn colli amynedd â’u hanallu i wneud hynny ac â chyfraniadau llefarwyr o bleidiau gwleidyddol eraill sydd yn ymuno â Phlaid Cymru ar dir anwadal gwleidyddiaeth hunaniaeth yn hytrach na gwleidyddiaeth bywydau go iawn pobl go iawn. O wrando arnynt, fe dybiech eu bod yn aelodau o ryw adran gyfrin o Whitehall yn gweithredu yng nghysgodion adran materion gwrth-Gymreig, uchafbwynt cynllwyn Eingl-Sacsonaidd mawr i drechu’r Cymry ar bob cyfle.

Ni wnaiff gwleidyddiaeth hunaniaeth unrhyw wahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru heblaw am hybu drwgdeimlad.

**Y Llywydd:** Trefn. Mae eich amser ar ben. Caniatâf rai eiliadau i Aelodau ddirwyn i ben.

**Nick Bourne:** Efallai nad hwn yw un o’r materion pwysicaf neu’r un sydd â’r mwyaf o frys sydd yn wynebu Cymru. Fodd bynnag, nid yw hynny’n golygu nad yw’n bwysig nac yn fater brys. Mae materion eraill y gallem eu

chosen this as the subject for its minority party debate. I understand that it has every right to do so.

Few issues are black and white. However, this issue seems absolutely clear to me. As we have a National Assembly, it seems patently absurd to have a census in our country where people cannot indicate that they are Welsh. It is as straightforward as that. It is extraordinary that some people are proposing excuses as to why we have not got a Welsh tick box.

We have devolution, which was delivered because we have a Labour Government. However, when we came to the National Assembly, many of us thought that it would be more than a rubber stamp for everything that comes out of Westminster. If it is to be meaningful, we must say, on occasion, that we want to do things differently here. My party had a part to play in making Rhodri Morgan First Secretary, as the post was then called, in February. I was unsure as to whether we were doing our party any good. I thought that Rhodri would be more independent and would stick up for Wales. Even at this eleventh hour, I hope that he will do so.

I agree with Owen John that this is a litmus test. It is not the most important issue facing Wales, but it is a litmus test. Are we going to make a difference? What has happened to the Westminster-Cardiff access? I suspect that there will be little for Wales in the Queen's Speech. What is happening? Why do we have no impact in Westminster? Why are we not punching in Westminster to ensure that there is a Welsh dimension to the Queen's Speech and that we have a Welsh tick box? When Rhodri became First Minister there was much goodwill and optimism throughout Wales. I hope that he will address this when he speaks.

I must tell Huw Lewis that it is not only nationalists who feel strongly about this. Before the postal dispute stopped mail getting through, I had a substantial postbag from people of all political parties and those who did not support any political party, who

trafod, ond mae Plaid Cymru wedi dewis y pwnc hwn fel pwnc ei dadl plaid leiafrifol. Deallaf fod ganddi bob hawl i wneud hynny.

Prin yw'r materion sydd yn ddu a gwyn. Fodd bynnag, ymddengys y mater hwn yn hollol glir imi. Gan fod gennym Gynulliad Cenedlaethol, ymddengys yn hollol wirion ein bod yn cynnal cyfrifiad yn ein gwlad lle na all pobl ddynodi eu bod yn Gymreig. Mae mor syml â hynny. Mae'n syndod bod ambell un yn cynnig esgusodion dros pam nad oes gennym flwch ticio Cymreig.

Cawsom ddatganoli, a gyflwynwyd am fod gennym Lywodraeth Lafur. Fodd bynnag, pan ddaethom i'r Cynulliad Cenedlaethol, yr oedd llawer ohonom o'r farn y byddai'n fwy na stamp rwber ar gyfer popeth a ddaw o San Steffan. Os yw am fod yn ystyrlon, rhaid inni ddatgan, o bryd i'w gilydd, ein bod am wneud pethau'n wahanol yng Nghymru. Chwaraeodd fy mhlaid ei rhan wrth ethol Rhodri Morgan yn Brif Ysgrifennydd, teitl y swydd ym mis Chwefror. Nid oeddwn yn siŵr a fyddai hynny o fudd i'n plaid. Yr oeddwn o'r farn y byddai Rhodri yn fwy annibynnol ac y byddai'n cadw ochr Cymru. Hyd yn oed yn yr unfed awr ar ddeg hon, gobeithiaf y gwnaiff hynny.

Cytunaf ag Owen John mai prawf litmws yw hwn. Nid dyma'r mater pwysicaf sydd yn wynebu Cymru, ond mae'n brawf litmws. A ydym yn mynd i wneud gwahaniaeth? Beth a ddigwyddodd i'r mynediad San Steffan-Caerdydd? Yr wyf yn amau na fydd llawer i Gymru yn Araith y Frenhines. Beth sydd yn digwydd? Pam na chawn unrhyw ddylanwad yn San Steffan? Pam nad ydym yn pwyso ar San Steffan i sicrhau bod dimensiwn Cymreig i Araith y Frenhines a bod gennym flwch ticio Cymreig? Pan etholwyd Rhodri yn Brif Weinidog yr oedd llawer o ewyllys da a gobaith ledled Cymru. Gobeithiaf y bydd yn ymdrin â hyn wrth siarad.

Rhaid imi ddweud wrth Huw Lewis nad cenedlaetholwyr yn unig sydd yn teimlo'n gryf am hyn. Cyn i'r anghydfod post atal post rhag cael ei ddsbarthu, derbyniais ohebiaeth sylweddol gan bobl o bob plaid wleidyddol a phobl nad oeddent yn cefnogi unrhyw blaid

agreed with the need for a separate Welsh tick box—

**Huw Lewis:** I believe that people are more grown up about this. I agree that there is a problem regarding the Welsh tick box. I would like to see one on the census form. However, the problem was made in Wales. We did not ask for a tick box. Let us be grown up enough to say that. We did not ask for a tick box during the consultation.

**Nick Bourne:** That may be the case. Huw may also like to acknowledge that Denzil Davies and Allan Rogers, who are Members of Parliament for the Labour Party in Westminster, played a dishonourable part in not giving us a tick box.

The Conservative group will support the motion. We will abstain on amendment 2, not because we favour civil disobedience, as we do not, but because it is dismissive. The amendment starts by saying ‘while recognising’, as if that is the end of the story and we are giving up on the battle for a Welsh tick box. We cannot agree to that. We despair at this administration’s lack of impact on Westminster. We hope that that will change and that, even at this eleventh hour, the First Minister will have something constructive to say on this.

**The First Minister:** I want to press the case for amendment 2 and indicate the Labour Party’s view on Ieuan’s motion. Had the motion been worded ‘there should have been a Welsh tick box’, we would not have amended it and it would have been adopted with united support. I have been advised that it is impractical to claim now that we can still secure changes to meet the widespread demand for a Welsh tick box. Our statisticians advise me that the idea given by many Members that a Welsh tick box can be achieved at this late hour by adding a loose insert page is not practical. This is a household census. One form will be distributed per head of household for households of up to five people. There would be hopeless confusion if there were an addendum for any number of people in a

wleidyddol, a oedd yn cytuno â’r angen i gael blwch ticio Cymreig ar wahân—

**Huw Lewis:** Credaf fod pobl yn fwy aeddfed am hyn. Cytunaf fod problem ynghylch y blwch ticio Cymreig. Hoffwn weld blwch ar ffurflen y cyfrifiad. Fodd bynnag, yng Nghymru y cynhyrchwyd y broblem. Ni ofynasom am flwch ticio. Gadewch inni fod yn ddigon aeddfed i ddweud hynny. Ni ofynasom am flwch ticio yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**Nick Bourne:** Efallai’n wir. Efallai yr hoffai Huw hefyd gydnabod i Denzil Davies ac Allan Rogers, sydd yn Aelodau Seneddol o’r Blaid Lafur yn San Steffan, chwarae rhan waradwyddus wrth beidio â rhoi blwch ticio inni.

Bydd y grŵp Ceidwadol yn cefnogi’r cynnig. Byddwn yn ymatal ar welliant 2, nid am ein bod o blaid anufudd-dod sifil, gan nad ydym, ond am ei fod yn ddiystyriol. Dechreuau’r gwelliant drwy nodi ‘er ein bod yn cydnabod’, fel petai hynny yw diwedd y stori a’n bod yn rhoi’r gorau i frwydro dros flwch ticio Cymreig. Ni allwn gytuno â hynny. Yr ydym yn siomedig â diffyg dylanwad y weinyddiaeth hon ar San Steffan. Gobeithiwn y bydd hynny’n newid ac y bydd gan y Prif Weinidog rywbeth adeiladol i’w nodi, hyd yn oed ar yr unfed awr ar ddeg hon.

**Prif Weinidog Cymru:** Hoffwn bwysleisio’r achos dros welliant 2 a nodi barn y Blaid Lafur ar gynnig Ieuan. Pe bai’r cynnig wedi’i eirio ‘dylai blwch ticio Cymreig fod wedi ei gynnwys’, ni fyddem wedi ei ddiwygio a byddai wedi cael ei fabwysiadu gyda chefnogaeth unfrydol. Fe’m cynghorwyd ei bod yn anymarferol honni yn awr y gallwn barhau i sicrhau newidiadau i fodloni’r galw helaeth am flwch ticio Cymreig. Fe’m cynghorwyd gan ein hystadegwyr nad yw’r syniad a gyflwynwyd gan sawl Aelod y gellir cyflawni blwch ticio Cymreig mor hwyr yn y dydd drwy ychwanegu dalen atodol rydd yn ymarferol. Cyfrifiad o gartrefi yw hwn. Dosberthir un ffurflen i bob pennaeth cartref ar gyfer cartrefi o hyd at bum person. Byddai dryswch anobeithiol pe cyflwynwyd ychwanegiad ar gyfer unrhyw nifer o bobl



household without any reference to it in the main census form. The results would be liable to a wide and unacceptable margin of error. However, I am a politician, not a statistician. Neither I nor anyone else in the Chamber has any way of testing whether that is true. However, that is the advice that I have received from the statisticians.

**David Davies** *rose*—

5:20 p.m.

**The First Minister:** I cannot give way, as time is short. I am told that overprinting, which the Conservatives mentioned, is incompatible with machine reading. I am a politician and not a statistician. Overprinting is a nice idea, but our statisticians say that it is not practical or compatible with machine reading.

Let us return to the issue of timing. I accept that I am one of the guilty people, because I am a Member of Parliament as well as being an Assembly Member. I could have raised these issues if I had attended frequently and if I had noticed the problem or it had been drawn to my attention. Ieuan, Dafydd Wigley, Ron Davies and John Marek are also guilty. Cynog might be in the clear, because he had left the House of Commons by then. However, the rest of us had our opportunity, but we did not avail ourselves of it. Peers of the realm also had the opportunity when these regulations were laid, but they did not avail themselves of it either. We are all equally guilty for not having spotted this. We did not spot it until the implications became clear after the debate in the Scottish Parliament, which changed their census form to include a Scottish question. That was on 15 June. Deryk Williams, census manager for Wales, raised this issue in a meeting with our officials in the middle of July, after the new national statistician, Len Cook, had started work. I raised the issue with Len Cook. I wrote to him and met him in early August to press the issue for a Welsh tick box to give us parity with Scotland. Unfortunately, production had already begun on the giant census form sheets and printing was only days away. On 29 July, work had begun on

mewn cartref heb gyfeirio ato o gwbl ym mhrif ffurflen y cyfrifiad. Byddai'r canlyniadau yn agored i gamgymeriadau eang ac annerbyniol. Fodd bynnag, gwleidydd ydwyf, nid ystadegydd. Nid oes gennyf i nag unrhyw un arall yn y Siambr unrhyw ffordd o brofi a yw hynny'n wir. Fodd bynnag, dyna'r cyngor a dderbyniais gan yr ystadegwyr.

**David Davies** *a gododd*—

**Prif Weinidog Cymru:** Ni allaf ildio, gan fod amser yn brin. Dywedir wrthyf nad yw trosargraffu, fel y crybwyllwyd gan y Ceidwadwyr, yn gydnaws â darllen drwy beiriant. Gwleidydd ydwyf ac nid ystadegydd. Mae trosargraffu yn syniad hwylus, ond dywed ein hystadegwyr nad yw'n ymarferol nac yn gydnaws â darllen drwy beiriant.

Gadewch inni ddychwelyd at amseru. Derbyniaf fy mod yn un o'r bobl euog, gan fy mod yn Aelod Seneddol yn ogystal ag Aelod o'r Cynulliad. Gallwn fod wedi codi'r materion hyn pe bawn wedi mynychu'n rheolaidd a phe bawn wedi sylwi ar y broblem neu petai rhywun wedi tynnu fy sylw ati. Mae Ieuan, Dafydd Wigley, Ron Davies a John Marek hefyd yn euog. Efallai bod Cynog yn ddieuog gan ei fod wedi gadael Tŷ'r Cyffredin erbyn hynny. Fodd bynnag, yr oedd cyfle gan y gweddill ohonom, ond ni fanteisio arno. Yr oedd cyfle hefyd gan Arglwyddi'r deyrnas pan gyflwynwyd y rheoliadau hyn, ond ni wnaethont hwythau fanteisio arno ychwaith. Yr ydym oll yr un mor euog am beidio â gweld hyn. Ni chafodd ei amlygu tan i'r goblygiadau ddod i'r amlwg ar ôl y ddadl yn Senedd yr Alban, a newidiodd ffurflenni'r cyfrifiad i gynnwys cwestiwn am yr Alban. Digwyddodd hynny ar 15 Mehefin. Cododd Deryk Williams, rheolwr y cyfrifiad yng Nghymru, y mater hwn mewn cyfarfod gyda'n swyddogion ganol mis Gorffennaf, ar ôl i'r ystadegydd gwladol newydd, Len Cook, ddechrau gweithio. Codais y mater gyda Len Cook. Ysgrifennais ato a chyfarfûm ag ef ddechrau Awst i bwysleisio bod angen blwch ticio Cymreig i roi cysondeb â sefyllfa'r Alban. Yn anffodus, yr oedd y gwaith cynhyrchu eisoes

the Welsh language version and the day after my meeting with Len Cook, work began on the English language version. That is how it happened. I do not believe that that was a conspiracy, as many people have alleged today. It was simply a failure to recognise the post-devolution reality in relation to the question about ethnic identity. The forms were designed in 1997 and 1998 when people thought they were asking questions about ethnic origins. That is the issue that we face today. We have received the advice that it is not practical to change the form. However, we can express our regrets and anger that this census, the last of its kind, was designed pre-devolution, but will be implemented post-devolution.

**Ieuan Wyn Jones:** Given that there is overwhelming opposition to the fact that there is no Welsh tick box—and I fully understand your argument—do you agree that the way forward is for the four party leaders in Wales to write to Tony Blair expressing the fact that this Assembly has come to a decision on the issue?

**The First Minister:** You always try this tactic because you like to pretend that you are more important than you are, Ieuan. [*Laughter.*] I am sorry about that. If you want to play to the gallery, then you must learn the script. You have not had the advantage of receiving advice from our statisticians, which says that it is not practical to change the form. If you accept that and want to rephrase your motion to say that it should have included a Welsh tick box that is fine. We can all agree on that. However, it is important that we do not lose out on the Barnett formula by condoning or encouraging people not to fill in the census form. It is vital to all of us and vital to public services in Wales.

**Cynog Dafis:** Croesawaf farn unfrydol y ddadl hon. Croesawaf hefyd gryfder argyhoeddiad nifer o'r Aelodau. Mae hynny'n galonogol. Gwrandewais gyda chryngydymdeimlad ar eiriau Gwenda Thomas a'r ffordd yr uniaethodd, yn ei hanes teuluol ei

yn mynd rhagddo ar daflenni enfawr ffurflenni'r cyfrifiad a dim ond diwrnodau oedd tan iddynt gael eu hargraffu. Ar 29 Gorffennaf, dechreuodd y gwaith ar y fersiwn Cymraeg a'r diwrnod ar ôl fy nghyfarfod â Len Cook, dechreuodd y gwaith ar y fersiwn Saesneg. Dyna sut y digwyddodd. Ni chredaf y bu unrhyw gynllwyn, fel y mae llawer o bobl wedi honni heddiw. Methiant syml i gydnabod y gwirionedd ôl-ddatganoli mewn perthynas â'r cwestiwn am hunaniaeth ethnig ydoedd. Cynlluniwyd y ffurflenni ym 1997 a 1998 pan oedd pobl o'r farn eu bod yn holi cwestiynau am darddiad ethnig. Derbyniom gyngor nad yw'n ymarferol newid y ffurflen. Fodd bynnag, gallwn gyfleu ein siom a'n dichter y cynlluniwyd y cyfrifiad hwn, yr olaf o'i fath, cyn-datganoli, ond y'i gweithredir yn y cyfnod ôl-ddatganoli.

**Ieuan Wyn Jones:** O gofio bod gwrthwynebiad eithriadol i'r ffaith nad oes blwch ticio Cymreig—a deallaf eich dadl yn llwyr—oni chytunwch mai'r ffordd ymlaen yw i arweinwyr y pedair plaid yng Nghymru ysgrifennu at Tony Blair yn mynegi'r ffaith fod y Cynulliad hwn wedi gwneud penderfyniad ar y mater?

**Prif Weinidog Cymru:** Yr ydych bob amser yn rhoi cynnig ar y dacteg hon am eich bod yn hoffi esgus eich bod yn bwysicach nac yr ydych, Ieuan. [*Chwerthin.*] Mae'n ddrwg gennyf am hynny. Os ydych am chwarae i'r galeri, dylech ddysgu'r sgript. Ni chawsoch y fantais o gael cyngor gan ein hystadegwyr, sydd yn nodi nad yw'n ymarferol newid y ffurflen. Os derbyniwch hynny a'ch bod am aileirio eich cynnig i nodi y dylai fod wedi cynnwys blwch ticio Cymreig mae hynny'n iawn. Gallwn oll gytuno ar hynny. Fodd bynnag, mae'n bwysig na chollwn fformwla Barnett wrth ganiatáu neu annog pobl i beidio â llenwi ffurflenni'r cyfrifiad. Mae'n hanfodol inni i gyd ac yn hanfodol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Cynog Dafis:** I welcome the unanimity of this debate. I also welcome the strength of conviction of many Members. That is encouraging. I listened with great empathy to Gwenda Thomas's words and the way she identified, in her own family history,

hunan, Gymreictod â'r mudiad Llafur. Yr wyf yn rhannu'r un gwreiddiau ac yr wyf innau yr un mor falch â hithau o hanes y mudiad Llafur yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif. Mae gennym dreftadaeth y gallwn ymfalchïo ynddi, treftadaeth yr ydym am ei mynegi drwy arwyddo ein bod yn Gymry yn y cyfrifiad hwn.

Croesawaf yn arbennig eiriau Delyth Evans. Dangosodd Val Feld yn ogystal bwysigrwydd cwestiwn hunaniaeth Gymreig i'r antur yr ydym wedi ymgymryd â hi gyda sefydlu'r Cynulliad hwn. Gwnaeth Peter Black gyfraniad gwerthfawr drwy esbonio cefndiroedd cymhleth y rhai sydd yn eu dynodi eu hunain yn Gymry. Mae hynny'n wych. Gwnaeth Christine Gwyther yr un fath. Gwrandewais yn ofalus ar eiriau William Graham hefyd.

Mae eraill wedi defnyddio'r ddadl hon i greu anghytgord. Ein bwriad oedd osgoi hynny a dyna pam fod geiriad ein cynnig yn cyfeirio at y dyfodol yn hytrach na'r gorffennol. Nid oeddem am ddannod i neb am y gorffennol, dim ond datgan bwriad clir ynglŷn â'r dyfodol. Mae'n drueni i Huw Lewis ddefnyddio'r ddadl hon i ymosod ar Plaid Cymru ac ar genedlaetholdeb Cymreig. Yr oedd yn ymosodiad ar yr egwyddor o hunaniaeth genedlaethol. Mae'n drueni bod hynny wedi sarnu'r ddadl. Trueni arall yw ei bod yn ymddangos fel pe bai Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, wedi rhoi'r ffidil yn y to. Gallem fod wedi cael blwch tic mor ddiweddar â Gorffennaf neu Awst. Mater o ewyllys wleidyddol yn unig ydoedd erioed a hynny ydyw yn awr hefyd. Gwrthodaf gredu nad oes modd goresgyn problemau technegol, biwrocraataidd a chyfrifiadurol er mwyn rhoi i bobl Cymru yr hyn y maent yn ei alw amdano. Gobeithiaf y caiff y cynnig ei dderbyn gydag arddeliad.

Yr ydym wedi esbonio pam na allwn gefnogi gwelliant 1 er bod gennyf y parch mwyaf i'r cymhelliad y tu ôl iddo. Teimlwn y byddai'n gorgymhlethu pethau ac y byddai'n anodd ar lawer ystyr i ddeall ei berwyl.

Credwn fod gwelliant 2 yn ddianghenrhaid,

Welshness with the Labour movement. I share the same roots and I am as proud as she is of the Labour movement's history in Wales in the twentieth century. We have a heritage of which to be proud, a heritage which we want to express by signifying that we are Welsh in this census.

I particularly welcome Delyth Evans's words. Val Feld also showed the importance of the question of Welsh identity to the venture we have undertaken with the establishment of this Assembly. Peter Black made a valuable contribution, by explaining the complexity of the backgrounds of those who designate themselves as Welsh. That is splendid. Christine Gwyther did the same. I also listened closely to William Graham's words.

Others have used this debate to create discord. Our intention was to avoid that and that is why the wording of our motion refers to the future rather than the past. We did not want to reproach anyone for the past, we wished only to express a clear intention for the future. It is a shame that Huw Lewis used this debate to attack Plaid Cymru and Welsh nationalism. It was an attack on the principle of Welsh identity. It is a shame that that has tarnished the debate. It is also a shame that Rhodri Morgan, the First Minister, seems to have thrown in the towel. We could have had a Welsh tick box as late in the day as July or August. It was always a matter of political will and it still is. I refuse to believe that there is no way of overcoming technical, bureaucratic and computer problems to give the people of Wales what they are calling for. I hope that this motion will be accepted with conviction.

We have explained why we cannot support amendment 1 although I have the utmost respect for its motive. We feel that it would overcomplicate matters and that it would be difficult in many respects to understand its purpose.

We believe that amendment 2 is unnecessary

gan nad oes neb yn y Cynulliad wedi argymhell gwrthod cymryd rhan yn y cyfrifiad. Er hyn, yr ydym yn derbyn eu dadleuon ar hynny a sylweddolwn y gall hyd yn oed 10,000 neu 20,000 o bobl sydd yn gwrthod llenwi ffurflen y cyfrifiad effeithio'n sylweddol ar y gyllideb Gymreig. Yr ydym yn derbyn hynny. Ni theimlwn fod y gwelliant hwn yn angenrheidiol ond fe'i cefnogwn yn ysbryd cytgord a chydweithio yn hytrach na rhoi rheswm i unrhyw un beidio â chefnogi'r cynnig.

Mae hi'n bwysig bod y cynnig wedi'i ddiwygio yn cael ei dderbyn gydag arddeliad. Byddai'n werth anfon cofnod o lawer o'r hyn a lefarwyd heddiw i Lundain. Hoffwn hepgor rhai rhannau ond byddai'n rhaid cynnwys y cyfan, mae'n siŵr. Hoffwn anfon y cofnod yn ei gyfanrwydd i Lundain a'i ddehongli fel hyn: mae pobl Cymru drwy'r Cynulliad Cenedlaethol wedi llefaru'n gryf o blaid y cyfle i ddatgan eu cenedligrwydd yn y cyfrifiad ac mae hwn yn ddiwyddiad o'r pwys mwyaf o ran hunan-ddiffiniad a chasglu gwybodaeth; mae pobl Cymru wedi llefaru, felly a ydych yn fodlon mynd yn erbyn barn unedig pobl Cymru drwy eu Cynulliad Cenedlaethol a thrwy filoedd o ddatganiadau unigol? Rhaid inni ennill y frwydr hon ac mae modd inni ei hennill drwy sefyll gyda'n gilydd a siarad gydag un llais.

as nobody in the Assembly has encouraged non-participation in the census. Despite this, we accept their arguments on that and we realise that even if 10,000 or 20,000 people refuse to fill in the census form, this could have a significant effect on the Welsh budget. We accept that. We do not feel that this amendment is necessary but we will support it in the spirit of unity and co-operation rather than give anyone a reason not to support the motion

It is important that the amended motion is adopted with conviction. It would be worth sending a record of much of what has been said today to London. I would like to omit some sections but we would probably have to include it all. I would like to send the record in its entirety to London and interpret it as follows: the people of Wales through the National Assembly have spoken strongly for the opportunity to declare their nationality in the census and this is an important event in terms of self-definition and data collection; the people of Wales have spoken, therefore are you willing to fly in the face of the united opinion of the people of Wales as expressed through their National Assembly and through thousands of individual declarations? We must and we can win this battle by standing together and speaking with one voice.

*Gwelliant 1: O blaid 7, Ymatal 0, Yn erbyn 44.*

*Amendment 1: For 7, Abstain 0, Against 44.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Bourne, Nick  
Cairns, Alun  
Davies, David  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Melding, David  
Morgan, Jonathan

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison

Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment rejected.*

*Gwelliant 2: O blaid 44, Ymatal 7, Yn erbyn 0 .  
Gwelliant 2: For 44, Abstain 7, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Dafis, Cynog  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Geraint  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Halford, Alison  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
 The following Members abstained.

Bourne, Nick  
 Cairns, Alun  
 Davies, David  
 Davies, Glyn  
 Graham, William  
 Melding, David  
 Morgan, Jonathan

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Motion adopted.*

Amended motion:

*The National Assembly believes that the 2001 census form should contain a tick box for people to express their Welsh identity.*

*While recognising the strength of opinion on this matter, the Assembly urges all people in Wales to fulfil their legal duty to complete the census form, acknowledging that undercounting of the population of Wales could have serious implications for core funding received by vital services in Wales over the coming decade; and calls on all political parties in Wales and all Assembly Members to encourage its completion.*

Cynnig wedi'i ddiwygio:

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu y dylai ffurflen cyfrifiad 2001 gynnwys blwch ble gall pobl fynegi eu hunaniaeth Gymreig.*

*Er ein bod yn cydnabod cryfder y farn ar y mater hwn, mae'r Cynulliad yn annog holl bobl Cymru i gyflawni eu dyletswydd gyfreithiol i gwblhau ffurflen y cyfrifiad, gan gydnabod y gallai tangyfrif poblogaeth Cymru gael goblygiadau difrifol o safbwynt y cyllid craidd a dderbynnir gan wasanaethau allweddol yng Nghymru dros y degawd nesaf; ac mae'n galw ar bob plaid wleidyddol yng Nghymru a phob un o Aelodau'r Cynulliad i annog pobl i'w chwblhau.*

*Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
 Amended motion: For 51, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
 Black, Peter  
 Bourne, Nick  
 Butler, Rosemary  
 Cairns, Alun  
 Chapman, Christine

Dafis, Cynog  
 Davidson, Jane  
 Davies, Andrew  
 Davies, David  
 Davies, Geraint  
 Davies, Glyn  
 Davies, Janet  
 Davies, Jocelyn  
**Davies, Ron**  
 Essex, Sue  
 Evans, Delyth  
 Feld, Val  
 Gibbons, Brian  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, John  
 Gwyther, Christine  
 Halford, Alison  
 Hancock, Brian  
 Hart, Edwina  
 Hutt, Jane  
 Jarman, Pauline  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Jones, Helen Mary  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Law, Peter  
 Lewis, Huw  
 Lloyd, David  
 Melding, David  
 Middlehurst, Tom  
 Morgan, Jonathan  
 Morgan, Rhodri  
 Neagle, Lynne  
 Pugh, Alun  
 Randerson, Jenny  
 Ryder, Janet  
 Sinclair, Karen  
 Thomas, Gwenda  
 Thomas, Owen John  
 Thomas, Rhodri Glyn  
 Wigley, Dafydd  
 Williams, Kirsty  
 Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.  
 Amended motion adopted.*

### **Cymeradwyo Newidiadau i Reol Sefydlog Rhif 22 Approval of Changes to Standing Order No. 22**

**The Minister for Assembly Business** **Y Trefnydd (Andrew Davies):** Cynigiau fod  
**(Andrew Davies):** I propose that

*the National Assembly, acting under section 46(6) of the Government of Wales Act 1998, and Standing Order No. 26:*

*y Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog Rhif 26:*

*i. considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 1*

*i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1*

*November 2000;*

*ii. approves the revisions to Standing Order No. 22 contained in the document entitled 'Proposed Changes to Standing Order 22' laid in the Table Office on 27 November 2000;*

*iii. resolves that the revisions shall take effect immediately.*

**Y Llywydd:** Nid oes cyfraniad ar y cynnig, felly galwaf am bleidlais. Bydd rhaid cael mwyafrif o ddwy ran o dair i dderbyn y cynnig.

*Tachwedd 2000;*

*ii. yn cymeradwyo'r diwygiadau i Reol Sefydlog Rhif 22 yn y ddogfen 'Newid Arfaethedig i Reol Sefydlog 22' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2000;*

*iii. yn penderfynu y dylai'r diwygiadau ddod i rym ar unwaith.*

**The Presiding Officer:** There is no contribution on the motion, therefore I call for a vote. A two-thirds majority is needed to adopt the motion.

*Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*

*Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Black, Peter  
Bourne, Nick  
Butler, Rosemary  
Cairns, Alun  
Chapman, Christine  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, David  
Davies, Geraint  
Davies, Glyn  
Davies, Janet  
Davies, Jocelyn  
Davies, Ron  
Essex, Sue  
Evans, Delyth  
Feld, Val  
Gibbons, Brian  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hancock, Brian  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Helen Mary  
Jones, Ieuan Wyn  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Lloyd, David  
Melding, David  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Neagle, Lynne



Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Kirsty  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion adopted.*

**The Presiding Officer:** Before we close proceedings, I extend the Assembly's sympathy to our colleague Peter Black, who lost his father this week. Please accept our deepest sympathy, Peter.

**Y Llywydd:** Cyn inni ddod â'r trafodion i ben, estynnaf gydymdeimlad y Cynulliad i'n cyd-Aelod Peter Black, a gollodd ei dad yr wythnos hon. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf, Peter.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw. Diolch yn fawr.

That brings our proceedings today to a close. Thank you.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.32 p.m.  
The session ended at 5.32 p.m.*